rho °ganiad inni wythnos nesa = give us a ring next week

caniatâd *noun, masculine*

= permission

mae modd apelio yn erbyn caniatâd

cynllunio = one can appeal against planning permission

caniataol *adjective*

cymryd yn °ganiataol = take for granted, assume

bydda i'n cymryd yn °ganiataol na °fydd y dosbarth yn parhau am °dymor arall = I will assume that the class will not be continuing for another term

caniatáu *verb-noun*

= permit, allow

°allwn ni °ddim caniatáu i hyn

°ddigwydd eto = we cannot allow this to happen again

canlyniad (*plural -au*) *noun, masculine*

= result

oes unrhywun fan hyn yn gwybod y canlyniad? = does anyone here know the result?

o °ganlyniad = as a result, consequently

canlynol *adjective*

= following; ...which follows/follow

cyfieithwch y brawddegau canlynol = translate the following sentences

canllaw (*plural -iau*) *noun, masculine or feminine*

= handrail; (*figurative*) guideline

dyma'r canllawiau y dylid eu dilyn

wrth °baratoi erthygl = these are the guidelines that should be followed in preparing an article

canmlwyddiant *noun, masculine*

= centenary

mae'n braf cael eich croesawu fan hyn i °ddathlu canmlwyddiant ein

mudiad = it's nice to be able to welcome you here to celebrate our movement's centenary

canmol *verb-noun*

= praise

rhad canmol y plant am eu gwaith

eleni = the children are to be praised for their work this year

cannoedd *plural of*

⇒ **cant**

canol (*plural -au*) *noun, masculine*

• = centre

maen nhw'n byw mewn fflat yng

°nghanol y °dre = they live in a flat in the town centre

• = middle

rhowch y lleill yn y canol = put the others in the middle

canolbarth *noun, masculine*

= central region

o °ganolbarth Lloegr mae °nheulu'n dod yn °wreiddiol = my family come from the Midlands (of England) originally

canolbwyntio *verb-noun*

= concentrate (*attention, etc*) (**ar°** on)

dw i eisiau i chi °ganolbwyntio ar y

°broblem = I want you to concentrate on the problem

roedd y rhaglen °deledu wedi

canolbwyntio ar achos gwraig o'i etholaeth = the television programme had concentrated on the case of a woman from his constituency

canolfan (*plural -nau*) *noun, feminine*

= centre (*building*)

cofiwch °alw yn ein canolfannau

croeso = remember to call at our reception centres

canolig *adjective*

= medium, middling

maint oedolion: Canolig/Mawr/Mawr

lawn = adult sizes:

Medium/Large/Extra Large

canolog *adjective*

= central

dyw'r gwres canolog °ddim yn

gweithio'n iawn = the central heating isn't working properly

canolwr (*plural canolwyr*) *noun, masculine*

= referee; arbitrator

dw i wedi rhoi'ch enw i lawr fel

canolwr = I've put your name down as a referee or for a reference

canrif (*plural -oedd*) *noun, feminine*

= century

°dair canrif yn °ddiweddarach, mae

dramâu Molière yn dal i °lwyddo = three centuries on, Molière's plays are still a success

gwahanol iawn oedd y sefyllfa yn y

°ganrif °ddiwetha = the situation was very different in the last century

can(t) (*plural cannoedd*) *numeral*

(*masculine*)

= a hundred

! The shorter form **can** is used with a directly following singular noun, cf ⇒ **chwe(ch)**, ⇒ **pum(p)**. However, this usage is confined these days to set

phrases, while the usual construction with this numeral is **cant o°** + plural noun. ...**y cant** corresponds to '...percent'. **Hanner can(t)** is the normal term for 'fifty'.

mae can punt/cant o° bunnoedd ar ôl

= there's a hundred pounds left

mae'n amlwg °fod cannoedd o

°fioedd o° bunnoedd wedi mynd ar °goll = it is obvious that hundreds of thousands of pounds have gone missing

roedd diweithdra wedi cyrraedd

pedwardeg y cant mewn ardaloedd

gwledig = unemployment had reached forty percent in rural areas

bydd e'n dathlu ei hanner cant

wythnos nesa = he'll be celebrating his fiftieth next week

...mewn wythnos lle gwelwyd dros

°gant a hanner o enillwyr = ...in a week which saw over a hundred and fifty winners

canu *verb*noun

• = sing

noson o hwyl a °chanu = an evening of fun and singing

• (of bell, phone) = ring

dw i'n moyn gorffen y gwaith copïo

'ma cyn i'r °gloch °ganu = I want to finish this copying before the bell goes/rings

car (plural **ceir**) *noun*, masculine

= car

Dwyn Ceir yn Arafu = Car Thefts Drop

⇒ **modur**

carchar *noun*, masculine

= prison

carchar i'r °wraig °gipiodd °faban o

ysbyty = prison for the woman who snatched a baby from a hospital

carcharu *verb*noun

= imprison

caedig *adjective*

= kind

'na °garedig! = how kind!

a °fyddai'n cwsmeriaid mor °garedig â dod â'u platiau'n ôl = would our customers be so kind as to bring their plates back?

cariad *noun*, masculine

• = love

dw i'n teimlo cymysgedd o °gariad ac atgasedd tuag ato = I feel a mixture of love and hate towards it

• (plural **-on**) = boyfriend/girlfriend

ydy Medi'n dod â'i °hchariad newydd heno? = is Medi bringing her new boyfriend tonight?

• (term of endearment) = dear

beth sy'n bod, cariad? = what's the matter, dear?

cario *verb*noun

= carry

mi °garia i'r rhain i ti = I'll carry these for you

carreg (plural **cerrig**) *noun*, feminine

= stone; rock

mae agor y °ganolfan newydd 'ma'n

°garreg °filltir yn hanes ein cymuned = the opening of this new centre is a milestone in the history of our community

⇒ **maen**

cartre(f) (plural **cartrefi**) *noun*,

masculine

= home

mae'r adran wedi symud i'w °chartref

newydd gyferbyn Neuadd y °Dre = the department has moved to its new home opposite the Town Hall

⇒ **gartre(f)**, ⇒ **ymsgartrefu**, ⇒ **aelwyd**

caru *verb*noun

= love

wi'n dy °garu di = I love you

! This verb is also used in Southern areas with unreality endings to mean would like, and in this sense only is a synonym for **hoffwn i** and **leiciwn i**: **be' °garet tithau °weud ar y pwnc 'ma, 'te?** = what would you like to say on this subject, then?

cas *adjective*

• = nasty (**wrth°** to)

oedd e'n °gas wrthat ti, 'te? = was he nasty to you, then?

• = °gas gen i... I hate... (etc)

°gas gen i °fresych = I hate cabbage

casáu *verb*noun

= hate

mae'r °ddau'n casáu ei gilydd = they hate each other

casgliad (plural **-au**) *noun*, masculine

• = collection

mae gynno fo °gasgliad enfawr o stampiau = he's got a huge stamp collection

• = conclusion

dw i wedi dod i'r casgliad °fod... = I've come to the conclusion that...

casglu *verb* noun

• = collect; gather

o'n nhw'n casglu newyddion o °bob cwr o'r byd = they collected/were collecting news from all over the world

• (*figurative*) = gather, conclude

dw i'n casglu o hyn, felly, bod chi'n bwriadu ymddiswyddo wedi'r cwblw = I gather from this, then, that you intend to resign after all

castell (*plural cestyll*) *noun, masculine*

• = castle

• (*chess*) = rook

cath (*plural -od*) *noun, feminine*

= cat

cau (*stem cae-*) *verb* noun

= close, shut

bydd y llyfrgell yn cau am °bump heno = the library will close at five this evening

fe °gaewyd y ffatri °ddechrau'r

°fiwyddyn = the factory was closed at the beginning of the year

⇒ **ar °gau**

cawl *noun, masculine*

= soup

(*figurative*) = a mess

maen nhw wedi gwneud cawl o'r peth 'ma = they've made a mess of this

cawod (*plural -ydd*) *noun, feminine*

= shower

...gydag ysbeidiau heulog a

°chawodydd yma ac acw = ...with sunny periods and scattered showers

dw i eisiau cael cawod °gynta = I want to have a shower first

°elli di °drwsio'r °gawod inni? = can you fix the shower for us?

caws *noun, masculine*

= cheese

mae peth caws ar ôl yn yr oergell = there's a bit of cheese left in the fridge

cefn *noun, masculine*

= back

mae °nghefn i'n rhoi dolur = my back is hurting

rhowch eich bagiau yn y cefn = put your bags in the back

cefnder (*plural cefndyr*) *noun, masculine*

= (male) cousin

mae'r dyn 'na'n °gefnder i mi = that man is my cousin

⇒ **cyfnither**

cefnidir (*plural -oedd*) *noun, masculine*

= background

i °ddechrau, °allwch chi °ddweud rhywbeth wrthon ni am eich cefndir? = to begin with, can you tell us something about your background?

cefn gwlad *noun, masculine*

= countryside, country (*as opposed to town*)

theatr a °allai °deithio ar hyd

ardaloedd diarffordd cefn gwlad

Cymru = a theatre that could travel all over the inaccessible areas of the Welsh countryside

cefnogaeth *noun, feminine*

= support

cefnogi *verb* noun

= support

dewch i'n cefnogi ni! = come and support us!

cefnogol *adjective*

= supportive

cefnu *verb* noun

= turn one's back (**ar** on)

ceffyl (*plural -au*) *noun, masculine*

= horse

beiciau mynydd a °cheffylau i'w llogi

yn yr ardal = mountain bikes and horses (available) to be hired in the area

ceg (*plural -au*) *noun, feminine*

= mouth

ac fe agorodd y llew mwya ei °geg =

and the biggest lion opened his mouth

cau dy °geg! = shut your mouth!, shut up!

cegin (*plural -au*) *noun, feminine*

= kitchen

cer i eistedd yn y °gegin eiliad, nei di?
= go and sit in the kitchen for a moment, will you?

ceidwadol *adjective*

= conservative

y °Blaid °Geidwadol = the Conservative Party

Ceidwadwr (*plural Ceidwadwyr*)

noun, masculine

= Conservative

noson erchyll arall i'r Ceidwadwyr = another horrible night for the Conservatives

ceiniog (*plural -au*) *noun, feminine*

= penny; pence

dwy °bunt a hanner can ceiniog = two pounds and fifty pence

ceir *plural of*

⇒ **car**

ceisio *verb/noun*

= try

fe °geisiwn ni °ddod yn ôl yr un adeg wythnos i heddiw = we'll try and come back the same time a week today
rhaidd ceisio derbyn person fel ag y mae = one must try and accept a person as they are

celf (*plural -au*) *noun, feminine*

= art; craft

gweithdy celf a °hchreffft = arts and crafts workshop

celfi *plural noun (South)*

= furniture

⇒ **dodrefn**

celfyddydd (*plural -au*) *noun, feminine*

= art

Canolfan y Celfyddydau = the Arts Centre

Celt (*plural -iaid*) *noun, masculine*

= Celt

does neb yn sicr pryd daeth y Celtiaid i °Brydain = nobody is certain when the Celts came to Britain

Celtaidd *adjective*

= Celtic

celwydd (*plural -au*) *noun, masculine*

(*plural often clwyddau in North*)

= lie

dweud clwyddau mae o = he's telling lies

celwyddgi (*plural celwyddgwn*)

noun, masculine

= liar

cenedl (*plural cenedloedd*) *noun,*

feminine

= nation

a gobeithio nad ydyn nhw °ddim yn ystyried ein bod yn °ddwy °genedl = and I hope they don't consider that we are two nations

y Cenedloedd Unedig = The United Nations

cednaethol *adjective*

= national

Llyfrgell °Genedlaethol Cymru = the National Library of Wales

cednaetholdeb *noun, masculine*

= nationalism

cednaetholwr (*plural*

cednaetholwyr) *noun, masculine*

= nationalist

cenhedlaeth (*plural cenedlaethau*)

noun, feminine

= generation

cenhedloedd *plural of*

⇒ **cenedl**

cenhinen (*plural cennin*) *noun,*

feminine

= leek

cenllysg *plural noun (North)*

= hail

mae'n bwrw cenllysg = it's hailing

⇒ **cesair**

cer

⇒ **mynd**

cerbyd (*plural -au*) *noun, masculine*

= vehicle

anaddas i °gerbydau nwyddau trwm = unsuitable for heavy goods vehicles

cerdyn (*plural cardiau*) *noun, masculine*

= card

yn ni °ddim yn danfon cardiau Nadolig eleni = we're not sending Christmas cards this year

ydy'ch cerdyn siec gyda chi? = have you got your cheque card?

cerdyn aelodaeth = membership card

cerdyn datgelu = scratchcard

cerdyn post = postcard

cerdd (*plural -i*) *noun, feminine*

= poem

cyfrol o ˚gerddi = a volume of poems

cerdded (*stem cerdd-*) *verb*/*noun*

= walk

faint o ˚filltiroedd naethon nhw

˚gerdded? = how many miles did they walk?

dyw'r banc ˚ddim yn ˚bell-pum

munud o ˚waith cerdded = the bank isn't far—five minutes' walk

Cernyweg *noun, feminine*

= Cornish language

cerrig *plural of*

⇒ **carreg**

cesail *noun, feminine*

dan 'y ˚nghesail = under my arm

dan ei ˚gesail = under his arm

dan ei ˚hesail = under her arm

a bant ag e, a'r mochyn dan ei ˚gesail
= and off he went with the pig under his arm

⇒ **braich**

cesair *plural noun (South)*

= hail

mae'n bwrw cesair = it's hailing

⇒ **cenillysg**

cestyll *plural of*

⇒ **castell**

cewyn (*plural -nau*) *noun, masculine*

(*South*)

= nappy, diaper

nei di nôl cewyn i mi o'r stafell molchi,

cariad? = will you fetch me a nappy from the bathroom, dear?

ci (*plural cŵn*) *noun, masculine*

= dog

cicio *verb*/*noun*

= kick

cafodd y ˚bêl ei ˚hchicio dros yr ystlys

= the ball was kicked into touch

ci defaid *noun, masculine (plural cŵn*

defaid)

= sheepdog

cig *noun, masculine*

= meat

dan ni ˚ddim yn bwyta cig = we don't eat meat

cig eidion = beef

cig moch = bacon

cigydd (*plural -ion*) *noun, masculine*

= butcher

cinio *noun, masculine*

= lunch, dinner

mae cinio'n ˚barod = lunch is ready

ffoniwch fi eto amser cinio = phone me again at lunchtime

⇒ **swper**

cipio *verb*/*noun*

• = seize, snatch

carchar i'r wraig ˚gpiodd faban o

ysbyty = prison for the woman who snatched a baby from a hospital

• = capture

cipiwyd Lloegr gan y Normaniaid =

England was captured by the Normans

cipolwg *noun, masculine*

= (quick) look; glance

˚ga i ˚gipolwg? = can I have a look?

claddu *verb*/*noun*

= bury

mae'r hen ˚gi wedi'i ˚gladdu yn yr

˚ardd = the old dog's buried in the garden

⇒ **palu**

claf (*plural cleifion*) *noun, masculine*

= patient

roedd rhaid i'r cleifion i gyd ˚gael eu

symud = all the patients had to be moved

clasurol *adjective*

= classical

mi ˚dderbyniodd ei ˚dad addysg

˚glasurol = his father (had) received a classical education

clawr (*plural cloriau*) *noun, masculine*

= (book) cover

gweler hefyd llun y clawr blaen = see also front cover picture

mae'r llyfr hefyd ar ˚gael mewn cloriau

meddal = the book is also available in paperback

clawr/cloriau caled = hardback

clawr/cloriau meddal = paperback

clefyd (*plural -au, -on*) *noun, masculine*

= disease

y Pla Du oedd y clefyd cyffwrdd

gwaetha yn Ewrop erioed = the Black Death was the worst contagious disease ever in Europe

cleifion *plural of*

⇒ **claf**

clem *noun, feminine*

= notion

does dim clem 'da fi = I've no idea, I haven't got a clue

clirio *verb-noun*

= clear

cliriwch y stafell 'ma cyn i chi °fynd! = clear this room before you go!

clo *noun, masculine*

= lock

mostly in phrases involving

rhoi (stem rhoi-, rhodd-) ... dan °glo = put ... under lock

or **rhoi clo ar° ...** = put a lock on...

°ddylen ni °roi'r cwpwrdd dan °glo? =

should we lock the cupboard?

cofiwch ei °chadw hi dan °glo °bob

amser = remember to keep it locked at all times

⇒ **ar °glo**, ⇒ **cloi**

cloc (*plural -iau*) *noun, masculine*

= clock

mae'r cloc newydd °daro deuddeg = the clock has just struck twelve

mae'r cloc wedi sefyll = the clock has stopped

mae'r cloc ar ei hôl hi = the clock is slow

mae'r cloc yn ennill / mae'r cloc yn

°fuan = the clock is fast

cloc larwm = alarm clock

cloch (*plural clychau*) *noun, feminine*

= bell

canwch y clychau! = ring the bells!

⇒ **o'r °gloch**

cloi *verb-noun*

= lock

dach chi wedi cloi? = have you locked (up)?

⇒ **ar °glo**, ⇒ **clo**

clorian *noun, feminine*

= balance; scales

cloriannu *verb-noun*

= appraise; assess

ydy hi'n iawn inni °gloriannu'r gwaith

'ma cyn i'r ail °gyfrol ymddangos? =

is it right for us to assess this work

before the second volume has

appeared?

clou *adjective (South)*

= quick

o'n i'n moyn gair bach clou 'da chi = I

wanted a quick word with you

dewch yma, °glou! = come here, quick!

cludiant *noun, masculine*

• = transport

cludiant am °ddim = free transport

• = delivery

gan °gynnwys cludiant

= including delivery

cludo *verb-noun*

= carry; transport

mae'r darnau'n llai, ac felly'n rhatach

ac yn haws eu cludo = the pieces are

smaller, and so cheaper and easier to

transport

clust (*plural -iau*) *noun, feminine or*

masculine

= ear

oedd clust °dost 'da fi trwy'r dydd

ddoe = I had earache all day yesterday

dw i at 'y °nghlustiau mewn papur =

I'm up to my ears in paper

clustnodi *verb-noun*

= earmark

mae arian wedi'i °glustnodi'n °barod

ar °gyfer y cynllun = money has

already been earmarked for the

scheme

clwt *noun, masculine*

ar y clwt = on the dole

ers pryd mae e ar y clwt bellach? =

how long has he been on the dole

now?

clwyddau *plural noun*

⇒ **celwydd**

clymblaid (*plural clymbleidiau*) *noun,*

feminine

= (political) coalition

clymu *verb-noun*

= tie, attach (**wrth°** to)

mae rhyw elfen °gyfrin sy'n °gryfach

nag iaith yn eich clymu wrth °wlad =

some mystic element which is

stronger than language ties you to a

country

⇒ **ynghlwm**

clywed (*stem clyw-*) *verb-noun*

• = hear

°glywest ti'r newyddion? = did you

hear/have you heard the news?

braf oedd clywed am eich llwyddiant!

= it was good to hear about your success!

- = smell

'na'r oglau °glywon ni ddoe! = there's that smell we smelt yesterday!

- = listen (*generally imperative only*)

clywch!-mae rhywun yn dod!

= listen!—someone's coming!

trwm ei °glyw = hard of hearing
(*masculine*)

trwm ei °chlyw = hard of hearing
(*feminine*)

cnoi *verb* noun

= bite; chew

paid cnoi yn y dosbarth! = don't chew in class!

⇒ **brathu**

'co *adverb* (*South*)

= there; over there

'co fel = there it is!

! This is the standard ⇒ **dacw°**, and is widely used in Southern areas both for this and for ⇒ **dyna°** (itself often shortened to ⇒ **'na°**)

coblyn *intensifier*

mae'n °goblyn o °beth = it's a hell of a thing

mae o'n °goblyn o hen = he's awfully old

coch *adjective* (*plural (rare, now mostly in set phrases) cochion*)

= red

arhoswch fan hyn tra bod golau coch

= wait here when light is red

cyn °goched â gwaed = as red as blood

codi *verb* noun

- = rise

mae prisiau tai wedi codi'n sylweddol yn °ddiwedd = house prices have risen appreciably/substantially of late

- = raise

maen nhw wedi codi'u prisiau = they have raised their prices

- = arise

mae dau °fater yn codi o hyn oll = two matters arise from all this

- = get up

pryd nest ti °godi bore 'ma? = when did you get up this morning?

- = charge

faint maen nhw'n °godi fan hyn? = how much do they charge here?

- = build

wrth °gwrs °fod codi tai a °phontydd °gryn °dipyn yn haws na °chodi pontydd gwleidyddol = of course, building houses and bridges is quite a bit easier than building political bridges

⇒ **adeiladu**

coed *plural noun*

- = trees

°welwch chi'r coed fan acw? = do you see the trees over there?

er bod coed yn hanfodol i iechyd y

°Ddaear = although trees are essential to the well-being of the Earth

- (*group of trees*) = wood

- (*material*) = wood

... **wedi'i °wneud o °goed** = ... made of wood

⇒ **pren**

coeden (*plural coed*) *noun, feminine*
= tree

coel *noun, feminine*

- = belief

mae 'na hen °goel y byddai'r mwg yn

eich gwneud yn °ddall = there is an old belief that the smoke would make you blind

- = credence

does neb yn rhoi °fawr o °goel ar

hynny = no-one gives that much credence

coelio *verb* noun

= believe

coeliwch neu °beidio = believe it or not

⇒ **credu**

coes (*plural -au*) *noun, feminine*

= leg

mae'r °goes 'ma'n °wanach ers y °ddamwain = this leg is weaker since the accident

dim ond tynnu dy °goes o'n i = I was just pulling your leg

co(f) (*plural cofion*) *noun, masculine*

- = memory

mae gynni hi °go da = she's got a good memory

- = mind

enwau sy'n dwyn Cymru a'i

mynyddoedd i °gof = names which

bring to mind Wales and its mountains

mi °fasai fo'n mynd o'i °go! = he'd go crazy!

• (*plural only*) = wishes (*in greetings*)

cofion cynnes oddiwrth °bawb yn y swyddfa = best wishes from everyone in the office

cofio *verb* noun

= remember

wi'n cofio dy °dad = I remember your father

wyt ti'n cofio dod fan hyn pan oedden ni'n °fyfyrwyr? = do you remember coming here when we were students?

cofiwch ni at °weddill y teulu, °te = remember us to the rest of the family, then

! *The imperatives cofia, cofiwrch are used as tags in the spoken language, corresponding to '..., mind (you)'*
dim byd yn ei herbyn, cofiwrch = *nothing against her, mind*

cofrestr (*plural -au, -i*) *noun, feminine*
= register

cofrestru *verb* noun

= register

rhaid i °bob defnyddiwr °gofrestru ar y peiriant hwnnw = every user must register on that machine

coginio *verb* noun

= cook; do the cooking

ti sy'n coginio heno = you're doing the cooking this evening

bydda i'n edrych ar °bob agwedd o °goginio ar °gyfer y Nadolig = I'll be looking at every aspect of cooking for Christmas

cogydd (*plural -ion*) *noun, masculine*
= cook

cogyddes (*plural -au*) *noun, feminine*
= cook

colled (*plural -ion*) *noun, feminine*
= loss

colli *verb* noun

• = lose

paid colli dy °fenig tro °ma = don't lose your gloves this time

• = miss

fe °gollon ni'r bws = we missed the bus
bydd un °fargen na °ellir mo'i °choll
°bob wythnos = there will be one unmissable bargain every week
wi'n dy °goll = I miss you

⇒ **ar °goll**

copa (*plural -on, copâu*) *noun, masculine*

= summit (*also figurative*); top

er bod y copaon yn codi rhwng 4000'

a 6000' uwchlaw'r môr... = although the summits rise between 4000' and 6000' above the sea ...

... **gan edrych ar draws y dyffryn tuag**

at °gopa Mynydd Washington = ...

looking across the valley towards the summit of Mount Washington

copio *verb* noun

= copy

corff (*plural cyrff*) *noun, masculine*

= body

daethpwyd o hyd i °gorff ar y traeth

bore °ma = a body has been found on the beach this morning

bydd nifer o °gyrff swyddogol yn

ystyried y °broblem yn °fanwl = a

number of official bodies will be

giving the problem close

consideration

cornel (*plural -i*) *noun, feminine or masculine*

= corner

cer i eistedd yn y °gornel = go and sit in the corner

cosb *noun, feminine*

• = punishment

• = penalty

cosbi *verb* noun

= punish; penalize

roedd y llys wedi methu â rhoi

ystyriaeth °lawn i °ddulliau eraill o'i

°gosbi = the court had failed to give

full consideration to other methods of

punishing him

fe °allen nhw °gael eu cosbi'n ariannol

am yr oedi = they could be penalized

financially for the delay

cosi *verb* noun

= itch

costus *adjective*

= expensive, dear

mae disgwyl y bydd gwyliau tramor yn llai costus fyth eleni = holidays abroad are expected to be even less expensive this year

⇒ **drud**

côt (*plural cotiau*) *noun, feminine*
= coat

gostyngiadau anhygoel ar siwmperi a h'chotiau! = amazing reductions on jumpers and coats!

côt o'law (*plural cotiau glaw*)
= raincoat

crac *adjective*
= angry, cross

paid mynd yn o'grac = don't get cross

credu *verb/noun*

• = think

sa i'n credu o'fod hynny'n iawn
= I don't think that's right

• = believe (**yn**ⁿ, **mewn** in)

maen nhw'n credu yng nghyfiawnder ein hachos = they believe in the justice of our cause

dw i o'ddim yn credu mewn pethau felly = I don't believe in things like that

⇒ **meddwl**, ⇒ **coelio**

cref

⇒ **cryf**

creision *plural noun*
= crisps

o'ga i o'becyn o o'greision hefyd? = can I have a packet of crisps as well?

creision yd = cornflakes

creu *verb/noun*

= create; make

fe o'fu ymddygiad od Menna'n creu cryn o'benbleth i Derek = Menna's odd behaviour has been creating quite a bit of confusion for Derek

gobeithio bod nhw o'ddim yn bwriadu creu helynt heno = I hope they're not out to make trouble tonight

creulon *adjective*
= cruel

creulondeb *noun, masculine*
= cruelty

crio *verb/noun*
= cry, weep

paid â h'chrio, cariad = don't cry, dear

⇒ **llefain**, ⇒ **wylo**

croen *noun, masculine*

• = skin

yn aml iawn bydd effeithiau'r

cyffuriau 'ma i'w gweld ar y croen hefyd = very often the effects of these drugs are seen on the skin as well

• (*of fruit*) = peel

wedyn mae rhaid tynnu croen yr afal = then (you) have to peel the apple

croes (*plural -au*) *noun, feminine*
= cross

yn o'groes i' = contrary to; (go) against

mae'n amlwg y bydd unrhyw

o'benderfyniad o'r o'fath yn o'groes i

o'ddymuniadau'r o'gymuned = it's clear that any such decision will be contrary to the wishes of the community

mae'r dull ymarferol yma o o'ddysgu'n

o'groes i'r ffaswn o'bresennol = this practical method of teaching goes against the present fashion

croesawu *verb/noun*

= welcome

dyma o'ddatblygiad i'w o'groesawu gan

o'bawb = this is a development to be welcomed by everyone

croesawydd (*plural -ion*) *noun, masculine*

= receptionist (*male or female*)

croesffordd *noun, feminine*

= crossroads

ewch hyd at y o'groesffordd, yna

trowch i'r o'dde = go as far as the crossroads, then turn right

croesi *verb/noun*

= cross

edrychwch yn o'ofalus cyn croesi'r

stryd = look carefully before crossing the street

mae yna ffin na h'chaiff milwyr y

Cenhedloedd Unedig ei h'chroesi =

there is a boundary that the United Nations soldiers cannot cross

croeso *noun, masculine*

= welcome

croeso i o'Gymru = welcome to Wales

croeso i o'bawb = all welcome

estynnwyd croeso cynnes i aelodau

newydd = a warm welcome was

extended to new members

dw i'n amau o'dawel o'fach o'fod yna

o'groeso iddyn nhw = I suspect deep down that they are welcome

cron⇒ **crwn****crwn** *adjective (feminine cron)*

= round

chwiliwch am arwydd crwn = look for a round sign**rhodd gan °Ford °Gron Llaneglwys** = a gift from Llaneglwys Round Table**crwydro** *verb/noun*

= wander

mae'n treulio ei amser yn crwydro strydoedd Aberystwyth = he spends his time wandering the streets of Aberystwyth**cryf** *adjective (feminine cref, plural (rare) cryfion)*

= strong

mae gwrthwynebiad cryf wedi bod yn °ddiwedd = there has been strong opposition lately**bydd gwyntoedd cryfion ledled y °wlad trwy'r dydd yfory** = there will be strong winds all over the country all day tomorrow**cryn°****cryn °dipyn** = quite a bit**cryn nifer** = quite a few, quite a number:**mae cryn °dipyn o °dra fod wedi bod yn °barod** = there has already been quite a bit of discussion**mi oedd 'na °gryn nifer hefyd yn siarad yn ei herbyn** = there were also quite a number speaking against her**crynoddisg** (*plural -iau*) *noun, masculine*

= compact disc, CD

detholiad eang o °dapiau a °chrynoddisgiau i fyfyr'r grisiau = a wide selection of tapes and CDs upstairs**crynu** *verb/noun*

= tremble, shake

o'n i'n clywed y llawr yn crynu = I felt the floor tremble**crys** (*plural -au*) *noun, masculine*

= shirt

cudd *adjective*

• = hidden

gofal—mynedfa °gudd = caution—hidden entrance

• = secret

proffion cudd ar esgyrn = secret tests on bones**cuddio** *verb/noun*

= hide

mae'r anrhegion i gyd wedi'u cuddio dan y °goeden Nadolig = all the presents are hidden under the Christmas tree**cul** *adjective*

= narrow

mae'r ffordd yn rhy °gul fan hyn = the road is too narrow here**mi °ddylai fo °geisio bod yn llai cul ei °feddwl, wedwn i** = he ought to try and be less narrow-minded, I would say**curo** *verb/noun*

• = strike; hit; beat

curwch yr wyau a'r hufen gyda'i gilydd = beat the eggs and cream together• (*defeat*) = beat**fe °gurodd Llanilar °glwb Llanrhystud** = Llanilar beat Llanrhystud club⇒ **taro**, ⇒ **trechu****cusan** *noun, masculine or feminine*

= kiss

naeth hi chwythu cusan ata i = she blew me a kiss⇒ **sws****cusanu** *verb/noun*

= kiss

cwbl, cwblwl *noun, masculine*

= (the) lot, all

°gymera i'r cwblwl = I'll take the lot
dyna'r cwblwl am heno = that's all for this evening**y cwblwl sy eisiau nawr ydy llofnod ar y gwaelod** = all that's needed now is a signature at the bottom**nhw sy'n °gyfrifol, wedi'r cwblwl** = it is they who are responsible, after all⇒ **cyfan****cwbl°, cwblwl°** *adverb*

= quite, completely

mae hynny'n °gwblwl °ddiangen = that is completely unnecessary**mae newid yn rhywbeth °gwbl naturiol ym °myd natur** = change is something quite natural in the world of nature⇒ **hollol°****cwblhau** *verb/noun*

= complete

mae gofyn i chi °gwblhau'r °dasg 'ma erbyn hanner dydd = you are required to complete this task by midday

cwch (plural **cychod**) *noun, masculine*
= boat

yn ni i gyd yn yr un cwch bellach = we're all in the same boat now

⇒ **llong**

cwestiwn (plural **cwestiynau**) *noun, masculine*
= question

cwm (plural **cymoedd**) *noun, masculine*
= valley

...tra bod diweithdra yng 'Nghymoedd y De'n dal i °gynyddu = ...while unemployment in the Valleys (of the South) is still rising

⇒ **dyffryn**, ⇒ **glyn**

cwmni (plural **cwmnïau**) *noun, masculine*

= company (*all senses*)

...er na °fyddai'r cwmnïau

awyrennau'n cyfadde hynny =

...although the aeroplane companies would not admit that

o °ddelio â °chwmi teuluol dych chi'n sicr o °dderbyn gwasanaeth da = dealing with a family company ensures you good service

taith °gerdded yng 'nghwmni Dafydd Parry = a walk in the company of Dafydd Parry

cwmpas

⇒ **o °gwmpas**

cwmwl (plural **cmylau**) *noun, masculine*

= cloud

cŵn *plural of*

⇒ **ci**

cwpan (plural **-au**) *noun, masculine*
= cup

Gêm °Derfynol Cwpan y Byd = the World Cup Final

! This word denotes the object itself, while an extension **cwpanaid** (nearly always ⇒ **panaid** in normal speech) is used for 'cupful', and is therefore required in expressions like 'a cup of tea'.

cwpla *verb-noun (South)*
= finish

ti wedi cwpla dy °waith cartre? = have you finished your homework?

⇒ **gorffen**, ⇒ **bennu**

cwprdd (plural **cypyrddau**) *noun, masculine*
= cupboard

cwr (plural **cyrion**) *noun, masculine*
= edge; corner

byddwn ni'n cyhoeddi erthyglau gan arbenigwyr o °bob cwr o °Gymru = we will be publishing articles by experts from every corner of Wales

lleolir y coleg ar °gyrion Parc Cenedlaethol Eryri = the college is situated on the edges of Snowdonia National Park

cwrdd (âh) *verb-noun*
= meet

mae'n °dda gen i °gwrdd â chi! = I'm pleased to meet you!

nawn ni °gwrdd fan hyn yfory, 'te = we'll meet here tomorrow, then

cwrs (plural **cyrsiau**) *noun, masculine*
= course

treuliodd hi °fiwyddyn yn Ffrainc fel rhan o'i °hchwrs Ffrangeg = she spent a year in France as part of her French course

cwrtais *adjective*
= polite

cofia bod yn °gwrtais heno = remember to be polite this evening

cwrw *noun, masculine*
= beer

cwympo *verb-noun (South)*
• = fall

°fyddi di'n cwympo a °hchael dolur = you will fall and hurt yourself

• = drop

ti wedi cwympo dy °fenig = you've dropped your gloves

⇒ **syrthio**

cwyn (plural **-ion**) *noun, masculine*
= complaint

yn sgil cwynion °fod y bws ysgol wedi gadael chwe munud yn °gynnar... = following complaints that the school bus left six minutes early...

cwyno *verb-noun*
= complain (**ar°**, **am°** about)

maen nhw'n cwyno o hyd = they're always complaining

⇒ **achwyn**

cychwyn (*stem cychwynn-*)

verb/noun

= start; start out (*on journey, etc*)

neith y car °ddim cychwyn = the car won't start

mi °ddylen ni °gychwyn cyn iddi nosi = we ought to start out before nightfall

cychwyn ar °daith = to start out on a journey

y mateb siomedig a °gafwyd o'r

cychwyn cynta = the response right from the start has been disappointing

⇒ **dechrau**

cyd

ar y cyd = jointly

fe °fydd y °ddau °gwmni'n gweithio ar y cyd o hyn ymlaen = the two companies will be working jointly from now on

⇒ **ynghyd**

cyd°- *verb prefix*

= with; co-

cyd-ddigwydd = coincide

cydweithio â^h rhywun = work with someone, collaborate with someone

cydweithredu = co-operate

cydfynd *verb/noun*

• = go along (â^h with)

°alla i °ddim cydfynd â'r penderfyniad 'ma = I can't go along with this decision

• = agree

mae'n amlwg °fod y °ddau adroddiad 'ma'n cydfynd = these two reports clearly agree

cydnabod (*stem cydnabydd-*)

verb/noun

= acknowledge, recognise (*fact*)

mae eisiau cydnabod yr angen i

°fynegi teimladau negyddol = the need to express negative feelings must be acknowledged

cydnabyddiaeth *noun, feminine*

= acknowledgement, recognition

cydweithio *verb/noun*

• = collaborate

• (*as noun*) = collaboration

mae llwyddiant y °fenter 'ma'n

dibynnu ar °gydweithio = the success

of this venture depends on collaboration

cydwladol *adjective*

= international

less common alternative for

⇒ **rhyngwladol**

cydymdeimlad *noun, masculine*

= sympathy (â^h with)

mae'n amlwg °fod gan yr awdur °gryn

°gydymdeimlad â'i °brif °gymeriad = the author obviously has quite a bit of sympathy with his main character

cydymdeimlo *verb/noun*

= sympathize, have sympathy (â^h with)

cyfaddawdu *verb/noun*

= compromise

fe °ddwedwyd wedyn °fod 'na °le i

°gyfaddawdu wedi'r cwbul = it was later said that there was room for compromise after all

cyfadde(f) *verb/noun*

= admit

rheid i mi a °phawb arall °gyfadde fod

camgymeriadau wedi'u gwneud = I and everyone else must admit that mistakes have been made

cyfaill (*plural cyfeillion*) *noun,*

masculine

= friend

Annwyl °gyfeillion = Dear friends

Cyfeillion y °Ddaear = Friends of the Earth

⇒ **ffrind**

cyfalafiaeth *noun, feminine*

= capitalism

cyfamser *noun, masculine*

= meantime

yn y cyfamser = in the meantime, meanwhile

yn y cyfamser, dylid sgrifennu at

Aelodau Seneddol = in the meantime, one should write to MPs

cyfan

1 *noun, masculine*

= (the) lot, (the) whole, all; the whole thing

yn achos Lloegr mi °gymerodd y

cyfan °fwy o amser = in the case of England the whole thing took more time

ar y cyfan, maen nhw'n hollol °gywir = on the whole, they are quite correct
ydy Theatr Genedlaethol Lloegr yn cynrychioli'r °genedl honno yn °gyfan? = does the English National Theatre represent that nation in its entirety?

mae'r cyfan i gyd wedi'i °ddifetha! = the whole thing is spoilt!

ti sy biau'r car, wedi'r cyfan = it's your car, after all

2 as adjective
 = whole

drwy °Gymru °gyfan = through the whole of Wales

⇒ **cwbl**

cyfarchiad (plural -au, cyfarchion)
 noun, masculine
 = greeting

Cyfarchion y Tymor = Season's Greetings

⇒ **llongyfarch**

cyfarfod (plural -ydd) noun, masculine
 = meeting

cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Agored y Cyngor ar y 6ed o °Fehefin
 = the Open Annual Meeting of the Council was held on June 6th

cyfartal adjective
 = equal

mae'r cwmni'n rhwym i °gyfleoedd cyfartal = the company is committed to equal opportunities

⇒ **ar °gyfartaledd**

cyfarwydd adjective
 = familiar

o'n i'n meddwl ar y pryd °fod yr enw 'na'n swnio'n °gyfarwydd °rywsut = I thought at the time that that name sounded somehow familiar

⇒ **anghyfarwydd**

cyfarwyddiadau plural noun
 = directions, instructions

mae'r pecyn yn cynnwys cyfarwyddiadau llawn = the pack includes full instructions

cyfarwyddwr (plural cyfarwyddwyr)
 noun, masculine

= director
unwaith eto mae'r cwmni dawns yn chwilio am °gyfarwyddwr newydd = once again the dance company is looking for a new director

cyfateb *verb*noun

• = match

byddwch hefyd yn ennill gwobr os bydd pump allan o'r chwech yn cyfateb = you will also win a prize if five out of the six match

• = correspond

i beth mae hwn yn cyfateb yn Saesneg? = what does this correspond to in English?

cyfatebol adjective
 = corresponding, matching

cyfathrebol adjective
 = communicative

cyfathrebu *verb*noun
 = communicate

gall y fforwm °ddatblygu i °fod yn °gyfrwng cyfathrebu effeithiol = the forum may develop into an effective medium of communication

cyfeillgar adjective
 = friendly

cyfeillgarwch noun, masculine
 = friendship

cyfeiriad (plural -au) noun, masculine

• = address

beth yw'ch cyfeiriad? = what is your address?

• = direction

y deng awr o °deledu sy'n dod o °gyfeiriad BBC Cymru = the ten hours of television that comes from BBC Cymru

• = reference

naeth e °gyfeiriad at y rhyfel o °gwbl? = did he make any reference to the war at all?

cyfeirio *verb*noun
 = refer (at° to)

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig y pumed o °Fai (formal) = I refer to your letter of the 5th May

cyfenw (plural -au) noun, masculine
 = surname

beth yw'ch cyfenw? = what is your surname?

⇒ **enw**

cyff-

words beginning **cyff-** are listed according to Welsh alphabetical order following **cyfy-**

cyfieithiad (*plural -au*) *noun, masculine*

= translation

ydy'r cyfieithiad yn °barod? = is the translation ready?

cyfieithu *verb**noun*

= translate; interpret

mae'r °ddogfen 'ma heb ei °hchyfieithu = this document hasn't been translated

bydd y gallu i °gyfieithu ar y pryd yn °fantais = the ability to interpret will be an advantage

⇒ **dehongli**

cyfieithydd (*plural cyfieithwyr*) *noun, masculine*

= translator (*male or female*)

cyflawni *verb**noun*

• = fulfil

rhaid cyflawni'n dyletswyddau = we must fulfil our responsibilities

• = accomplish

llongyfarchiadau iddo ar °gyflawni'r °gamp yma = congratulations to him on accomplishing this feat

cyfle (*plural -oedd*) *noun, masculine*

= chance; opportunity

°gawn ni °gyfle i ffonio adre? = will we have a chance to phone home?

mae'r llyfr yn °gyfle i °gofio am °ddyn na °hafodd ei haeddiant cyn hyn = the book is an opportunity to remember a man who has not so far had his due

⇒ **siawns**

cyflenwad (*plural -au*) *noun, masculine*

= supply

mae cyflenwadau tanwydd yn isel iawn = fuel supplies are very low

cyflenwi *verb**noun*

= supply

fe °ddaw'r llong °gyflenwi'n ôl ymhen tri mis = the supply ship will come back in three months' time

cyfleus *adjective*

= convenient

gallwn ni °drafod y manylion ar adeg °gyfleus i chi = we can discuss the details at a time convenient to you
dewch yn ôl ata i pan °fo'n °gyfleus = get back to me when convenient

cyflog (*plural -au*) *noun, masculine*

= salary; wages; pay

cyflogedig (*plural -ion*) *adjective*
functioning as noun, masculine

= employee (*male or female*)

cyflogi *verb**noun*

= employ

mae angen cyflogi rhywun i °dreulio blwyddyn yn Abergwaun = we need to employ someone to spend a year in Fishguard

cyflogwr (*plural cyflogwyr*) *noun, masculine*

= employer

cyflwr (*plural cyflyrau*) *noun, masculine*

= (physical) condition, state

fel y gwelwch, mae'r beic mewn cyflwr arbennig o °dda erbyn hyn = as you (can) see, the bike is now in a particularly good condition

⇒ **amod**

cyflwyno *verb**noun*

• = present

cyflwynwyd basgedaid o °flodau iddi gan °ddau o'r plant lleiaf = she was presented with a basket of flowers by two of the smallest children

• = introduce

°ga i °gyflwyno Mr Jones? = may I introduce Mr Jones?

cyflym *adjective*

= fast, quick

mae e'n hoff o °geir cyflym = he likes fast cars

mae gwerslyfrau yn ymddangos yn °weddol °gyflym yn Lloegr = textbooks appear fairly quickly in England

cyflymder *noun, masculine*

= speed

cyflymu *verb**noun*

= speed up

cyfnewid (*stem cyfnewidi-*) *verb**noun*

= exchange (**am°** for)

gadewch inni °gyfnewid rhifau ffôn, °te = let's exchange phone numbers, then

graddfa °gyfnewid = exchange rate

cyfnewidfa (*plural cyfnewidfeydd*) *noun, feminine*

= [telephone] exchange

cyfnither (*plural -oedd*) *noun*,
feminine
= (female) cousin
mae hi'n °gyfnither i mi = she's my
cousin
⇒ **cefnder**

cyfnod *noun, masculine*
• = time (*period*)
bydd e yno am °gyfnod = he'll be there
for a time
• = period
gwahoddir ceisiadau am y swydd
newydd hon am °gyfnod o °dair
blynedd = applications are invited for
this new job for a period of three years
Cyfnod y Dadeni = the Renaissance
period
• = era
mae'n °ddechrau cyfnod newydd yng
°ngwleidyddiaeth y °wlad = it's the
start of a new era in the politics of the
country
• (*in a few set phrases*) = term
cyfnod byr = short term
cyfnod hir = long term
rhaid edrych yn °fanwl ar yr effeithiau
cyfnod byr hefyd = the short-term
effects must also be closely looked at
⇒ **adeg**, ⇒ **oes** *noun*

cyfoes *adjective*
= modern, contemporary; current
drama °gyfoes a °fydd yn apelio'n
arbennig at °bobol ifanc = a modern
drama that will be of particular
appeal to young people
materion cyfoes = current affairs
⇒ **modern**

cyfoeth *noun, masculine*
= wealth, riches (*also figurative*)

cyfoethog *adjective*,
comparative cyfoethocach,
superlative cyfoethoca(f)
• = rich, wealthy
dyw'r °bobol 'ma °ddim yn °gyfoethog
o °bell ffordd = these people are not
rich by any means
yr Unol °Daleithiau yw'r °wlad
°gyfoethoca yn y byd = the United
States is the richest country in the
world
• *plural cyfoethogion used as noun* = the
rich
y cyfoethogion segur = the idle rich

cyfraith (*plural cyfreithiau*) *noun*,
feminine
= law
yng °ngolwg y °gyfraith mae'r
madarch hudol yn °beryglus iawn =
in the eyes of the law the magic
mushrooms are very dangerous
⇒ **deddf**, ⇒ **anghyfreithlon**

cyfraniad (*plural -au*) *noun, masculine*
= contribution

cyfrannu *verb*
= contribute (**at°** to)
fe °allech chi °gyfrannu at °lu o
achosion da = you could contribute to
a host of good causes

cyfreithiwr (*plural cyfreithwyr*) *noun*,
masculine
= lawyer

cyfres (*plural -i, -au*) *noun, feminine*
= series
bydd cyfres o eitemau arbennig ar
°gyfer y Nadolig = there will be a
series of special items for Christmas

cyfri(f)
1 *verb*
= count
nei di °gyfri'r rheina i mi? = will you
count those for me?

⇒ **rhifo**
2 *noun, masculine*
= account
mae angen rhifau'ch cyfrif cadw a'ch
cyfrif cyfredol = we need the numbers
of your savings account and your
current account

cyfrifiadur (*plural -on*) *noun*,
masculine
= computer
mae cyfrifiaduron wedi newid ein
bywydau i gyd = computers have
changed all our lives

cyfrifiannell (*plural cyfrifiannellau*)
noun, feminine
= calculator
bydd rhaid gadael eich cyfrifiannellau
tu allan i'r stafell, mae arna i ofn =
you'll have to leave your calculators
outside the room, I'm afraid

cyfrifol *adjective*
= responsible

y cwestiwn sy'n codi yw pa °gorff

°ddylai °fod yn °gyfrifol? = the question that arises is which body should be responsible?

ti sy'n °gyfrifol! = you are responsible, this is your responsibility!

cyfrifoldeb (plural -au) *noun*, masculine

= responsibility

cyfrifoldeb y llywodraeth °fyddai ariannu'r system = it would be the government's responsibility to finance the system

cyfrinachol *adjective*

= secret; confidential; in confidence

adroddiad cyfrinachol = a secret report

pob ymholiad yn °gyfrinachol = every enquiry is in confidence

cyfrwng (plural **cyfryngau**) *noun*, masculine

= medium; (plural) media

dysgir yn °bennaf drwy °gyfrwng y °Gymraeg = teaching is mainly done through the medium of Welsh

y cyfryngau torfol = the mass media

cyfweld (stem **cyfwel-**) (â^h) *verb/noun*

= interview

bydd Elinor yn cyfweld ag un o'n hactorion enwoca ar ôl yr egwyl = Elinor will be interviewing one of our most famous actors after the break

cyfweliad (plural -au) *noun*, masculine

= interview

cyfyngedig *adjective*

= limited

ond brysiwch—dim ond nifer cyfyngedig sydd ar °gaell = but hurry—there are only a limited number available!

Cyfrifiaduron Cymru Cyf. = Wales Computers Ltd.

cyfystyr *adjective*

= synonymous (â^h with), tantamount (â^h to)

mi °fyddai'r °fath °gyfaddawdu'n °gyfystyr ag ildio = such a compromise would be tantamount to capitulation

⇒ **ystyr**

cyffredin *adjective*

• = common

camenw sydd mor °gyffredin erbyn hyn fel na °ellir ei osgoi = a misnomer which is so common now that it cannot be avoided

Tŷ'r Cyffredin = the House of Commons

• = ordinary

ysgol °gyffredin oedd hi = it was an ordinary school

⇒ **anghyffredin**

cyffredinol *adjective*

= general

fel sy'n digwydd gyda pob rheol °gyffredinol, mae 'na eithriadau = as with every general rule, there are exceptions

beth yn °gyffredinol yw'r ffordd °orau i °fynd ati? = what generally is the best way to go about it?

cyffrous *adjective*

= exciting

rhaglen °gyffrous i °bobol yn eu harddegau = an exciting programme for teenagers

on'd yw hyn yn °gyffrous? = isn't this exciting?

cyffur (plural -iau) *noun*, masculine

= drug

gall yr effaith hon hefyd °gael ei °thrin â °hychffuriau = this effect can also be treated with drugs

bu °farw 14 o °bobol ifainc ar ôl cymryd cyffuriau eleni = 14 young people died after taking drugs this year

⇒ **moddion**

cyffwrdd (stem **cyffyrdd-**) (â^h) *verb/noun*

= touch

gofynnir i chi °beidio â gadael i'ch plant °gyffwrdd â'r arddangosion = you are asked not to let your children touch the exhibits

cyngerdd (plural **cyngerddau**) *noun*, masculine

= concert

cyngkori *verb/noun*

= advise; give advice

bydd rhywun ar °gael i'ch cyngkori

chi = someone will be on hand to advise you

cyngor *noun, masculine*

- (plural **cyngorau**) = council
eisoes mae'r cyngor yn ymchwilio i'r sefyllfa = the council is already investigating the situation
- (plural **cyngorion**) = counsel, advice
mae angen rhoi gwybodaeth a hychyngor i o'rieni = we need to give information and advice to parents

cyhoeddi *verb/noun*

- = publish
perygilr y grant os na h'cyhoeddir yn o'byrdlon = delayed publication will jeopardize the grant [*lit: 'The grant will be jeopardized if publishing is not done on time'*]
- = as *noun* (act of) publication
aeth deugain mlynedd heibio ers cyhoeddi'r o'gyfrol o'gynta = forty years have gone by since the publication of the first volume

cyhoeddus *adjective*

= public

llwybr cyhoeddus = public footpath**cyhuddiad** (plural **-au**) *noun, masculine*

= charge, accusation

cyhuddo *verb/noun*

= accuse (o° of); charge (o° with)

mae tri dyn bellach wedi'u cyhuddo o**o'lofruddiaeth** = three men are now charged with murder**cylch** (plural **-oedd**) *noun, masculine*

- = circle

tynnwch o'gylch â llinell drwy'i o'ganol = draw a circle with a line through the middle

- = (surrounding) district

Sioe Amaethyddol Llaneglwys a'r**cylch** = Llaneglwys and district Agricultural Show**cylchgrawn** (plural **cylchgronau**) *noun, masculine*

= magazine

'Sothach' yw'r unig cylchgrawn a anelir at o'bobl ifanc = 'Sothach' is the only magazine aimed at young people**cyllell** (plural **cyllyll**) *noun, feminine*

= knife

cyllell o'fara = breadknife**cyllid** *noun, masculine*

= finance

diffyg cyllid yw gwraidd y o'broblem = lack of finance is the root of the problem**cyllideb** *noun, masculine*

= budget

cymaint *adverb*

- = so much/many
mae cymaint ar eich meddwl chi, nes bod chi'n anghofio'r cyfan = there's so much on your mind that you forget the whole lot
- = as much/many (â^h as)
o'ges i o'ddwywaith o'gymaint â ddoe = I got twice as much/many as yesterday
- = such
pam yr oedd y digwyddiad yma o o'gymaint o o'ddiddordeb i seryddion? = why was this event of such interest to astronomers?

! As a quantity expression, **cymaint** requires a following **o°** when a noun is specified, as in the example above.

dyw'r busnes 'ma o'ddim yn 'y 'mhoeni**fi o'gymaint â hynny** = this business doesn't bother me all that much**rhyw o'gymaint** = a certain amount**mae rhyw o'gymaint ar ôl** = there is a certain amount left⇒ **cynifer****cymdeithas** (plural **-au**) *noun, feminine*

= society

ffoniwch am o'ragor o o'fanylion am**o'weithgareddau eraill y o'gymdeithas**

= phone for more details about the society's other activities

cymdeithasol *adjective*

= social

cymdeithasu *verb/noun*

= socialize

cymdogion *plural of*⇒ **cymydog****cymeradwyo** *verb/noun*

= recommend

llyfr i'w o'gymeradwyo i o'bawb = a book to be recommended to everyone**cymharu** *verb/noun*= compare (â^h with)

bydd eisiau cymharu'r °ddwy stori = the two stories will have to be compared

sut mae'r sefyllfa fan'na'n cymharu â'r un fan hyn? = how does the situation there compare with the one here?

! 'compared with...' is phrased as 'from its comparing with...', with mutation difference depending on the subject: **o'i °gymharu â^h** (masculine), **o'i °chymharu â^h** (feminine), **o'u cymharu â^h** (plural)
mae'r °farchnad yn edrych yn °well o'i °chymharu â llynedd = the market is looking better compared with last year

cymhleth *adjective*
 = complicated, complex

mae'r sefyllfa'n un °gymhleth dros °ben = the situation is an extremely complicated one

cymhwyster (*plural cymwysterau*)
noun, masculine
 = qualification

pa °gymwysterau'n union sy gynnoch chi? = exactly what qualifications have you got?

cymorth *noun, masculine*
 = help, aid, assistance

bydd y dosbarth derbyn yn elwa'n °fawr o'i °chymorth °bob bore = the reception class will benefit greatly from her help every morning

Cymraeg *noun, feminine*
 • = Welsh language

siaradwch °Gymraeg os gwelwch yn °dda = speak Welsh please

mae'r °ddogfen hon hefyd ar °gael yn y °Gymraeg = this document is also available in Welsh

beth dych chi'n galw'r pethau 'ma yn °Gymraeg? = what do you call these things in Welsh?

ydyn nhw'n medru Cymraeg? = do they speak Welsh?

byddai'r gallu i °gyfathrebu drwy °gyfrwng y °Gymraeg yn °fantais = the ability to communicate through the medium of Welsh would be an advantage

• (as *adjective*) = Welsh-speaking
ond yn y °Gymru °Gymraeg mae'r

patrwm yn °bur °wahanol = but in Welsh-speaking Wales the pattern is quite different

y °Fro °Gymraeg = name for the Welsh-speaking heartlands of Wales

! Note that 'in Welsh' is not **ying Nghymraeg* as you might expect, but **yn °Gymraeg**, probably a contraction of **yn y °Gymraeg**, which is itself also used. And although **Cymraeg** is a feminine noun, it does not mutate following adjectives: **Cymraeg da** good Welsh, **Cymraeg gwael** bad/poor Welsh.

Cymraes (*plural -au*) *noun, feminine*
 = Welshwoman

Cymraes yw ei °wraig, 'te? = is his wife Welsh, then?

Cymreig *adjective*
 = Welsh (*pertaining to Wales*)

roedd e'n °falch o'i °gysylltiadau

Cymreig = he was proud of his Welsh connections

fo oedd y Prif °Weinidog a sefydlodd y Swyddfa °Gymreig = he was the Prime Minister who established the Welsh Office

Cymro (*plural Cymry*) *noun, masculine*
 = Welshman

Cymro oedd dy °dad? = was your father Welsh or a Welshman?

mae'r Cymry ar y blaen o'r diwedd gyda pum munud o'r gêm ar ôl = the Welsh are in the lead at last with five minutes left of the game

Cymru *noun, feminine*
 = Wales

croeso i °Gymru = welcome to Wales
ar °gael ledled Cymru = available throughout Wales

°ga i °ofyn i chi ers pryd dych chi'n byw yng °Nghymru bellach? = can I ask how long you have lived in Wales now?

mae'r cysylltiadau rhwng Llydaw a °Chymru'n agosach fyth = the links between Brittany and Wales are even closer

Cymru am byth! = Wales forever!

Cymry
 ⇨ **Cymro**

diolchgar *adjective*

= thankful, grateful

fe °fyddwn i'n °dra diolchgar pe gallech chi... = I should be very grateful if you could...

di-os

in: **yn °ddi-os** = without a doubt

yn °ddi-os, dyma'r car gorau o'i °fath sy ar y °farchnad ar hyn o °bryd = this is without a doubt the best car of its type on the market at present

diri(f), di-ri(f) *adjective*

= innumerable, countless

collwyd llywbrau a ffyrdd cyhoeddus di-ri = countless paths and public ways have been lost

dirprwy (*plural -on*) *noun, masculine*

= deputy

dirwy (*plural -on*) *noun, feminine*

= fine

mae mwy nag un llysgenhadaeth heb °dalw ei dirwyon parcio = several embassies have yet to pay their parking fines

dirybudd *adjective*

= without warning

mi °ddaeth y newyddion 'ma'n °gwblw °ddirybudd = this news came completely without warning

disglair *adjective*

comparative disgleiriach, superlative disgleiria(f)

= bright (*also figurative*)

dyfodol disglair i °gyfansoddwr ifanc o °Bonteglwys = a bright future for a young composer from Ponteglwys

⇒ **llachar**

disgrifio *verb* *noun*

= describe

disgwyl* *verb* *noun*

• = expect

oeddech chi'n disgwyl ateb? = were you expecting a reply?

• = expectation

mae disgwyl y bydd y Rhyddfrydwy yn pleidleisio yn erbyn = the Liberals are expected to vote against

• = wait

mae'r grŵp wedi blino disgwyl am °gyfleoedd = the group has got tired of waiting for opportunities

disgybl (*plural -ion*) *noun, masculine*

= pupil

faint o °ddisgyblion sy gynnoch chi yn yr ysgol 'ma? = how many pupils have you got in this school?

diswyddo *verb* *noun*

= dismiss, sack

mae galwadau am i'r gweinidog °gael ei °ddiswyddo = there are calls for the minister to be sacked

⇒ **swydd**, ⇒ **ymddiswyddo**

dithau

⇒ **tithau**

di-waith *adjective*

= unemployed

pa °ganran o °drigolion y °dre sy bellach yn °ddiwaith, 'te? = what percentage of the townspeople are now unemployed, then?

ond dydyn nhw'n °fawr o °gySUR i'r di-waith ym °Mlaenau Ffestiniog = but they're not much comfort to the unemployed in Blaenau Ffestiniog

diwedd *noun, masculine*

= end

ac mi °fyddwn ni'n rhoi'r rhif ffôn 'na eto ar °ddiwedd y rhaglen = and we'll be giving that phone number again at the end of the programme
yn y diwedd, y °farchnad sy'n penderfynu = in the end, it's the market that decides

⇒ **o'r diwedd**

diweddar *adjective*

comparative diweddarach, superlative diweddaraf(f)

• = recent, late

awn ni drosodd nawr i'r stiwdio newyddion am y penawdau diweddar = now we go over to the news studio for the latest headlines

dw i heb °weld e'n °ddiweddar = I haven't seen him recently

°flynyddoedd yn °ddiweddarach = years later

• (*precedes noun*) = late (*deceased*)

y diweddar Dr Pryce = the late Dr Pryce

diweithdra *noun, masculine*

= unemployment

diwetha(f) *adjective*

= last

ar y trê'n aethon ni tro diwetha = we went by train last time

! **diwetha(f)** means 'last' in the sense of 'most recent', while 'last' in the sense of 'last in a series' is ⇒ **ola(f)**.
Compare:

°**weles i fe mis diwetha** = I saw him last month

Rhagfyr yw mis ola'r °flwyddyn = December is the last month of the year

⇒ **llynedd, neithiwr****diwrnod** (*plural -au*) *noun, masculine*

= day

pan °ddaw'r diwrnod gwaith i °ben = at the end of the working day

fe °fyddan nhw'n ôl °ryw °ddiwrnod = they'll be back some day

mi °geith pawb °ddiwrnod rhydd

°**ddydd Gwener nesa** = everyone will have a day off next Friday

ond, y diwrnod wedyn, dyma fe'n dod yn ôl = but, the next day, back he came

! The distinction between this word and ⇒ **dydd** is not always easy to identify. But **diwrnod** really denotes a period of 24 hours, or 'day' as a set period of time rather than, for example, the opposite of night, and is therefore generally used with numbers (with **pum, saith, naw** and **deng** causing nasal mutation, e.g. **pum °niwrnod** five days). But see ⇒ **deuddydd** and ⇒ **tridiau**.

diwydiannol *adjective*

= industrial

diwydiant (*plural diwydiannau*) *noun, masculine*

= industry

mae dyfodol diwydiant trwm yr ardal bellach yn y °fantol = the future of the area's heavy industry is now in the balance

diwylliannol *adjective*

= cultural

diwylliant (*plural diwylliannau*) *noun, masculine*

= culture

blas ar hanes a diwylliant yr hen

°**Geltiaid** = a taste of the history and culture of the ancient Celts

do *particle*

= yes

! ⇒ **Yes and No** box on the English-Welsh side

⇒ **naddo****doctor** (*plural -iaid*) *noun, masculine*

= doctor

mae rhai doctoriaid yn gwrthod gweld cleifion ar ôl hanner nos = some doctors refuse to see patients after midnight

⇒ **meddyg****dod** (*North often dŵad*) *verb/noun**(irregular)**imperative singular der or dere, (North)**tyrd, ty'd; plural dewch**preterite des i, dest ti, daeth e/hi,**daethon ni, daethoch chi, daethon nhw**common variants: 3sg dôth**future do i, doi di, daw e/hi, down ni,**dewch chi, dôn nhw**common variants: 1sg da, 2sg dei, 3sg**deith, 1pl dewn, 2pl dowch, 3pl dân**conditional (of restricted use in the**modern language) delwn i, delet ti,**delai fe/hi, delen ni, delech chi, delen nhw**or down i, doet ti, dôl fe/hi, doen ni,**doech chi, doen nhw**autonomous/impersonal forms:**present/future not in general use, past**daethpwyd*

• = come

ty'd o 'na, nei di? = come (down/away) from there, will you?

dere 'mlaen! = come on!

dewch i'n gweld ni yn y °flwyddyn

newydd = come and see us in the new year

°**ddaethoch chi ar y trê'n?** = did you come by train?

mi °ddo i efo chdi rwan (*North*) = I'll come (along) with you now

... **pan °ddaw'r bws** = ... when the bus comes

pam na °ddewch chi draw ar ôl cinio?

= why don't you come round after lunch?

• = become

°wyddoch chi am °rywun o'ch cyfnod chi a °ddaeth yn enw cyfarwydd? = do you know of anyone from your period who became a familiar name?

mi °ddaw'n amlwg cyn bo hir = it will soon become clear

⇒ **dod â^h**, ⇒ **dod o hyd i°**

dod â^h *verb* noun

= bring

mae angen cynllunio i °ddod â mwy o adnoddau hamdden i'r ardal = (we) need to plan to bring more leisure resources to the area

dewch â'ch arian poced = bring your pocket money

dod o hyd i°

= find, come across

°ddest ti o hyd i'r allwedd yn y diwedd? = did you find the keys in the end?

daethpwyd o hyd i'w °gorff y bore wedyn = his body was found the following morning

⇒ **cael hyd i°**, ⇒ **ffeindio**

dodrefn *plural noun*

= furniture

⇒ **celfi**

dodwy *verb* noun

= lay (eggs)

°wy newydd °ddodwy = a newly laid egg

doedd *etc*

⇒ **bod**

dogfen (*plural -ni, -nau*) *noun, feminine*

• = document

mae 'na °ddogfenni'n bod sy'n dweud fel arall = documents exist which say otherwise

• (*as adjective*) = documentary

°well gen i'r rhaglenni dogfen = I prefer the documentary programmes

Dolig

⇒ **Nadolig**

dolur *noun, masculine*

= pain

cael dolur = get hurt, hurt oneself
rhoi dolur = hurt

°fyddi di'n cwmpo a cael dolur = you'll fall and hurt yourself

ydy dy °fraich yn dal i °roi dolur? = is your arm still hurting?

°gest ti °ddolur? = did you hurt yourself?

⇒ **brifo**

doniol *adjective*

comparative doniolach or mwy doniol, superlative doniola(f) or mwya doniol
= funny

⇒ **rhyfedd**

dos

⇒ **mynd**

dosbarth (*plural -iadau*) *noun, masculine*

= class

ymuno â dosbarth yw'r cam cynta =

joining a class is the first step

dau stamp dosbarth cynta, os

gwelwch yn °dda = two first class stamps, please

dosbarthu *verb* noun

• = distribute, give out

°elli di helpu fi i °ddosbarthu'r

papurau 'ma? = can you help me give out these papers?

• = deliver

draig (*plural dreigiau*) *noun, feminine*

= dragon

y Ddraig Goch = the Red Dragon

draw *adverb*

= over

draw yn y gorllewin, mae yna chwyldro iaith tawel yn digwydd = over in the west, there is a quiet linguistic revolution happening

°weles i hi draw fan'na °ddeng munud yn ôl = I saw her over there ten minutes ago

• (*with certain verbs*) = round

fe °allwn ni °alw draw yfory = we can call round tomorrow

pam na °ddoi di draw wedyn? = why don't you come round later?

• (*with cadw*) = away

cadwch draw! = keep away!

⇒ **tu draw**

drewi *verb* noun

= stink, smell

mae rhywbeth yn drewi'n ofnadwy fan hyn! = there's a terrible smell here!

drewllyd *adjective*

= stinking

dringo *verb* noun

= climb

hi oedd y °gynta i °ddringo i °gopa'r mynydd heb ocsigen = she was the first woman to climb to the summit of the mountain without oxygen
dringo coeden = to climb a tree

droeon *adverb*

= time and again; several times

tre sy wedi cipio'r penawdau droeon = a town which has seized the headlines time and again

! This adverb is a fixed mutation of the plural of ⇒ **tro** time

dros° (often **drost** before vowels) *preposition*

personal forms: **drosta i, drostat ti, drosto fe, drosti hi, droston ni, drostoch chi, drostyn nhw**

• = over

maen nhw wedi mynd drost y °bont = they've gone over the bridge

mi oedd teganau dros y lle i gyd = there were toys all over the place

°fedret ti edrych dros y rheina i mi? = could you look over these for me?

mae dros °fil o °bobol fan hyn yn °barod = there are over a thousand people here already

mae e wedi bod allan ers dros °ddwy awr = he's been out for over two hours

• = for (on behalf of, in favour of)

newch chi °fynd i'r siop drosti? = will you go to the shop for her?

°fydda i byth yn pleidleisio drostyn nhw °to = I'll never vote for them again

! This preposition is in origin a mutated form of **tros**—the base form is hardly ever encountered in the modern spoken language. The variant **drost** before vowels is common in speech, but never seen in writing.

⇒ **drosodd****dros ben** *adverbial phrase*

= extremely, exceedingly

! This qualifier follows the adjective it qualifies:

mae'r canlyniad yn un diddorol dros ben = the result is an extremely interesting one.

⇒ **tu hwnt****dros dro** *adjectival phrase*

= temporary

swydd dros dro = a temporary job

! This phrase functions as an adjective, but does not undergo soft mutation after feminine singular nouns—see example above.

drosodd *adverb*

• = over, across

mae'n holl °bwysig bod ni'n llwyddo i °gael y neges °ma drosodd = it's vital that we succeed in getting this message across

wedyn, aeth nifer o awyrennau drosodd eto tua diwedd y prynhawn = then, a number of aircraft went over again towards the end of the afternoon

bellach mae'r dyddiau °na drosodd = now those days are over

oedd e'n dweud yr un peth drosodd a drosodd = he was saying the same thing again and again

• = overleaf

Cymraeg drosodd = Welsh overleaf
 ⇒ **dros**°

• **°druan** *adjective*

= poor

! This mutated form of **truan** is used mainly with names and pronouns to say 'Poor ...' With a name you can either say **°druan o Dafydd!** or **Dafydd °druan!** poor Dafydd (similarly **°druan o Eleri** or **Eleri °druan!** poor Eleri!—the sex of the individual has no bearing on the fixed mutation), while pronouns can only use the longer construction with **o**° **°druan ohoni!** poor her!, **°druan ohonyn nhw!** poor them!

drud *adjective*

comparative **drutach**, superlative

druta(f)

= expensive, dear

mae'r rhain yn rhy °ddrud = these are too expensive

°glywes i °fod bwyd a pethau felly'n °ddrutach draw fan °na = I heard that food and suchlike is more expensive over there

⇒ **costus**

drwg *adjective*

comparative ⇒ **gwaeth** worse, *equative*

⇒ **cynddrwg** as/so bad, *superlative*

⇒ **gwaetha(f)**

- = bad

sut dach chi heddiw?—**dim yn °ddrwg**

= how are you today?—not bad

mae pethau'n mynd o °ddrwg i °waeth

= things are going from bad to worse

- = naughty

plant drwg = naughty children

- (as noun, masculine) = trouble (= 'bad thing', 'problem')

y drwg yw bod hi bron yn amhosib

profi'r peth = the trouble is that it's

almost impossible to prove it

mae'n °ddrwg gen i (North) / mae'n

°ddrwg 'da fi (South) = I'm sorry

dywedwyd ar ei rhan ei bod hi'n

°wirioneddol °ddrwg ganddi = it was

said on her behalf that she was really

sorry

⇒ **gwael**

drwodd *adverb*

= through

mi °gerddon nhw drwodd = they

walked through

daliwch eiliad—na i °roi chi drwodd =

hold on a moment—I'll put you

through

ond pryd eith y penderfyniadau 'ma

drwodd, tybed? = but I wonder when

these decisions will go through?

⇒ **drwy°**

drws (*plural drysau*) *noun, masculine*

= door

mae rhywun wrth y drws = someone's

at the door

drwy° (*less frequently* ⇒ **trwy°**; *often*

drw° *in speech*) *preposition*

personal forms: drwydda i, drwyddat ti,

drwyddo fe, drwyddi hi, drwyddon ni,

drwyddoch chi, drwyddyn nhw

- = through

mae'r gwynt 'ma'n mynd yn syth

drwyddat ti, on'd ydy? = this wind

goes right through you, doesn't it?

a i drwy'r atebion gyda chi mewn

munud = I'll go through the answers

with you in a minute

- = by

ffurflenni ar °gael drwy °gysylltu â'n

swyddfa = forms available by

contacting our office

- = throughout, all (through)

mae'r lle 'ma dan ei sang drwy'r Haf =

this place is packed out all summer

bydda i yno drwy'r wythnos = I'll be

there all week

! *In this last sense, the unmutated*

form ⇒ **trwy°** *is also very common.*

Notice the difference between **drwy'r**

wythnos *all week and* **°bob wythnos**

every week.

⇒ **drwodd**, ⇒ **drwy °gydol**, ⇒ **trwy°**

drwy °gydol *adverb*

= throughout, all through

perfformiadau drwy °gydol y

°flwyddyn = performances all year

round

! *This phrase is a common alternative*

to the preposition ⇒ **drwy°** *in this*

sense.

drych (*plural -au*) *noun, masculine*

= mirror

drysau *plural of*

⇒ **drws**

du *adjective, plural (mostly in set phrases*

these days) **duon**

= black

mae gynni hi °wallt du, on'd oes? =

she's got black hair, hasn't she?

dal i ffynnu mae'r °farchnad °ddu = the

black market still thrives

teledu du-a-gwyn = a black-and-white

television

dull (*plural -iau*) *noun, masculine*

= method

mae'r dull ymarferol yma o °ddysgu'n

°groes i'r ffasiwn °bresennol = this

practical method of teaching goes

against the present fashion

duw (*plural -iau*) *noun, masculine*

= god

cadwyd enwau dros °bedair mil o

°dduwiau Celtaidd = the names of over

four thousand Celtic gods have been

preserved

duwies (*plural -au*) *noun, feminine*

= goddess

dŵad (*North*)

⇒ **dod**

dweud (also **deud**, **gweud**) (*stem wed-*, **dwed-**, **dywed-**) *verb*/*noun*
= say; tell (**wrth**° to)

! This very common verb has a number of forms of the verb/noun — **dweud** is the standard, while **deud** is very common in the North, and **gweud** equally so in the South. For all practical purposes in the spoken language, the stem is **wed-**, while **dwed-** and **dywed-** represent increasing degrees of formality. Notice that this verb uses ⇨**wrth**° with the person talked to—see examples.

be' wedest ti? = what did you say?

be' wedson nhw wrthat ti? = what did they say to you?

pw y wedith wrtho fe? = who'll tell him?

mae'n rhy °gynnar i °ddweud = it's too early to tell or say

dywedwyd bod y °drefn °gynllunio °bresennol yn °foddfaol = it was said that the present planning system was satisfactory

mi °geith pob un ohonoch ei °ddweud, peidiwch poeni = every one of you will have his say, don't worry

a dweud y gwir = actually, as a matter of fact

a dweud y gwir, oedd y prisiau'n uchel braidd = actually, the prices were rather high

dw i °ddim yn siwr, a dweud y gwir = I'm not sure, actually

⇨**siarad**

dwfn *adjective*
comparative **dyfnach**, *superlative* **dyfna(f)**

= deep (also *figurative*)

mae'r dŵr yn rhy °ddwfn fan hyn = the water's too deep here

dŵr (*plural* **dyfroedd**) *noun, masculine*
= water

er bod dŵr yn hanfodol i °fywyd pob anifail... = although water is essential to the life of every animal...

mae dyfroedd Afon Dyfrdwy yn fy °ngwaed bellach = the waters of the River Dee are in my blood now

dwsin (*plural* **-au**) *noun, masculine*
= dozen

...**ymhlith y dwsinau o argymhellion a**

°restrwyd = ...among the dozens of recommendations listed

dwyo° *numeral*

⇨**dau**°

dwyeithog *adjective*

= bilingual

y bwriad yw sicrhau addysg

°ddwyeithog i °bob plentyn yn y sir = the intention is to ensure a bilingual education for every child in the county

dwyeithrwydd *noun, masculine*

= bilingualism

dwylo *plural noun*

= hands

mae safon y cynhyrchu yn °ddiogel yn eu dwylo = the quality of production is safe in their hands

tasai fo'n syrthio i °ddwylo'r heddlu cudd... = if he fell into the hands of the secret police...

yn °nwyllo'r gelyn = in the hands of the enemy

⇨**llaw**

dwyn (*stem* **dyg-**) *verb*/*noun*

= steal

mae rhywun wedi dwyn ein tocynnau = someone's stolen our tickets

Dwyn Ceir yn Arafu = Car Thefts Drop

dwyrain *noun, masculine*

= east

⇨**gogledd** for phrasings involving points of the compass

dwyreiniol *adjective*

• = eastern, easterly

gwyntoedd dwyreiniol = easterly winds

! The paraphrase **o'r dwyrain** from the east is often used as an alternative in many cases:

gwyntoedd o'r dwyrain = easterly winds

• = oriental

mae hi'n astudio ieithoedd dwyreiniol yng °Nghaergrawnt = she's studying oriental languages at Cambridge

dwywaith *adverb*

= twice

bydd y Tywysog yn ymweld â ni °ddwyaith °bob tro = the prince visits us twice every time

dyn ni'n disgwyl dwywaith °gymaint o °bobol heddiw = we're expecting twice as many people today

dyo (often **d'** before vowels) *possessive adjective*

• = your

! This possessive adjective corresponds to the informal singular pronoun ⇒ **ti**, while the equivalent for plural and formal singular ⇒ **chi** is ⇒ **eich**. As with all the possessive adjectives in the modern language, an 'echoing' or 'reinforcing' pronoun (in this case **di**) can optionally follow the noun.

dy °gar di ydy hwn, 'te? = this is your car, then?

beth yw d' enw di? = what's your name?

mae dy °waith cartre heb ei °orffen = your homework hasn't been finished

mi ffoniodd dy °fam = your mother phoned

! Notice that **dyo** is one of a small number of words in Welsh that are resistant to soft mutation—i.e. it never changes to ***ddy**, even when circumstances (here a preceding **am**) would otherwise require a mutation

beth am dy °rieni? = what about your parents

• = you

! When used in conjunction with a verbnoun, the possessive adjectives correspond to object pronouns in English. So **dyo** + verbnoun = '...ing you', or '... you'. The echoing pronoun is normally used in this construction

wi'n dy °garu di = I love you

beth sy'n dy °boeni di? = what's bothering you?

dychmygu *verbnoun*
= imagine

mi °ellwch chi °ddychmygu mor °falch o'n i = you can imagine how pleased I was

dychryn *verbnoun*

• = frighten, scare

...neu mi °fyddi di'n dychryn yr anifeiliaid = ...or you'll frighten the animals

• = have a fright

dychrynodd Huguon Fach Goch = Little Red Riding Hood had a fright

dychrynlyd *adjective*

= frightful, fearful

dychwelyd (*stem dychwel-*) *verbnoun*

= return

dychweler y ffurflen erbyn y pumed o Awst = please return the form by the fifth of August

dydy, dydyn

⇒ **bod**

dydd (*plural -iau*) *noun, masculine*

= day

beth wyt ti'n °wneud fan hyn amser 'ma o'r dydd? = what are you doing here at this time of the day?

beth wyt ti'n °wneud dyddiau 'ma? =

what are you doing these days?

roedd pethau'n °well yn yr hen

°ddyddiau = things were better in the old days

dan ni'n dod fan hyn °bob dydd = we come here every day

bydda i gartre trwy'r dydd heddiw = I'll be at home all day today

ers dyddiau dw i'n aros = I've been waiting for days

°welwn ni chi °Ddydd Nadolig, 'te =

we'll see you on Christmas Day, then

fel arfer, bydd cathod yn cysgu yn

ystod y dydd = cats usually sleep by day

! While ⇒ **diwrnod** essentially means 'period of 24 hours', **dydd** essentially means 'day (as opposed to night)', though the distinction is far from clear-cut. It is true that the two words are hardly ever interchangeable, and certain idioms simply have to be learnt—those involving the plural 'days' virtually always require **dyddiau**.

⇒ **deuddydd**, ⇒ **diwrnod**, ⇒ **Llun**,

⇒ **tridiau**

dyddiad (*plural -au*) *noun, masculine*

= date

beth yw'r dyddiad heddiw? = what's the date today?

beth yw'ch dyddiad geni? = what is your date of birth?

dyddiadur *noun, masculine*

= diary

nodyn i'w °roddi yn y dyddiadur = a note to put in the diary

dyfodol *adjective, usually functioning as noun, masculine*

= future

oes dyfodol i'r cynllun 'ma? = has this plan got a future?

adeg yma o'r °flwyddyn, edrych at y dyfodol sydd rhaid = this is the time of year for looking to the future

! Although **dyfodol** is an adjective, when 'future' has an adjectival sense in English, Welsh generally uses a paraphrase—**i °ddod** to come, **a °ddaw** which will come, or **yn y dyfodol** in the future.

mae rhaid ystyried cenedlaethau i °ddod = we must consider future generations

dyfroedd *plural of*
⇒ **dŵr**

dyffryn (*plural -noedd*) *noun, masculine*

= (wide, flat) valley

beth nawr am °gyflwr yr amgylchedd ar hyd y dyffryn? = what now about the state of the environment along the valley?

⇒ **cwm**, ⇒ **glyn**

dylwn i *etc verb*

(*verbnoun not in use*)

personal forms: dylwn i, dylet ti, dylai

fe/hi, dylen ni, dylech chi, dylen nhw

common variants: dylswn i, dylset ti

etc; dylwn i, dyllet ti etc

autonomous/impersonal form dylid

= ought to, should

! This modal verb is used with unreality endings only, and followed by a soft-mutated verbnoun (except negative).

dylwn i °fynd = I ought to go
fe °ddylech chi °gwyno, on' dylech?
= you should complain, shouldn't you?

°ddylen ni °ddweud wrtho? = should we tell him?

°ddylset ti °ddim gwneud pethau

felly = you shouldn't do such things

cyfrol a °ddylai °fod ar silff °lyfrau pob un o'n darllenwyr = a volume

that ought to be on the bookshelf of every one of our readers

To convey 'should have... ', 'ought to have... ', we need **dylwn i (etc)** + **°fod wedi** + *verbnoun*:

mi °ddylai John °fod wedi gweld

Mair neithiwr = John should have seen Mair last night

°ddylwn i °fod wedi rhoi gwybod iddi? = should I have let her know?

°ddylwn i °ddim °fod wedi dod fan hyn = I shouldn't have come here

The impersonal form **dylid** is commonly used in more formal and/or official styles to express obligation; similarly the interrogative **a °ddylid?**, and the negative **ni °ddylid** for prohibition. As with all impersonal forms, none of these cause soft mutation:

dylid osgoi agwedd °feirniadol = a

critical attitude should be avoided

a °ddylid dibynnu ar °gyfrifiaduron?

= should computers be relied on?

ni °ddylid ysgrifennu o dan y llinell

hon = do not write below this line

dyma° *adverb*

= here

! This extended form of ⇒ **yma** is used primarily to point things out from the view of the speaker. Spatially it refers to persons or objects close at hand, while ⇒ **dyna°** and ⇒ **dacw°** are further away. In translation it can correspond to 'Here is... ', 'Here are... ', 'This is... ', 'These are... ' wherever these involve pointing out things or people to someone else. The contracted form **'ma°** is common in speech.

dyma °mrawd Dafydd = this is my brother Dafydd

'ma nhw = here they are

dyma i ti °bunt = here's a pound for you
dyma'r dogfenni o'ch chi eisiau gweld
= here are the documents you wanted to see

dyma'ch stafelloedd = these are your rooms

ai dyma yw achos y camddeall? = is this the cause of the misunderstanding?

! Sometimes **dyma°** is used in conjunction with a verbnoun to lend

vividness to a narrative sequence:

dyma agor y llyfr ar hap = so I opened the book at random

dymchwel *verb*noun

• = overthrow

rhaid dymchwel y llywodraeth 'ma

= this government must be overthrown

• = demolish

bydd yn rhaid, os gwireddir y cynllun,

°ddymchwel stryd °gyfan o °dai = it will be necessary, if the plan is realized, to demolish a whole street of houses

dymuno *verb*noun

= wish

formal present 3sg dymuna, 1pl

dymunwn

dymuna Hywel a Nerys °ddiolch yn °gynnes am y llu arnhigion = Hywel and Nerys wish to give warm thanks for the huge number of presents

dymunwn yn °dda i Ann Williams a

°fydd yn priodi yfory = we send good wishes to Ann Williams who is getting married tomorrow

dymunol *adjective*

= pleasant

doedd hynny °ddim yn °brofiad

dymunol iawn, rhaid dweud = that wasn't a very pleasant experience, I must say

dyn (*plural -ion*) *noun, masculine*

= man

tri dyn mewn cwch = three men in a boat

! This noun sometimes corresponds to the indefinite pronoun 'one', although ⇒ **rhywun** is also common, if not commoner, in this sense.

beth mae dyn i °fod i °wneud? = what is one supposed to do?

The distinction between this word and ⇒ **gŵr** is not always easy to identify, as in some cases they appear interchangeable. But **dyn** is probably the more neutral or 'unmarked' word; furthermore, one of the main senses of **gŵr**—'husband' or 'married man'—is not shared with **dyn**.

! This extended form of ⇒ **yna** is used primarily to point things out from the view of the speaker. Spatially it refers to persons or objects further away than with ⇒ **dyma°**, but closer than with ⇒ **dacw°**, although it can refer to things quite close to the speaker, as in the third example below. In translation it can correspond to 'There is. . .', 'There are. . .', 'That is. . .', 'Those are. . .' wherever these involve pointing out things or people to someone else. The contracted form **'na°** is very widespread in natural speech. Usually the present tense of the verb **bod** 'to be' is not expressed with **dyna°**—though certain idiomatic phrasings have it, as in the sixth example below; otherwise it can be used with verbs as required.

dyna'r dyn °alwodd bore 'ma = that's the man who called this morning
dyna ei °wraig, draw fan'na = there's his wife, over there
'na'r cwawl sy gen i = that's all I've got

dyna 'magiau = those are my bags
ai dyna'ch car chi? = is that your car?

dyna yw arholiadau! = that's exams (for you)!

dyna oedd ei °fwriad o'r cychwyn cynta = that was his intention all along

'na (be') wedes i = that's what I said
dyna (be') wedan nhw, siwr iawn i chi = that's what they'll say, you can be sure

'na ni! = there we are!
'na fe! = that's it!

dyna + *verb*noun, with 1st person understood (or **dyna** + [subject] + **yn** *verb*noun when talking of a third party) is used as a kind of historic present construction to give vividness to a narrated event:

a dyna ffonio fe yn ôl = and so I/we phone(d) him back

a dyna nhw'n ailfeddwl ar y °funud ola! = and (suddenly) they change their minds at the last minute!

The contracted form **'na°** is

common with a following adjective as an exclamation—'How . . .!':

'na neis! = how nice!
'na °bert! = how pretty!
'na °ryfedd! = how funny!

dyna°, 'na° *adverb*

= there

dynes *noun, feminine (North)*
= woman

! **merched** or **gwragedd** usually serve as the plural of this noun.

⇒ **menyw**

dynol *adjective*
= human

dysgu *verb/noun*

• = learn

mae dulliau dysgu wedi newid yn aruthrol = there have been huge changes in teaching methods

• = learn

ers pryd dych chi'n dysgu Cymraeg?
= how long have you been learning Welsh?

dysgwr (*plural dysgwyr*) *noun, masculine*

= learner (*male*) (almost always these days in the narrower sense of someone who is learning, or has learnt, Welsh)

a 'pha fath o 'ddysgwr ydych chi, 'te?
= and what kind of learner are you, then?

dysgwr o 'Wyddel = an Irishman who is learning/has learnt Welsh

dysgwraig (*plural dysgwragedd*)
noun, feminine

= learner (*female*)

dysgwraig o 'Lanelli sy wedi cipio'r 'wobr eleni = a (woman) learner from Llanelli has taken the prize this year

dyw

⇒ **bod**

ddaru *auxiliary*

! The auxiliary **ddaru** is used in speech in Northern areas to form the preterite. The construction is a simple one: **ddaru** + [subject] + °*verb/noun*. So, for example, from **mynd** 'go', we get **ddaru mi °fynd** I went, **ddaru ti °fynd** you went, **ddaru o °fynd** he went, **ddaru Sioned °fynd** Sioned went. The interrogative is the same but for intonation—**ddaru ti °fynd?** did you go?, while the negative uses °**ddim** and demutes the verb/noun in the usual way—**ddaru Sioned °ddim mynd** Sioned didn't go. Note that the first person singular pronoun is always **mi** (not **fi** or **i**) with **ddaru**.

The affirmative marker ⇒ **mi**° can be used in the normal way with **ddaru**.

ddaru chi °weld nhw? = did you see them?

ddaru nhw °weld ni? = did they see us?

mi ddaru nhw °wneud hynny yn y 'Drenewydd = they did that in Newtown

ddaru ni °ddim dechrau tan ar ôl cinio = we didn't start till after lunch

ddaru nhw °dalu?—**do** = did they pay?—yes

ddoe *adverb*

= yesterday

est ti i'r cyfarfod ddoe? = did you go to the meeting yesterday?

fe °gyrhaeddodd y papurau bore ddoe = the papers arrived yesterday morning

! The unmutated form of this word, **doe**, though still listed even in modern dictionaries, is obsolete, although it can be seen in ⇒ **echdoe**. While ⇒ **bore** and ⇒ **prynhawn** can be combined with **ddoe**, 'yesterday evening' is not ***nos ddoe**, but ⇒ **neithiwr**.

Ee

e *pronoun*

• = he

bydd e'n mynd yfory = he will come tomorrow

• = him

does dim arian 'dag e = he hasn't got any money

dw i heb ^weld e ers dyddiau = I haven't seen him for days

• = it (referring to masculine nouns)

dw i heb ^weld e = I haven't seen it

• (as 'echoing' pronoun with ⇨**ei**) = his:

ei ^gar e = his car

! Like all pronouns in Welsh, **e** serves as both subject and object pronoun—that is, 'he' and 'him'. The longer variant ⇨**fe** (pronoun) also means 'he' and 'him', but the two are not usually interchangeable. Generally, **e** is preferred when the preceding sound is a consonant, so that we have, for example, **bydd e** he will be, but **byddai fe** = he would be. An exception is the present tense of **bod**, where **mae e** is common—though even here many regions, particularly in the South, prefer **ma' fe** (= **mae fe**). After the plural imperative in **-wch** both **e** and **fe** are usual as object pronouns—so **anwybyddwch e** or **anwybyddwch fe** ignore him. The distinction between ⇨**o** and ⇨**fo** in the North more or less mirrors **e/fe**, but see under separate headings.

The literary language has only one form **ef** which covers all spoken variants for 'he'/'him' and which, incidentally, is itself never found in unaffected speech.

Note that the affirmative particle ⇨**fe**, though clearly the same word in origin, is now a word in its own right.

⇨**fo**, ⇨**o**, ⇨**yntau**

eang *adjective*

comparative **ehangach**, superlative

ehanga(f)

= wide, broad

bu beirniadaeth ehangach = there has been wider criticism

⇨**ehangu**

Ebrill *noun, masculine*

= April

⇨**lonawr**

economaidd *adjective*

= economic

mae'n amlwg mai ffactorau

economaidd ^fydd yn penderfynu = economic factors will clearly be decisive

echdoe *adverb*

= the day before yesterday

echnos *adverb*

= the night before last

edifaru *verb/noun*

= regret

edmygu *verb/noun*

= admire

mae rhaid edmygu ei ^dalent = you have to admire his talent

edrych *verb/noun*

imperatives often (singular) **drycha!**

(plural) **drychwch!** in speech

= look (**ar** at)

ar beth wyt ti'n edrych? = what are you looking at?

edrychaf ymlaen at ^glywed gennyh

cyn bo hir (formal) = I look forward to hearing from you before long/in due course

drychwch fan 'na! = look (over) there!

efallai *adverb*

= perhaps, maybe

! When used with a following clause, this word requires a 'that . . .' construction.

efallai bod hi'n ^bryd ailgioriannu ei

^yrfa = perhaps it is time to reassess his career

efallai mai hynny sy'n egluro ei

absenoldeb = perhaps that is what explains his absence

efallai nad oes dadl economaidd dros

ei ^warchod = perhaps there is no

economic argument for conserving it

bydd y lleill yn dod wedyn, efallai =

perhaps the others will be along later

⇨**ella**, ⇨**hwyrach** *adverb*

efeilliaid⇒ **gefell****efelychu** *verb* noun

= imitate

mae hi'n naturiol °fod plant yn**efelychu eu harwyr** = children naturally imitate their heroes**efo** (also sometimes **hefo**) *preposition* (North)

= with

! This quintessentially Northern word corresponds to ⇒ **gyda**, ⇒ **'da** in the South. The one area where they do not correspond is in expressions denoting possession, for which Northern areas use not **efo** but ⇒ **gan°**. Note that **gyda** is the form encountered in practically all registers of writing, with **efo** a purely spoken form.

°ges i °drafferthion efo'r car bore 'ma

= I had problems with the car this morning

mi °fydda i hefo chdi mewn munud =

I'll be with you in a minute

effaith (*plural effeithiau*) *noun*, feminine

= effect

gall yr effaith hon hefyd °gael ei °thrin**â °chfyffuriau** = this effect can also be treated with drugs**effeithio** *verb* noun= affect, have an effect (**ar°** on)**gallai 1°C o °gynhesu effeithio ar****°faint a natur y cymylau** = 1°C of warming could affect the size and nature of the clouds**effeithiol** *adjective*

= effective

mae angen datblygu dulliau mwy**effeithiol o °ddysgu** = more effective methods of teaching need to be developed**effro** *adjective* (North)

= awake

mae o'n effro = he's awake⇒ **ar °ddihun**, ⇒ **deffro****eglor** *adjective*

= clear

yn °gynta, °ga i °wned un peth yn**°gwbl eglur?** = first, can I make one thing perfectly clear?**egluro** *verb* noun

• = explain

prin y byddai yna amser i egluro =

there would scarcely be time to explain

• = make clear

gadewch i mi egluro un peth = let me

make one thing clear

⇒ **esbonio****eglwys** (*plural -i*) *noun*, feminine

= church

egni *noun*, masculine

= energy

egwyddor (*plural -ion*) *noun*, feminine

= principle

mae hyn yn °fater o egwyddor, wedi'r**cwblwl** = this is a matter of principle, after all**egwyl** *noun*, feminine

= interval, break (also between school lessons)

bydd lluniaeth ar °gael yn ystod yr**egwyl** = refreshments will be available during the interval**enghraifft** (*plural enghreifftiau*) *noun*, feminine

= example

°ellwch chi °roi enghraifft arall inni? =

can you give us another example?

os edrychwn ni, er enghraifft, ar y**sefyllfa yn Llydaw** = if we look, for example, at the situation in Brittany⇒ **esiampl****ehangu** *verb* noun

• = broaden, widen

cynllun i ehangu'r ffordd rhwng**Llanilar a Lledrod** = a plan to widen the road between Llanilar and Lledrod• = expand (**ar°** on) (also figurative)**°allwch chi ehangu ychydig ar eich****rhesymau dros °fynd?** = can you expand a bit on your reasons for going?**mae eisiau ehangu'n gorwelion, on'd****oes?** = we need to expand our horizons, don't we?⇒ **eang****ei°** (often 'i after vowels) *possessive adjective*

! In all its uses, **ei**^o sounds in normal speech (and always has) as if spelt **i**—the spelling is an artificial one based on mistaken etymology. Pronouncing it as written sounds affected to most native speakers.

• = his

mae ei °ddylanwad yn amlwg, **a'i** °gyfraniad yn anferth = his influence is obvious, and his contribution huge

beth oedd ei swydd °gynta? = what was his first job?

• (referring to masculine nouns) = its
rhowch fe ar ei ochor = put it on its side

! In very careful phrasing, interrogative pronouns used as the object of the sentence require a 'back-referring' **ei**^o before a verbnoun. In normal speech this is not heard, though the mutation is.

beth dych chi'n ei °feddwl?

beth dych chi'n °feddwl? (spoken) = what do you think?

• (referring to masculine object of verbnoun) = him

does neb yn ei °ddeall **e** = no-one understands him

ac mae'n °bleser **i mi** °gael **ei** °groesawu **heno** = and it's my pleasure to be able to welcome him this evening

• (referring to masculine object of verbnoun) = it
llenwch yr holiadur a'i °ddychwelyd **erbyn diwedd yr wythnos** = fill in the questionnaire and return it by the end of the week

! Note that, in the above uses only, as with all the possessive adjectives, **ei** can be accompanied by an optional 'reinforcing' pronoun (**ei**^{fe}) after the noun or verbnoun.

• (in passive constructions using ⇒cael)
mi °gafodd **y tŷ ei** °ddinistrio = the house was destroyed

mae dyn wedi cael ei arestio = a man has been arrested

⇒i'w

ei^h (often 'i after vowels) possessive adjective

! In all its uses, **ei**^h sounds in normal speech (and always has) as if spelt **i**—the spelling is an artificial one based on mistaken etymology. Pronouncing it as written sounds affected to most native speakers.

! As well as causing aspirate mutation (though only consistently of **c-** in the spoken language), **ei**^h also prefixes **h-** to a following vowel—again this usage is variable through the regions, though it is the norm in the standard language.

• = her

mae ei °char oddiar **y ffordd ar hyn o** °bryd = her car is off the road at the moment

sut mae Meleri'n dod ymlaen yn ei °hysgol newydd? = how is Meleri getting on in her new school?

• (referring to feminine nouns) = its

ond o ble daeth y °gomed, **a beth yw ei** °hanes? = but where did the comet come from, and what is its history?

• (referring to feminine object of verbnoun) = her

bydd eisiau ei holi hi wedyn = she'll have to be asked (about it) later (lit: 'There will be need to ask her...')

• (referring to feminine object of verbnoun) = it

darllenwch y °ddogfen amgaeedig **a'i** °llofnodi = read the enclosed document and sign it

! Note that, in the above uses only, as with all the possessive adjectives, **ei**^h can be accompanied by an optional 'reinforcing' pronoun (**hi**) after the noun or verbnoun.

• (in passive constructions using ⇒cael)

mae dynes wedi cael ei harestio = a woman has been arrested

fe °allai'r ysgol °gael **ei** °gorfodi **i**

eithrio = the school could be forced to opt out

⇒i'w

eich (usually 'ch after vowels) possessive adjective

! This word is always pronounced with the indistinct 'uh' sound normally associated with **y** in Welsh. Pronouncing it as written sounds affected to most native speakers.

! This word corresponds to the pronoun ⇒ **chi**, and is used in all cases where **chi** would be the appropriate term of reference.

- = your
°fydd eich rhieni °ddim yn rhy hapus
 = your parents won't be too pleased
mae'ch ffrindiau chi wedi mynd yn °barod = your friends have already gone
- (as object of verb/noun) = you
mi °ddaw rhywun i'ch gweld cyn hir = someone will be along to see you before long
°alla i'ch helpu chi? = can I help you?

! Note that, in the above uses only, as with all the possessive adjectives, **eich** can be accompanied by an optional 'reinforcing' pronoun (**chi**) after the noun or verb/noun.

- (in passive constructions using ⇒ **cael**)
°gawsoch chi'ch siomi, 'te? = you were disappointed, then?
ydych chi wedi cael eich camdrin fel hyn o'r blaen? = have you been mistreated like this before?
 ⇒ **dy°**

eich gilydd *pronoun*
 ⇒ **gilydd**

eiddo *noun, masculine*

- = property
eiddo fi ydy hwnna = that's my property
- = that/those of... (referring back to previously stated noun)
mae'n dadleuon ninnau'n °gryfach nag eiddo'r °Wrthblaid = our arguments are stronger than those of the Opposition
- **yr eiddoch yn °gywir** (at end of letter) = yours truly

ei °gilydd *pronoun*
 ⇒ **gilydd**

eiliad (*plural -au*) *noun, feminine*
 = second

ugain eiliad = twenty seconds
daliwch eiliad! = hold on a second!

ein (*'n after vowels*) *possessive adjective*

! This word is generally pronounced **yn** (i.e. to rhyme roughly with English 'sun') in normal speech.

- = our
archebwch nawr cyn i'n stoc i gyd °ddiflannu! = order now before all our stock disappears!
beth am ein plant ni? = what about our children?
- = us
bydd yr arian yn ein galluogi i °wella'r sefyllfa'n sylweddol = the money will enable us to improve the situation considerably
unwaith eto mae'r llywodraeth wedi'n twyllo ni i gyd = once again the government has deceived us all

! Note that, in the above uses only, as with all the possessive adjectives, **ein** can be accompanied by an optional 'reinforcing' pronoun (**ni**) after the noun or verb/noun.

- (in passive constructions using ⇒ **cael**)
os cawn ni'n stopio gan yr heddlu = if we get stopped by the police
dw i °ddim eisiau inni °gael ein beirniadu am hyn = I don't want us to be criticised for this
mae'n ein galw'n °gelwyddgwn = he calls us liars

ein gilydd *pronoun*
 ⇒ **gilydd**

eira *noun, masculine*
 = snow

disgwylir eira trwm yn y Gogledd heno = heavy snow is expected in the North tonight
mae'n bwrw eira = it's snowing

eisiau *noun, masculine, functioning as verb/noun*

! This word is variously pronounced **isie**, **isio**, **ise**, but never as spelled.
 ! Though usually functioning as a verb/noun, this word is a noun and does not use a linking **yn** with the verb **bod**—so **dw i eisiau** = I want (not: **dw i'n eisiau*). Not being a verb/noun, it has no stem, and therefore cannot take endings of any kind. Past reference is done with the imperfect: **o'n i eisiau** = I wanted,

roedd y °ferch eisiau... = the girl wanted...

- (functioning as *verb*) = want
dych chi eisiau dod? = do you want to come?
pwy sy eisiau rhagor o °goffi? = who wants some more coffee?
o'n i eisiau cael gair â chi = I wanted to have a word with you
'sw'n i °ddim eisiau'ch rhwystro chi = I wouldn't want to disturb you
⇒ **moyn**, ⇒ **am°**

- (functioning as *noun*) = want; need
mae eisiau cynnal cyfarfod = a meeting needs to be held
mae eisiau dweud wrthyn nhw be' ydy be', on'd oes? = they need telling what's what, don't they?
oes eisiau dweud wrthi? = does she need to be told?
oes eisiau bwyd arnat ti? = are you hungry?
byddwn ni'n gweld eich eisiau = we'll miss you
⇒ **angen**, ⇒ **rhaidd**

eisoes *adverb*
= already
mae'r cwmni eisoes wedi ennill enw iddyn nhw eu hunain = the company have already earned a name for themselves

⇒ **yn °barod**

eistedd *verb*
= sit, sit down
eisteddwch fan hyn = sit (down) here
fe °gododd ar ei heistedd pan oedd hi'n °bythefnos oed = she sat up when she was a fortnight old

! **eistedd i lawr** = sit down, is generally regarded as an *anglicism*.

eisteddfod (*plural -au*) *noun, feminine*
= eisteddfod

eitha(f) *adverb*
= quite, fairly
maen nhw'n edrych yn eitha hyderus = they're looking fairly confident
sut wyt ti'n teimlo erbyn hyn?—eitha da = how are you feeling now?—quite good
i'r eitha(f) = extremely (a less common alternative to ⇒ **tu hwnt** and ⇒ **dros °ben**)

eithrio
⇒ **ac eithrio**

eleni *adverb*
= this year
mae mwy fyth o °ddosbarthiadau'n cael eu cynnal eleni = even more classes are being held this year
lle dach chi'n mynd eleni? = where are you going this year?

! *The phrase (y) °flwyddyn yma is also heard in some areas, but eleni is regarded as correct.*

⇒ **blwyddyn**, ⇒ **llynedd**

elfen (*plural -nau*) *noun, feminine*
= element
byddai system fel hyn yn cadw'r elfen °ddemocrataidd = a system like this would preserve the democratic element

elw *noun, masculine*
= profit
mae'r diwydiant yn gwneud elw dros °gyfnod byr yn unig = the industry makes a profit only over the short term

elwa *verb*
= profit (o° from)
= benefit (o° from)
yn ôl Mr Williams, bydd elusennau'n elwa mwy o'r loteri yn y pendraw = according to Mr Williams, charities will benefit more from the lottery eventually

ella *adverb (North)*
= perhaps, maybe

! *When used with a following clause, this word requires a 'that ...' construction.*

ella °fod o wedi colli'r bws = perhaps he's missed the bus
ddaru o °ddim gweld nhw, ella = perhaps he didn't see them
⇒ **efallai**, ⇒ **hwyrach** *adverb*

enfawr *adjective*
= huge, enormous
y cwblw sydd i'w °weld erbyn hyn yw twll enfawr yng nghanol y stryd = all that can be seen now is a huge hole in the middle of the road

enfys (*plural -au*) *noun, feminine*
= rainbow

ennill (stem **enill-**) *verb* *noun*

• = win

pwyl enillodd neithiwr? = who won last night?

dw i wedi ennill gwobr! = I've won a prize!

• = gain

dych chi wedi ennill pwysau, wi'n credu = you've gained weight, I think

• = earn

faint mae o'n ennill dyddiau 'ma? = what does he earn these days?

enw (plural **-au**) *noun*, masculine

• = name

enwau Cymraeg ar °blanhigion = Welsh names for plants

• = reputation (often with **da** good)

mae gynnyn nhw enw da am

°brydlondeb = they've got a reputation for punctuality

⇒ **cyfenw**

enwedig *adjective*

= special

yn enwedig = especially

ond bydd hi'n teimlo'n oerach, yn enwedig yn y Gogledd = but it will feel colder, especially in the North

⇒ **arbennig**

enwog *adjective*

comparative **enwocach**, superlative

enwoca(f)

= famous, renowned

fe °fydd perfformwyr enwog yn

cymryd rhan = famous performers will be taking part

bydd Elinor yn cyfweld ag un o'n hactorion enwoca ar ôl yr egwyl = Elinor will be interviewing one of our most famous actors after the break

er

1 *preposition*

= for

! This rather literary preposition is mostly encountered these days in the phrase **er cof am**° in memory of. In formal writing it can mean 'for the sake of' or 'in order to', for which the modern language uses ⇒ **er mwyn**; also 'since', for which the modern language uses ⇒ **ers**.

er glendid ni °hchanaiteir cŵn yn yr adeilad hon = for reasons of

hygiene dogs are not allowed in this building

⇒ **er gwaetha**, ⇒ **er mwyn**

2 *conjunction*

• = although

! This conjunction is used with a following 'that ...' clause. The construction **er i**° + subject + °*verb**noun* is usual with reference to the past (see second example below).

er °fod y bechgyn wedi pysgota'n

°dda ... = although the boys fished well ...

er iddo honni °fod dim byd o'i °le = although he claimed that nothing was wrong

er na °fyddai'r cwmnïau awyrennau'n cyfadde hynny = although the aeroplane companies would not admit that

• = however ... (+ *equative adjective*)

er mor anodd yw hi, does dim dewis

'da ni = however difficult it is, we haven't got any choice

ansawdd ydy'r peth pwysica, er mor uchel ydy'r prisiau = quality is the most important thing, however high the prices are

er cymaint dych chi'n °wario, °fydd hi °ddim yn °ddigon = however much you spend, it won't be enough

⇒ **er hynny**

erail *adjective*

⇒ **arall**

erbyn

1 *preposition*

= by (*in time expressions*)

mi °fydd yr adeilad newydd yn °barod

erbyn diwedd y mis = the new building will be ready by the end of the month

rhaid cofrestru erbyn y degfed o °fis

Awst = you must register by the tenth of August

oedd pawb wedi mynd adre erbyn

hynny = everyone had gone home by then

! The phrase **erbyn hyn** by now is also frequently used for 'now' where there is an implication of change of situation or circumstance (like ⇒ **bellach**):

sut wyt ti'n teimlo erbyn hyn? = how are you feeling now?

2 conjunction

= by the time (that)

rhaid i'r stafell fod yn °daclus erbyn i mi °ddod yn ôl = the room has got to be tidy by the time I get back
roedd y cyfarfod wedi dod i °ben erbyn inni °gyrraedd = the meeting had finished by the time we arrived

! Note that, as a conjunction, **erbyn** is followed by **i** + subject + °verb-noun.

⇒ yn erbyn

erchyll adjective

= horrible

rhaid atal peth mor erchyll rhag digwydd eto = such a horrible thing must be prevented from happening again

er gwaetha(f) preposition

= despite, in spite of

mae disgwyl i'r gêm °fynd yn ei blaen er gwaetha'r tywydd oer = the game is expected to go ahead despite the cold weather

er hynny adverb

= however, all the same, despite that

er hynny, mae tystiolaeth yn dangos nad oes gwahaniaeth mawr = all the same, evidence shows that there isn't much difference

⇒ fodd bynnag, ⇒ serch hynny

erioed adverb

! This word means both 'ever' and 'never' according to context; also 'never' as a one-word answer. In all these senses it is the equivalent of ⇒ **byth**, but the two are not interchangeable—**erioed** is required where past time in relation to the speaker is indicated. In practical terms this means that you should use it with the preterite and with all **wedi**-tenses. Occasionally **erioed** corresponds to 'always', where this refers to the past.

• = ever

°glywest ti erioed y °fath rwtsh? = did you ever hear such nonsense?

°fuoch chi erioed yn yr Eidal? = have you ever been to Italy?

• = never

°fues i erioed yn yr Eidal = I've never been to Italy

dw i erioed wedi gweld y ffilm 'na = I've never seen that film

°faset ti wedi cytuno?—erioed! = would you have agreed?—never!

• = always

o'n i eisiau mynd i °ddysgu erioed = I always wanted to go into teaching

⇒ byth

er mwyn

1 preposition

= for the sake of

mi arhoson nhw efo'i gilydd er mwyn y plant = they stayed together for the sake of the children

er dy °fwyn di naethon ni hyn! = we did this for your sake!

2 conjunction

• = in order to

er mwyn rhoi cyfle i °ddysgwyr

ymarfer eu Cymraeg = in order to give learners a chance to practise their Welsh

• = so that

er mwyn i mi °gael gwneud y

trfniadau priodol = so that I can make the appropriate arrangements

! In this sense **er mwyn** is followed by **i** + subject + °verb-noun.

ers

1 preposition

• = since

mae'r °frech °goch arni ers dydd Llun = she's had measles since Monday

• = for

gyrfa ym °myd teledu °fu uchelgais

Carys ers blynyddoedd = a career in the world of television has been Carys's ambition for years

dan ni heb °weld chi ers tro = we haven't seen you for a long time

! The present tense is more natural in Welsh with **ers** when the time period referred to extends to the present for the speaker—so, not ***ers pryd wyt ti wedi bod yn aros fan hyn?** mirroring the English construction, but: **ers pryd wyt ti'n aros fan hyn?** = how long have you been waiting here?

because the person addressed is still waiting when spoken to. Similarly with the vaguer **ers faint?**:

ers faint dych chi'n dysgu

Cymraeg? = how long have you been learning Welsh?

2 conjunction

= since

mae'r sefyllfa wedi newid yn

°gyfangwbl ers i chi °fod yno = the situation has completely changed since you were there

priodi *verb-noun*

= marry, get married (*takes either â°/ag or direct object*)

priodi â rhywun or **priodi rhywun** = to get married to someone.

nest ti °briodi â'r °ferch drws nesa, °te? = you married the girl next door, then?

naethon ni °briodi °ddeugain

°mlynedd yn ôl = we got married forty years ago

priodol *adjective*

• = proper

• = appropriate

gofynnir i chi °roi tic yn y blwch

priodol = you are requested to put a tick in the appropriate box

pris (*plural -iau*) *noun, masculine*

= price

beth ydy pris y rheina? = what's the price of those?

edrychwch ar ein prisiau! = look at our prices!

problem (*plural -au*) *noun, feminine*

= problem

ydy hyn yn mynd i °fod yn °broblem i chi? = is this going to be a problem for you?

mae un °broblem yn dal heb ei datrys = there is one problem still unsolved

profedigaeth *noun, feminine*

= bereavement

profi *verb-noun*

• = prove

dyfarnwyd °fod y cyhuddiadau eraill

heb eu profi = it was ruled that the other charges were not proved

• = try, sample

wyt ti'n moy'n profi'r hyn sy °da fi? = do you want to try what I've got?

profiad (*plural -au*) *noun, masculine*

= experience

siarad am °y °mhrofiadau °n hunan

ydw i nawr, cofiwch = I'm speaking about my own experiences now, mind

profiadol *adjective*

= experienced

mae'r cwrs wedi'i anelu at °ddysgwyr

profiadol yn unig = the course is aimed at experienced learners only

proffwyd (*plural -i*) *noun, masculine*

= prophet

proffwydo *verb-noun*

= prophesy

proffwydoliaeth (*plural -au*) *noun, feminine*

= prophecy

proses (*plural -au*) *noun, masculine or feminine*
= process

prosesu *verbnoun*
= process

prosesydd geiriau (*plural prosesyddion geiriau*) *noun, masculine*
= word processor

prosiect, project (*plural -au*) *noun, masculine*
= project

protest (*plural -au*) *noun, masculine*
= protest

dywedodd llefarydd y byddai'r protest yn parhau = a spokesman said the protest would continue

protestio *verbnoun*
= protest

yn ni'n gorfod protestio yn erbyn y °dreth anghyfiawn 'ma = we have to protest against this unjust tax

protestiwr (*plural protestiwr*) *noun, masculine*
= protester

p'r un? *variant of pa un?*
= which one?

pry copyn *noun, masculine*
⇒ **pry(f)**

pryd?

1 *adverb*
= when?

! This word is used for 'when?' in questions, while (in the standard language at least) ⇒ **pan°** is required for statements. Compare:

pryd maen nhw'n dod? = when are they coming?

oedd hi'n bwrw glaw pan °ddaethon nhw = it was raining when they came
But colloquial usage often allows

pryd in statements also:

oedd hi'n bwrw glaw pryd daethon nhw

Note, however, that **pan°** can never be used for the question 'when?'.

Further examples:

pryd mae'r trên yn mynd? = when does the train go?

pryd byddet ti'n gwneud y gwaith? = when would you do the work?

ffonia a gofyn pryd mae'r cyngerdd yn dechrau = phone and ask when the concert starts
Note that after **pryd** the third person singular and plural of **bod** is always **mae, maen, and never ydy, ydyn.**

2 (*plural -iau*) *noun, masculine*
= time

ar hyn o °bryd = at the moment

ar °brydiau = at times

°bryd hynny = at that time, then

o °bryd i'w gilydd = from time to time

ar y pryd = at the time;

simultaneous(ly)

mewn pryd = in time

mae'r marchnadoedd yn °dawel ar hyn o °bryd = the markets are quiet at the moment

mi °all y tirlun yma edrych yn °drist

braidd ar °brydiau = this landscape can look rather sad at times

doedd dim llawer yn y siopau °bryd

hynny, wrth °gwrs = there wasn't

much in the shops then, of course

gobeithio y byddwn ni mewn pryd = I hope we'll be in time

3 (*plural -au*) *noun, masculine*
= meal

! In the sense of 'meal' (note different plural), **pryd** usually appears as a longer phrase **pryd o °fwyd**:

mae'n °bwysig bod nhw'n cael pryd o °fwyd °gynta = it's important that they have a meal first

Prydain *noun, masculine*
= Britain

Prydain °Fawr = Great Britain

Prydeinig *adjective*
= British

pryder (*plural -on*) *noun, masculine*

• = worry, fear

olew Cymreig—y gobeithion a'r

pryderon = Welsh oil—the hopes and the fears

• = anxiety

mae cryn °dipyn o °bryder wedi bod

= there has been quite a bit of

anxiety

pryderu *verbnoun*

= worry

⇒ **gofidio, ⇒ poeni, ⇒ becco**

prydfferth *adjective*

= beautiful

mae rhannau o °Gymru'n °brydfferth

iawn = parts of Wales are very beautiful

prydfferthwch *noun, masculine*

= beauty

prydion *adjective*

= punctual; on time

dw i eisiau i chi i gyd °gyrraedd yn

°brydion = I want you all to arrive on time

peryglir y grant os na °chyhoeddir yn

°brydion = delayed publication will jeopardize the grant

prydiondeb *noun, masculine*

= punctuality

pry(f) (*plural pryfed*) *noun, masculine*

= insect

! This is the general term in speech for small creatures, particularly insects and bugs. Note also **pry copyn** spider. A more specific technical term **trychfilyn** (*plural trychfilod*) is used for 'insect' in more formal contexts.

prynhawn (*often pnawn in speech*)

(*plural -iau*) *noun, masculine*

= afternoon

°wela i di pnawn 'ma! = I'll see you this afternoon!

bydd y stondin ar agor prynhawn

yfory = the stall will be open tomorrow afternoon

°gwrddes i ag e prynhawn (dydd) Llun

= I met him on Monday afternoon

prynu *verbnoun*

= buy, purchase

°ga i °brynu diod i ti? = can I buy you a drink?

mi °brynodd e'r cyfan = he bought the lot

prysur *adjective*

= busy

lleolir yr Eisteddfod eleni wrth ochr

ffordd °brysur yr A55 = this year the Eisteddfod is located beside the busy A55 road

pumed *adjective (precedes noun)*

= fifth

ymhellach i'ch llythyr dyddiedig y

pumed o °Fai... = further to your letter dated the fifth of May...

! Ordinal numerals are adjectives, but behave in a special way. All other than ⇒ **cynta** precede the noun. With feminine singular nouns, the noun itself undergoes soft mutation, as does the ordinal after the article—so: **y pumed dyn** the fifth man but **y °bumed °ferch** the fifth girl.

pum(p) *numeral*

= five

dim ond papur pum punt sy gen i = I've only got a five pound note

Faint o °lyfrau sy 'da chi fan'na?—

Pump = How many books have you got there?—Five

mae pum llyfr ar y bwrdd or **mae pump**

o °lyfrau ar y bwrdd = there are five books on the table

! This numeral has the form **pum** when directly followed by the noun, otherwise it is **pump**. As with all low cardinal numerals there are two constructions: either [numeral + singular] or [numeral + o° + plural] (see third example above). So, similarly, 'five men' is either **pum dyn** or **pump o° ddynion**.

p'un? *variant of*

pa un?

= which one?

punnoedd, punnau *plural of*

⇒ **punt**

punt (*plural punnoedd or punnau*)

noun, feminine

= pound

mae arnat ti °dddeg punt i mi = you owe me ten pounds

dwy °bunt a hanner can ceiniog os gwelwch yn °dda = two pounds fifty pence please

achoswyd gwerth pum mil o

°bunnoedd o °ddifrod = five thousand pounds' worth of damage was caused

! Note these terms for amounts of money: **punt a hanner** £1.50, **dwy °bunt a hanner** £2.50, **ugain punt** £20, **deugain punt** £40, **hanner can punt** £50, **can punt** or **cant o**

°bunnoedd/°bunnau £100, dau °gan
pant or dau °gant o
°bunnoedd/°bunnau £200, mil o
°bunnoedd/°bunnau £1000, miliwn
o °bunnoedd/°bunnau £1,000,000.

⇒pwys

pupur *noun, masculine*
= pepper

pur° *adverb*
= quite

pwdu *verb/noun*
= sulk
a does dim pwynt i ti °bwdu felly, nag
oes? = and there's no point in you
sulking like that, is there?

pwŵer (*plural -au*) *noun, masculine*
= power

! Used generally in the sense of
'wielded' power (like ⇒grym), but
also sometimes for 'energy' in a very
broad sense.

⇒nerth

pwerdy (*plural pwerdai*) *noun,*
masculine
= power station

pwerus *adjective*
= powerful

pyll (*plural pyllau*) *noun, masculine*
= pool

pyll nofio (*plural pyllau nofio*) *noun,*
masculine
= swimming pool

pwnc (*plural pynciau*) *noun, masculine*
= subject; topic
ceir darlithoedd ar °wahanol °bynciau
= there will be lectures on various
topics

pwnc llosg (*plural pynciau llosg*) =
burning issue

pwnc trafod (*plural pynciau trafod*) =
subject for discussion

⇒testun

pwncio *verb/noun*
= thump, hit

mi °bwnia i fel! = I'll thump him!

pwrrpas (*plural -au*) *noun, masculine*
= purpose

beth yn union ydy pwrrpas y
°gynhadledd 'ma? = what exactly is
the purpose of this convention?

o °bwrpas = deliberately, on purpose
⇒pwrrpasol

pwrrpasol *adjective*
= deliberate

yn °bwrpasol = deliberately, on
purpose

nest ti hynny'n °bwrpasol, on'do? =
you did that on purpose, didn't you?

⇒bwriadol

pwyr?

1 *pronoun*
= who?; whom?

pwyr aeth efo chi? = who went with you?

pwyr oedd yn eistedd yma gynnau? =
who was sitting here just now?

pwyr °fydd yn ennill?, pwyr enillith? =
who will win?

! When the subject of the sentence
(as with the subject generally in
Welsh), **pwyr** is followed by soft
mutation:

pwyr °dorrodd y ffenest 'ma? = who
broke this window?

In more formal style this word is
followed by ⇒(a)° particle: **pwyr a**
°dorrodd...?

lle maen nhw bellach?—pwyr a
°wyr? = Where are they now?—Who
knows?

This question word (like ⇒beth?,
⇒faint?, pa un? and pa °rai?) is
followed in the present tense (and
wedi-perfect tense) by **ydy** in
identification sentences, and
otherwise **sy** when the subject and
mae when the object of the sentence.
Compare the following:

pwyr ydy'r dyn 'na? = who is that
man? (identification)

pwyr sy'n dod i'r parti? = who is
coming to the party? ('Who' is the
subject of the sentence)

pwyr mae Alun yn helpu? = who(m)
is Alun helping? ('Who' is the object
of the sentence, 'Alun' the subject)
The erroneous 'rule' about not ending
a sentence with a preposition in
English is nonetheless valid for Welsh,
which does not allow free-standing
prepositions:

i °bwy mae'r llythyr 'ma? = who is
this letter for?

es i allan neithiwr—gyda pwyr? = I
went out last night—who with?

at °bwy mae'r rhaglen 'ma wedi'i hanelu'n °benna? = who is this programme mainly aimed at?

*It is important to remember that **pwyl?** is a question word, and so cannot be used for the other (relative) meaning of 'who' in English—>(a)° particle, =>**sy(dd)**:*

pwyl °daflodd y °bêl? = who threw the ball?

dyna'r °ferch (a) °daflodd y °bêl = there's the girl who threw the ball
*Not: *Dyna'r °ferch pwyl °daflodd y °bêl*

pwyl sy'n mynd heno? = who is going tonight?

dyna'r dyn sy'n mynd heno = there's the man who is going tonight
*Not: *Dyna'r dyn pwyl sy'n mynd heno*

*Not: *Dyna'r dyn pwyl yn mynd heno*

2 (pwyl°) *adjective (South)*
 = which?; what...?

! This word is used colloquially in the South for =>pa°:

pwyl °lyfr dych chi'n moyn? = which book do you want?

pwyl bynnag *pronoun*

= whoever

pwyl bynnag ydyn nhw, dw i ddim

eisiau gweld nhw = whoever they are, I don't want to see them

pwyll *noun, masculine*

• = sense

• = judgment

• **gan °bwyll**

= carefully does it

= hang on a minute

gan °bwyll...paid ti â °chwmpo =

carefully does it...don't you fall

gan °bwyll nawr, mae'n debyg o °fod

dan y papurau 'ma = hang on a minute now, it's probably under these papers

pwyllgor (*plural -au*) *noun, masculine*

= committee

bydd y pwyllgor yn cwrdd eto

°ddiwedd mis Mawrth = the committee will meet again at the end of March

pwyllo *verb/noun*

*usually in the imperative **pwyllal**,*

pwyllwch! look out!; be careful!

pwylla, neu mi °fyddi di'n cwmpo! = be careful, or you'll fall!

pwylnt (*plural -iau*) *noun, masculine*
 = point

gêm °gyffrous, gydag lwerddon yn ennill tri °phwynt = an exciting game, with Ireland winning three points
does dim pwylnt cwyno, nag oes? = there's no point complaining, is there?

naw pwylnt wyth miliwn o °bunnoedd oedd y °brif °wobr neithiwr = the jackpot was nine point eight million pounds last night

pwys (*plural -au*) *noun, masculine*

• = pound

°ga i °ddau °bwys o °foron os gwelwch yn °dda? = can I have two pounds of carrots please?

Faint yw'r caws 'na?—Punt a hanner y pwys = How much is that cheese?—One pound fifty per pound

⇒punt

• (*usually in plural*) = weight

mae hi wedi dechrau ennill pwysau o'r diwedd = she's started putting on weight at last

os dych chi am °golli pwysau... = if you want to lose weight...

• (*usually in plural*) = pressure

bydd y llywodraeth yn dwyn pwysau arnyn nhw = the government will bring pressure on them

o °bwys = important

pobol o °bwys = important people, VIPs

pwysig *adjective*

*comparative **pwysicach**, superlative*

pwysica(f)

= important

dych chi'n credu °fod hyn yn °bwysig, 'te? = do you think that this is important, then?

mae'n °bwysicach nag erioed i chi °ddefnyddio'r côd post cywir = it's more important than ever for you to use the correct post code

pwysigrwydd *noun, masculine*

= importance

pwyslais *noun, masculine*

= emphasis; stress

hoffwn i °fod wedi gweld tipyn mwy o °bwyslais ar ei °flynyddoedd cynnar = I would have liked to see a little more emphasis on his early years
rhaid rhoi pwyslais ar y °ddau °air fel ei gilydd = both words must be stressed alike

pwysleisio *verb noun*

= emphasize, stress

ond mi °bwysleisiodd mai ateb dros °dro oedd hwn = but he emphasized that this was (only) a temporary solution

pwysio *verb noun*

• = weigh

dylai eitemau ail °ddosbarth °beidio â °phwyso mwy na 750g = second class items should not weigh more than 750g

na i °bwyso nhw i chi = I'll weigh them for you

• = lean (ar° on; **yn erbyn** against)

bydd rhaid pwysio arno, on' bydd? = he'll have to be leant on, won't he?

pwyth (*plural -au, -i*) *noun, masculine*

= stitch

talu'r pwyth (yn ôl) = retaliate, pay back

mi °dala i'r pwyth = I'll get my own back

pydredd *noun, masculine*

= rot; rottenness

pydru

• *verb noun* = rot, go rotten

mae'r afalau 'ma wedi pydru = these apples have gone rotten

• **wedi pydru** (*as adjective*) = rotten

afalau wedi pydru = rotten apples

pyllau *plural of*

⇒ **pwll**

pymtheg *numeral*

= fifteen

! This is the native term for 'fifteen', while a 'decimalized' form **undeg pump** is promoted in schools. An alternative form **pymtheng** is used in the same circumstances as is **deng** for ⇒ **deg**.

pynciau *plural of*

⇒ **pwnc**

pysgod *plural of*

⇒ **pysgodyn**

pysgodyn (*plural pysgod*) *noun,*

masculine

= fish

mae pysgodyn diddorol arall yn dod i'r cyffiniau hyn °bob haf = another interesting fish comes to these parts every summer

pa °fath o °bysgod sy gynnoch chi heddiw? = what kind of fish have you got today?

pysgod a sglodion = fish and chips

pysgota *verb noun*

= fish

pysgotwr (*plural pysgotwyr*) *noun,*

masculine

= fisherman

pythefnos (*plural -au*) *noun,*

masculine or feminine

= fortnight

°fasai pythefnos i heddiw'n °gyfleus i chi? = would a fortnight today be convenient for you?

maen nhw wedi mynd i'r Eidal am

°bythefnos = they've gone to Italy for a fortnight

Rr

'r

⇒ **y** definite article

radicalaidd adjective

= radical

⇒ **syfaenol**

radio (plural **-s**) noun, masculine or feminine

= radio

°**allet ti °droi'r radio i lawr ychydig?** =

could you turn the radio down a bit?

bydda i'n gwrando ar y radio bron

°**bob prynhawn** = I listen to the radio almost every afternoon

ras (plural **-ys**) noun, feminine

= race

rasio verbnoun

= race

rasia i di'n ôll = I'll race you back!

real adjective

= real

! This loanword is of restricted use in speech.

⇒ **go iawn**, ⇒ **gwirioneddol**

record (plural **-iau**) noun, feminine

= record (sport, music)

mae hi wedi torri record y byd = she's

broken the world record

bydd eu record newydd yn y siopau

erbyn y Dolig = their new record will be in the shops by Christmas

recordydd (plural **-ion**) noun,

masculine

= recorder

recordydd fideo (plural **recordyddion fideo**) = video recorder

recordydd tâp (plural **recordyddion tâp**) = tape recorder

reit° adverb

= quite; really

mae hwnna'n edrych yn reit °dda, a dweud y gwir = that looks really good, actually

rinc (plural **-iau**) noun, feminine

= rink

rinc iâ (plural **rinciau iâ**) noun, feminine
= ice rink

roced (plural **-i**) noun, feminine

= rocket

roedd, roeddwn, roeddet, roeddech, roedden

⇒ **bod**

rôl (plural **rolau**) noun, feminine

= rôle

efallai y bydd gynni hi rôl i'w chwarae

hefyd = perhaps she will also have a rôle to play

rownd

1 (plural **-iau**) noun, feminine

= round (in competition, etc)

rownd °derfynol Cwpan y Byd = the final round of the World Cup

2 adverb

= round

! As an adverb, mostly in the phrase **rownd y °gornel** round the corner.
⇒ **o °gwmpas** or ⇒ **o amgylch** are the normal terms for 'round'.

ruban (plural **-au**) noun, masculine

= ribbon

rwan, rŵan (often **wan** in rapid speech) adverb (North)

= now

! This word corresponds to Southern and standard ⇒ **nawr**.

rwan °ta, be' sy'n digwydd fan'ma? = now then, what's happening here?

dw i eisiau fo, ac dw i eisiau fo rwan! = I want it, and I want it now!

rwan °fod o wedi dŵad, mi °gawn ni °ddechrau = now that he's here, we can start

dach chi'n bwriadu mynd rwan? = do you plan to go now?

⇒ **bellach**

rwber (plural **-i**) noun, masculine

= rubber (material, eraser)

rysáit (plural **ryseitiau**) noun, feminine

= recipe

RHrh

rhad *adjective*

comparative rhatach, superlative

rhata(f)

= cheap

mae bron popeth yn rhatach fan hyn =

almost everything is cheaper here

yn rhad ac am °ddim = free, gratis

ffoniwch y cysylltydd yn rhad ac am

°ddim ar 100 = phone the operator free

on 100

rhaedr (*plural -au*) *noun, feminine*

= waterfall

rhaff (*plural -au*) *noun, feminine*

= rope

rhag *preposition*

= from; against (*mostly with verbs of stopping, preventing, hindering, sheltering, etc*)

rhaid atal peth mor erchyll rhag

digwydd eto = such a horrible thing

must be stopped from happening again

byddwn ni'n rhwystro nhw rhag

gwneud hynny = we will prevent them from doing that

lloches rhag y gwynt = shelter from the wind

rhag°- *prefix*

= fore-; pre-

rhagair *noun, masculine*

= foreword

(⇒ **gair**)

rhagddweud *verb noun*

= foretell

(⇒ **dweud**)

rhagweld *verb noun*

= foresee

(⇒ **gweld**)

rhagfarnllyd *adjective*

= prejudiced

(⇒ **barn**)

rhagflas *noun, masculine*

= foretaste

(⇒ **blas**)

rhagrybuddio *verb noun*

= forewarn

(⇒ **rhybudd**)

rhagymadrodd *noun, masculine*

= preface

(⇒ **ymadrodd**)

rhagarweiniad (*plural -au*) *noun,*

masculine

= introduction

rhagarweiniol *adjective*

= introductory; prefatory

rhagenw (*plural -au*) *noun, masculine*

= pronoun

rhagfarn (*plural -au*) *noun, feminine*

= prejudice

Rhagfyr *noun, masculine*

= December

⇒ **lonawr**

rhaglen (*plural -ni*) *noun, feminine*

• = programme

hon yw'r rhaglen °deledu °waetha ym

°Mhrydain erioed = this is the worst

television programme ever in Britain

mae rhaglen o °fesurau wedi'i llunio

gan yr adran = a programme of

measures has been drawn up by the

department

• = (computer) program

ond roedd y rhaglen 'na'n llawn

gwallau, on'd oedd? = but that

program was full of bugs, wasn't it?

rhaglennu *verb noun*

• = programme

• = (computer) program

rhagolwg (*plural rhagolygon*) *noun,*

masculine

• = outlook; prospect

• (*often plural*) = forecast

dyma °ragolygon y tywydd am heno

ac yfory = here is the weather forecast

for tonight and tomorrow

rhagor *adverb*

= more

leiciech chi °ragor? = would you like

(some) more?

mae rhagor ar y ffordd = more is on the way

dw i °ddim eisiau clywed rhagor! = I

don't want to hear (any) more!

unwaith yn rhagor os gwelwch yn

°dda = once more please

! As a quantity expression, **rhagor** requires a following **o°** when a noun is specified:

oes rhagor o °goffi ar °gael? = is there (any) more coffee available?
ceisiwch °feddwl am °ragor o enghreifftiau o °ragrith yn y nofel = try and think of more examples of hypocrisy in the novel

⇒ **chwaneg, chwanag, ⇒ myw** *adverb*

rhagori *verb-noun*

= be better (**ar°** than), be superior (**ar°** to)

does dim caws ym °Mhrydain yn rhagori ar °gaws Caerffili = no cheese in Britain is better than Caerphilly cheese

rhagorol *adjective*

= excellent; preeminent

rhagrith *noun, masculine*

= hypocrisy

rhagrithiol *adjective*

= hypocritical

rhagrithiwr (*plural rhagrithwyr*)

noun, masculine

= hypocrite

rhai

1 *pronoun*

= ones; some

! As a pronoun, **rhai** functions as the plural of ⇒ **un**

°well gen i'r rhai coch = I prefer the red ones

pa °rai leiciet ti? = which ones would you like?

mae rhai yn meddwl felly, ond dim fi = some think so, but not me

mae rhai ar ôl, wi'n credu = there are some left, I think

2 *adjective*

= some

casgliad o storïau, rhai hen a rhai newydd, o °Gernyw = a collection of stories, some old (ones) and some new (ones), from Cornwall

oedd rhai pobol yn dal i °ddadlau mai buddugoliaeth oedd hi = some people were still arguing that it was a victory

⇒ (**y**) **rhain**, ⇒ (**y**) **rheiny**, (**y**) **rheina**, ⇒ **rhyw°**

rhaid *noun, masculine*

! The most common use of **rhaid** is to express obligation in the construction

rhaid + i° + [subject] + °[verb-noun]—literally '(There is) a necessity for [subject] to [action]'. So, for example, **rhaid i Alun °fynd** Alun must go, Alun has to go. **Mae** (or even **mae'n**) is optional before **rhaid**. Notice that **does dim rhaid** means '...need not...', while '... must not...' is **rhaid i [subject] °beidio [action]**

• (expressing obligation) = must; have to
(mae) rhaid i mi °fynd = I must go, I have to go

oes rhaid i mi °fynd? = must I go?, do I have to go?

does dim rhaid i mi °fynd = I need not go, I don't have to go

(mae) rhaid i mi °beidio mynd = I must not go

rhaid i mi a °phawb arall °gyfadde fod camgymeriadau wedi'u gwneud = I and everyone else must admit that mistakes have been made

rhaid i mi'ch atgoffa chi mai chi'n sy'n °gyfrifol am hyn = I must remind you that (it is) you (who) are responsible for this

! Other tenses are possible with **rhaid**:

roedd rhaid iddyn nhw °fynd = they had to go

oedd rhaid iddyn nhw °fynd? = did they have to go?

doedd dim rhaid iddyn nhw °fynd = they didn't have to go

bydd rhaid iddyn nhw °fynd = they'll have to go

°fydd rhaid iddyn nhw °fynd? = will they have to go?

°fydd dim rhaid iddyn nhw °fynd = they won't have to go

byddai/basai rhaid iddyn nhw °fynd = they would have to go

°fyddai/°fasai rhaid iddyn nhw °fynd? = would they have to go?

°fyddai/°fasai dim rhaid iddyn nhw °fynd = they would not have to go

In this primary sense of obligation, ⇒ **gorfod** is a synonym for **rhaid**, but note that **gorfod** is a verb-noun not a noun like **rhaid**, and so has a different construction. Compare:

rhaid iddyn nhw °fynd

maen nhw'n gorfod mynd = they have to go

• (expressing supposition) = must

! 'Must' can also imply supposition in English—'you must be mad!' means not 'You are obliged to be mad,' but rather 'I suppose that you are mad'. In Welsh, **rhaid** is used in these cases as well (note that **gorfod** is not), but with a different construction: **rhaid** + 'that ...' clause. Compare:
rhaid iddi °fod fan hyn = she must or has to be here (she is obliged to be)
rhaid bod hi fan hyn = she must be here (I'm sure she is, because she can't be anywhere else)

rhaid bod rhywbeth o'i °le = something must be wrong

rhaid bod nhw'n aros tan yfory = they must be waiting till tomorrow

rhaid mai Gwilym sy'n °gyfrifol wedi'r cwblw = it must be that Gwilym is responsible after all

• (as true noun) = need (wrth° of)
mae'n rhaid wrth yr arian er mwyn sicrhau dyfodol y °Ganolfan = the money is needed in order to secure the Centre's future

angen, ⇒ **eisiau**

(y) rhain *pronoun*
 = these (ones)

! This pronoun serves as the plural of ⇒ **hwn** pronoun and ⇒ **hon** pronoun

faint yw'r rhain? = how much are these?

°ddo i â'r rhain wedyn = I'll bring these later

Note that 'these ...' used as an adjective with a following noun—for example 'these books'—is ⇒ **y ... 'ma**. Compare:

beth am y llyfrau 'ma? = what about these books?

beth am y rhain? = what about these?

The pronoun **y rhain** is used on its own when no noun is stated. The word is a contraction of **(y) rhai hyn** 'these ones'.

⇒ **y ... 'ma**

rhamantus *adjective*
 = romantic

rhan (*plural -nau*) *noun, feminine*
 = part

o °ba °ran o °Gymru dych chi'n dod? = what part of Wales do you come from?
mae'n rhan o'n hetifeddiaeth, on'd ydy? = it's part of our heritage, isn't it?

y rhan °fwya(f) = the majority, most:
mae'r rhan °fwya'n °debygol o °bleidleisio yn erbyn = most are likely to vote against
rhan amla = mostly:
dyn ni'n mynd i'r sinema rhan amla = mostly we go to the cinema
 ⇒ **ar °ran**, ⇒ **o °ran**

rhanbarth (*plural -au*) *noun, masculine*
 = region, district

rhanbarthol *adjective*
 = regional, district

rhandaliad (*plural -au*) *noun, masculine*
 = instalment

rhaniad (*plural -au*) *noun, masculine*
 = division

rhannol *adjective*
 = partial

yn rhannol = partly, partially:
mae hyn wedi digwydd yn rhannol o °ganlyniad i °breifateiddio = this has happened partly as a result of privatisation

rhannu *verb noun*
 • = share

oedden ni'n rhannu fflat yn Abertawe ar y pryd = we were sharing a flat in Swansea at the time

• = divide (**yn°** into)

bydd eisiau ei °rannu'n °gyfartal = it will have to be divided equally

rhathu *verb noun*
 = scrape

rhaw (*plural -iau, rhofiau*) *noun, feminine*
 = spade, shovel

rhechen, rhech (*plural rhechod*) *noun, feminine*
 = fart

rhechu, rhechain *verb noun*
 = fart

rhedeg (*stem rhed-*) *verb noun*
 = run

rhedwch ar ei ôl e! = run after him!
peiriant sy'n rhedeg ar olew = a machine that runs on oil
pwyl fydd yn rhedeg y cwmni wedyn? = who will be running the company then?

rheg (*plural -feydd*) *noun, feminine*
 = swearword

rhegi *verb-noun*
 = swear; curse
mae e'n rhegi fel tincer/cath = he swears like a trooper

⇒ **tyngu**

rheidrwydd *noun, masculine*
 = necessity

rheiddiadur (*plural -on*) *noun, masculine*
 = radiator

rheilffordd (*plural rheilffyrdd*) *noun, feminine*
 = railway

beth sy eisiau nawr yw buddsoddi yn y rheilffordd 'ma = what's wanted now is investment in this railway
yr unig lein °fach a °redir gan °Reilffyrdd Prydeinig = the only narrow-gauge line run by British Rail

(y) rheiny, (y) rheina *pronoun*
 = those (ones)

! *This pronoun serves as the plural of*

⇒ **hwnnw/hwnna** *pronoun and*

⇒ **honno/honna** *pronoun:*

faint yw'r rheina? = how much are those?

°ddo i â'r rheiny wedyn = I'll bring those later

Note that 'these ...' used as an adjective with a following noun—for example those books—is ⇒ y ... 'na. Compare:

beth am y llyfrau 'na? = what about those books?

beth am y rheina? = what about those?

The pronoun y rheina/rheiny is used on its own when no noun is stated. The word is a contraction of (y) rhai hynny 'those ones'.

⇒ **y ... 'na**

rheithgor (*plural -au*) *noun, masculine*
 = jury

rheithiwr (*plural rheithwyr*) *noun, masculine*
 = juror (male)

rheithwraig (*plural rheithwragedd*) *noun, feminine*
 = juror (female)

rheol (*plural -au*) *noun, feminine*
 = rule

byddai hynny'n °groes i'r rheolau = that would be contrary to the rules

mae rheolau'r gêm yn °gymhleth braidd = the rules of the game are rather complicated

y cadeirydd sy'n penderfynu fel rheol = it's the chairman that decides as a rule

mae'n rheol 'da fi bo fi byth yn darllen adolygiadau = I make it a rule never to read reviews

rheolaeth (ar°) *noun, feminine*
 = control

rheid cadw rheolaeth ar ein hymateb emosiynol = we must keep control of our emotional response

mae popeth dan °reolaeth = everything's under control

rheolaidd *adjective*

= regular

mae'r rhan °fwya o'r berfau 'ma'n rheolaidd = most of these verbs are regular

maen nhw'n mynd yno'n rheolaidd = they go there regularly

⇒ **cyson**

rheoli *verb-noun*

• = control

rheoli'ch teimladau = control one's feelings

• = manage

rheoli cwmni = manage a company

rheolwr (*plural rheolwyr*) *noun, masculine*
 = manager

°ga i °wneud apwyntiad i °weld y rheolwr yfory? = can I make an appointment to see the manager tomorrow?

rhes (*plural -i, -au*) *noun, feminine*
 = row

eisteddych i gyd yn y rhes °flaen = all of you sit in the front row

rhes o °dai = a row of houses

rhestr (*plural -au, -i*) *noun, feminine*
= list

mae gen i °restr °fach fan hyn i'n helpu ni = I've got a little list here to help us

y cwblw! galla i °ddweud ydy'ch bod chi ar y rhestr °fer = all I can say is that you're on the short list

rhestru *verb-noun*
= list, make a list

rheswm (*plural rhesymau*) *noun, masculine*
= reason

beth yw'r rheswm am hyn? = what is the reason for this?

mae'n °bwysig am sawl rheswm = it's important for a number of reasons
wrth °reswm = of course

rhesymol *adjective*
= reasonable

mae rhaid inni °fod yn rhesymol = we must be reasonable

nwyddau o ansawdd am °brisiau rhesymol = quality goods at reasonable prices

rhew *noun, masculine*
= frost; ice

mae'r rhew dros °bopeth = the frost has covered everything

⇒ **iâ**

rhewgell (*plural -oedd*) *noun, feminine*
= freezer

⇒ **oergell**

rhewi *verb-noun*
= freeze

mae'n rhewi! = it's freezing!
mae'r dŵr 'ma wedi rhewi = this water has frozen

rhiant

⇒ **rhieni**

rhieni *plural noun*
= parents

mae angen rhoi gwybodaeth a °hchyngor i °rieni = we need to give information and advice to parents

! A singular form **rhiant** *noun, masculine* is confined largely to writing:

Annywl °Riant, ... = Dear Parent, ...

rhif (*plural -au*) *noun, masculine*
= number

beth ydy'ch rhif ffôn chi? = what is your phone number?

dw i °ddim yn gwybod rhif eu tŷ nhw = I don't know the number of their house

! This word implies a written figure in numerals, while ⇒ **nifer** is used in the broader sense of 'a number (of people, things, etc)'.

rhifo *verb-noun*
= count

maen nhw'n dysgu rhifo = they're learning how to count

⇒ **cyfri(f)** *verb-noun*

rhifyn (*plural -nau*) *noun, masculine*
= number (of a magazine etc), issue

mae rhifyn y Nadolig yn y siopau nawr! = the Christmas issue is in the shops now!

rhinwedd (*plural -au*) *noun, masculine or feminine*
= virtue

rhinweddol *adjective*
= virtuous

rhiw (*plural -iau*) *noun, feminine*

• = hill
mewn tŷ ar °droed y rhiw = in a house at the foot or bottom of the hill

• = slope

⇒ **bryn**, ⇒ **mynydd**

rhodfa (*plural rhodfeydd*) *noun, feminine*

• = avenue

• = parade

rhodio *verb-noun*
= stroll

rhodd (*plural -ion*) *noun, feminine*
= gift, donation

°ges i hwanna'n rhodd = I was given that

⇒ **anrheg**

rhoi, rhoid (*stem rhoi-, rhodd-*) *verb-noun*

imperative singular rho, plural rhowch or rhoddwch

• = give

beth am °roi tanysgrifiad fel anrheg i ffrind? = what about giving a subscription as a present to a friend?
°roddes i °bum punt iddo = I gave him five pounds
mi °rodda i fe yn ôl i ti yfory = I'll give it back to you tomorrow
rho °ganiad inni wythnos nesa = give us a ring next week
rhoddedig = donated
 • = put
°allet ti °roi'r pethau 'ma ar y bwrdd i mi? = could you put these things on the table for me?
rhowch y gweddiill fan hyn, newch chi? = put the rest here, will you?
eu rhoi nhw yn y °fyddin sy eisiau = they need putting in the army
 ⇒ **gosod**

rhodyn (plural **rhodion**) *noun*, masculine
 = (bread) roll

rhonc *adjective*
 = utter; rank; complete

! Particularly in the phrase **Saeson rhonc** English (people) through-and-through—but 'a Welshman through-and-through' is **Cymro glân**.

rhos (plural **-ydd**) *noun*, feminine
 • = moor
 • = heath

rhosyn (plural **-nau**) *noun*, masculine
 = rose

Rhufain *noun*, feminine
 = Rome

Rhufeinig *adjective*
 = Roman
hen ffordd °Rufeinig yw hon = this is an old Roman road

Rhufeiniwr (plural **Rhufeinwyr**, **Rhufeiniaid**) *noun*, masculine
 = Roman

rhugl *adjective*
 = fluent
ydy hi'n rhugl yn y °Gymraeg? = is she fluent in Welsh?
anelir y cwrs at °ddysgwyr heb °fod yn rhugl = the course is aimed at learners who are not fluent

rhuthro *verb/noun*
 = rush
mi °ruthrodd e drwy'r °egin = he rushed through the kitchen
bydd rhaid rhuthro, on' bydd? = we'll have to get a move on, won't we?

rhwng *preposition*
 = between
personal forms: rhyngdda i, rhyngddat ti, rhyngddo fe, rhyngddi hi, rhyngddon ni, rhyngddoch chi, rhyngddydd nhw.

Variants: rhyngddo i, rhyngddot ti; also variants with rhyng- and rhyth:

cyfle arall i °weld y gêm rhwng Cymru a Lloegr = another chance to see the game between Wales and England
fe °gafodd y ffordd rhwng Lledrod a Llanilar ei hailagor prynhawn 'ma = the road between Lledrod and Llanilar was reopened this afternoon
rhyngddat ti a fi... = between you and me...
bydda i yno rhwng dau a tri, gobeithio = I'll be there between two and three, I hope

! **rhwng**, unlike most simple prepositions, does not cause mutation of the following noun.

rhwyd (plural **-au, -i**) *noun*, feminine
 = net

rhwydo *verb/noun*
 = net

rhwydwaith (plural **rhwydweithiau**) *noun*, masculine
 = network

bydd rhwydwaith o °orsafoddi llai = there will be a network of smaller stations

rhwydd *adjective*
comparative rhywyddach, superlative rhywydda(f)

= easy
°allwch chi symud yn rhywydd? = can you move easily?
mae siarad yn °gyhoeddus yn dod yn rhywydd iddo = public speaking comes easy to him

⇒ **hawdd**

rhwyfo *verb/noun*
 = row (boat)

rhwylgiad (plural **-au**) *noun, masculine*
= tear, split (also figurative)
rhwylgiadau yn y °blaid = splits in the party

rhwylgo *verb noun*
= tear, split

rhwym *adjective*
= bound (o° to)
mae hi'n rhwym o °fwrw glaw = it's bound to rain
dan ni'n rhwym o °fod yn hwyr = we are bound to be late

rhwymo *verb noun*
= bind

rhwymyn *noun, masculine*
= bandage
rhowch °rhwymyn am ei ben o = put a bandage round his head

rhwystyr (plural **-au**) *noun, masculine*
= hindrance, obstacle

rhwystro *verb noun*
= hinder; prevent (**rhag** from)
mae'r protestwyr yn °benderfynol o'u rhwystro nhw °gymaint ag sy'n °bosib = the protesters are determined to hinder them as much as possible
byddwn ni'n rhwystro nhw rhag gwneud hynny = we will prevent them from doing that

rhy° *adverb*
= too
mae hwn yn rhy °fach i mi = this is too small for me
mi °ddaeth yn rhy agos = he came too close
peidiwch bod yn rhy hir = don't be too long
wel, dw i °ddim yn rhy hapus efo'r sefyllfa = well, I'm not too happy with the situation
mae'r staff yn gweithio mewn lle °rhy °gyfyng = the staff are working in a place (that is) too confined
dych chi'n llawer rhy °bigog = you're much too touchy

! Note that 'too much/too many' is ⇒ **gormod**, although **rhy °lawer** is sometime encountered in speech. The prefix ⇒ **gor°** can be used with certain adjectives in the sense of

rhy°, but this usage is restricted, and if in doubt it is safer to use **rhy°**.

⇒ **lawer**

rhybudd (plural **-ion**) *noun, masculine*
= warning; notice
ac mae 'na °rybudd o stormydd ger y glannau heno = and there is a storm warning on the coast tonight
rhaidd diolch iddyn nhw am °ddod ar °fyr °rybudd fel hyn = they must be thanked for coming at short notice like this

⇒ **larwm**

rhybuddio *verb noun*
= warn
dw i wedi rhybuddio nhw °ddwywaith yn °barod = I've warned them twice already
fe °rybuddiodd e bod rhaid i °gyhoeddwyr symud gyda'r oes = he warned that publishers must move with the times

rhydd *adjective*

- = free
dros y byd mae pobol yn ysu am °fod yn rhydd = throughout the world people are yearning to be free
dych chi'n rhydd yfory? = are you free tomorrow?
ond mi °fydd 'na °bleidlais °rydd ar y diwedd heno = there will be a free vote at the end tonight
- = loose
ond mae'r gwydr yn rhydd fan hyn, °welwch chi? = but the glass is loose here, do you see?

⇒ **rhad**, ⇒ **rhyddhau**

Rhyddfrydol *adjective*
= Liberal

rhyddhau *verb noun*

- = set free, release
mae'n °debyg y bydd y tri'n cael eu rhyddhau prynhawn 'ma = the three will probably be set free this afternoon
- = release (all senses)
yn °ddiweddar rhyddhawyd caset o'u caneuon mwya poblogaidd = a cassette of their most popular songs was released recently
yn ôl ffigurau a °ryddhawyd heddiw... = according to figures released today...

rhyddiaith *noun, feminine*
= prose

rhyddid *noun, masculine*
= freedom, liberty

rhyfedd

1 *noun, masculine*
= wonder

mae'n rhyfedd i mi °fod e wedi dod yn ôl = it's a wonder to me that he's come back

mi °gollon nhw, a °pha °ryfedd? = they lost, and small wonder

does °ryfedd (= + 'that...' clause) = it's no wonder

does °ryfedd na °hchlywes i °ddim rhagor ganddo am hyn = it's no wonder I didn't hear anything more from him about this

2 *adjective*

= odd, funny, strange
'na °ryfedd! = how odd!

beth ydy'r peth bach rhyfedd 'ma, 'te?
= what's this funny little thing, then?

rhyfedd fel mae'r pethau 'ma'n digwydd = funny how these things happen

⇒ doniol, ⇒ od

rhyfel (*plural -oedd*) *noun, masculine or feminine*
= war

mae'r rhyfel wedi bod yn ergyd °fawr i awdurdod Rwsia = the war has been a great blow to Russia's authority

mae'n stori ni'n dechrau yn °nyddiau tywylla'r Ail °Ryfel Byd = our story begins in the darkest days of the Second World War

rhyfela *verb/noun*
= wage war

rhyngwladol *adjective*
= international

bydd llu ymosod rhyngwladol ar ei ffordd erbyn diwedd yr wythnos = an international taskforce will be on its way by the end of the week

mae'r °Groes °Goch °Ryngwladol wedi tynnu'i °phobol allan yn °barod = the International Red Cross have already pulled their people out

rhyw *noun, feminine*
= sex

wi'n credu bod gormod o °ryw ar y teledu dyddiau 'ma = I think there's too much sex on television these days

rhyw° *adjective*
= some (+ singular)

mae rhyw °ddyn tu allan = some man (or other) is outside

byddwn ni'n dweud rhyw stori wrthyn nhw, dw i'n siwr = we'll tell them some story (or other), I'm sure.

mi °ddôn nhw'n ôl °ryw °ddiwrnod = they'll come back some day

nawn ni °ddatrys y °broblem °ryw ffordd neu'i gilydd = we'll solve the problem some way or other

rhywbeth *pronoun*
= something

mae newid yn rhywbeth °gwbl naturiol = change is something quite natural
oes rhywbeth yn bod? = is there something the matter?

rhywfaint *pronoun*
= a certain amount

oedd rhywfaint o °Gymraeg 'da hi = she had a certain amount of Welsh

! A variant phrase **rhyw °gymaint** is also encountered.

rhywiol *adjective*
= sexual

rhywle *adverb*
= somewhere

! This word usually appears in its soft mutated form °**rywle**, or with **yn** 'in' + radical form

°ga i °roi'r rhain i lawr °rywle? = can I put these down somewhere?

rhaid bod nhw yn rhywle = they must be somewhere

rhywrai
⇒ rhywun

rhywsut *adverb*
= somehow, in some way

! This word usually appears in its soft mutated form °**rywsut**

mi na i'r gwaith °rywsut = I'll do the work somehow

dyw'r syniad 'ma °ddim yn gweithio °rywsut = this idea isn't working somehow

SS

fe °gawn ni'r arian °rywsut neu'i gilydd = we'll get the money somehow or other

rhywun *pronoun*

- = someone
 - mae rhywun wrth y drws** = there's someone at the door
 - sut °all rhywun yn Llundain °wybod unrhywbeth am °Ben Llyn?** = how can someone in London know anything about Pen Llyn?
 - byddai'n rhaid i °rywun °fynd i'r °afael â'r pwnc** = someone would have to get to grips with the subject
- *plural rhywrai* some people
 - mae 'na °rywrai sy °ddim yn meddwl felly** = there are some people who don't think that way

sach (*plural -au*) *noun, feminine*
= sack; bag
cofiwch °ddod â sach °gysgu = remember to bring a sleeping bag

Sadwrn

= *in*: **dydd Sadwrn** Saturday
⇒ **Llun**

saer (*plural seiri*) *noun, masculine*
• = carpenter
• = mason

Saesneg *noun, feminine*

- = English language (*sometimes used with definite article y*)
 - beth ydy ystyr hyn yn Saesneg?** = what does this mean in English?
 - nofel wedi'i °hchfyfieithu o'r °Gymraeg i'r Saesneg** = a novel translated from Welsh into English
- (*as adjective*) = English-language
 - mae fersiwn Saesneg o'r ffurflen hefyd ar °gael** = an English-language version of this form is also available

! **Saesneg** is pronounced 'Sisneg' in unaffected speech. The definite article is often used with the noun, though not after **yn** 'in'. So **o'r Saesneg** 'from English' but **yn Saesneg** 'in English' (see examples above).

⇒ **Lloegr**, ⇒ **main**

Saesnes (*plural -au*) *noun, feminine*
= Englishwoman

! This word is pronounced 'Sisnes' in unaffected speech.

Saeson *plural of*

⇒ **Sais**

saeth (*plural -au*) *noun, feminine*
= arrow

saethu *verb/noun*

- = shoot; fire
- mi °gafodd un o'r terfysgwyr ei saethu'n °farw** = one of the terrorists was shot dead
- maen nhw'n chwilio am °beilot °gafodd ei saethu i lawr °ddydd Llun**

= they are looking for a pilot who was shot down on Monday

mi saethon nhw i'r awyr = they fired into the air

⇒ **tanio**

saethydd (*plural -ion*) *noun, masculine*
= archer

saethyddiaeth *noun, feminine*
= archery

safbwynt (*plural -iau*) *noun, masculine*
= standpoint; point of view

mae angen mwyr o °barch tuag at safbwyntiau pobol eraill = we need more respect for other people's points of view

safiad (*plural -au*) *noun, masculine*
= stand

gwneud safiad = make a stand:
mae'n °bwysig bod rhywun yn gwneud safiad ynghylch hyn = it's important that someone make a stand on this

safio *verb/noun*
= save (*all senses*)

! *This is a commonly used loanword covering the senses of both ⇒ achub and ⇒ arbed.*

bydd hyn yn safio amser inni = this will save us time

safle *noun, masculine*
safle bysiau = bus stop

safon (*plural -au*) *noun, feminine*

• = level; standard
cwrs penwythnos ar °gyfer dysgwyr o °bob safon = a weekend course for learners at every level

... **i sicrhau bod ein safonau ni'n aros yr un ag erioed** = ...to ensure that our standards remain the same as ever

• = quality
mae safon y cynhyrchu yn °ddiogel yn eu dwylo = the quality of production is safe in their hands
defnyddiau adeiladu o safon = quality building materials

⇒ **lefel**

safonol *adjective*
= standard

sang

in: **dan ei sang** (*of a room*) packed, full to the rafters:

roedd y lle dan ei sang = the place was packed

sa i etc
⇒ **bod**

sai, 'sai
⇒ **bod**

saib (*plural seibiau*) *noun, masculine*
= pause; break
⇒ **seibiant**

sail (*plural seiliau*) *noun, feminine*

• = base; basis; foundation
y nod yw defnyddio'r ymchwil fel sail ar °gyfer gwaith ysgol = the aim is to use the research as a basis for schoolwork

roedd y pamffledi'n chwalu parch at seiliau'r °Deyrnas = the pamphlets were destroying respect for the foundations of the Kingdom

• = grounds

roedd y °weithred wedi'i gohirio ar sail pryderon am °ddiogelwch = the action had been put off on the grounds of fears about safety

⇒ **seilio**

saim *noun, masculine*
= grease; fat

sain (*plural seiniau*) *noun, feminine*
= sound

seiniau'r iaith = the sounds of the language

⇒ **swn**

Sais (*plural Saeson*) *noun, masculine*
= Englishman

Sais o swydd Efrog °fydd ein Hysgrifennydd Gwladol newydd = our new Secretary of State will be an Englishman from Yorkshire

bydd y tîm °fydd yn herio'r Saeson wedi ei °gyhoeddi erbyn hyn = the team that will challenge the English will have been announced by now
tafarnwr o Sais = a (pub) landlord who is an Englishman
..., **fel mae'r Saeson yn ei °ddweud** = ..., as the English say

⇒ **Lloegr**

saith *numeral*
= seven

! *With 'years' and 'days', this numeral is generally followed by nasal*

mutation: so saith 'mlynedd is usual for 'seven years', though saith blynedd is not uncommon; similarly saith 'niwrnod 'seven days', with saith diwrnod often heard as well. Otherwise the radical is the norm, though soft mutation is also encountered sometimes, e.g. saith ceiniog or saith 'geiniog 'seven pence'.

⇒ **pum(p)**

sâl *adjective*

= ill

ers pryd dych chi'n teimlo'n sâl? = how long have you been feeling ill?

⇒ **gwael**

salwch *noun, masculine*

= illness

bydd y siop ar °gau heddiw oherwydd salwch = the shop will be closed today because of illness

⇒ **gwaeledd**

sant (*plural saint or seintiau*) *noun, masculine*

= saint

santes (*plural -au*) *noun, feminine*
= (female) saint

sarhad (*plural -au*) *noun, masculine*
= insult

wi'n credu bod hi'n sarhad i'n cenedl = I think it is an insult to our nation

sarhau *verb*

= insult

sarhaus *adjective*

= insulting

sathru *verb*

= trample, tread (+ *direct object* or **ar°** on)

ti wedi sathru arno! = you've trodden all over it!

oedd y lle wedi'i sathru = the place was (all) trampled

sawdl (*plural sodlau*) *noun, masculine or feminine*

= heel

ar ein sodlau ni maen nhw = they're (right) on our heels

sawl

1 *adverb*

• = how many?

! This word differs from ⇒ **faint?** in that it is followed directly by a singular noun.

sawl llyfr sy 'da ti fan 'na? = how many books have you got there?

sawlgwaith? = how many times?

(= **faint o °weithiau?**)

sawl un? = how many?:

sawlgwaith est ti yno? = how many times did you go there?

mae Susan wedi dod â rhagor o °gwpanau—sawl un? = Susan has

brought some more cups—how many?

• = a number of, several

mae'n °bwysig am sawl rheswm = it's important for a number of reasons

mae canlyniadau sawl prosiect

ymchwil yn dal heb eu cyhoeddi eto = the results of a number of research projects have yet to be published

! In this sense, **sawl** is the equivalent of ⇒ **nifer (o°)**, but again uses the singular noun without **o°**.

2 *pronoun*

! Occasionally **y sawl** (note definite article) is encountered in more elevated style for **yr un** 'the one (who)' or **pw y bynnag** 'whoever'.

y sawl sy'n credu... = whoever believes...

sbectol *noun, feminine*

= glasses, spectacles

bydda i'n gorfod gwisgo sbectol,

mae'n °debyg = I'll probably have to wear glasses

sbel

in: **am sbel** = for a little while, for a spell

sbio *verb* (*North*)

= look, look at (*particularly in command forms*)

sbiwch hwnnal = look at him!

sbia faint sy gynnon ni = look how many we've got

⇒ **edrych**

sbon

in: **newydd sbon** = brand new

agorir canolfan hamdden newydd

sbon yno yfory = a brand new leisure centre will be opened there tomorrow

sboncen *noun, feminine*

= squash

beth am ymuno â'ch clwb sboncen

lleol? = what about joining your local squash club?

sbort *noun, feminine*

= fun

o'n nhw'n gwneud sbort am ei 'ben o trwy'r bore = they were making fun of him all morning

°gawn ni sbort fan hyn! = we'll have fun here!

am sbort! = what fun!

sbwriel *noun, masculine*

= rubbish

ewch â'ch sbwriel adre os gwelwch yn

°dda = please take your rubbish home with you

⇒ **sothach**

sebon *noun, masculine*

= soap

sech, 'sech, sen, 'sen, set, 'set

⇒ **bod**

sedd (*plural -i, -au*) *noun, feminine*

= seat

mae digon o seddi i °bawb = there are plenty of seats for everyone

fe °fydd rhai o seddi Cymru'n gorfod newid eto ar ôl yr etholiad = some seats in Wales will have to change again after the election

sedd °ddiogel (*plural seddi/-au diogel*) = safe seat

sedd °flaen (*plural seddi/-au blaen*) = front seat

sedd °gefn (*plural seddi/-au cefn*) = back seat

sedd ymylol (*plural seddi/-au ymylol*) = marginal seat

sef *adverb*

= namely, that is to say

fe °fyddwn ni'n gwneud yr hyn gallwn ni, sef rhoi help lle bo angen = we will do what we can, namely give help where needed

... erbyn 6500 CC, sef °ddwy °fil o °flynnydoedd ynghynt = ... by 6500 BC, that is to say two thousand years earlier

sefydliad (*plural -au*) *noun, masculine*

= institution; institute

stori °gyfoes sydd yn edrych ar

°gymdeithas a'n sefydliadau

crefyddol = a contemporary story that looks at society and our religious institutions

Sefydliad y Merched = Women's Institute

sefydlog *adjective*

= stable; settled

sefydlogrwydd *noun, masculine*

= stability

sefydlu *verbnoun*

= establish, set up

fo oedd y Prif °Weinidog a sefydlodd y Swyddfa °Gymreig = he was the Prime Minister who established the Welsh Office

dim ond dau sy wedi sefydlu eu

busnesau eu hunain = only two (of them) have set up their own businesses

sefyll (*stem saf- or sef-*) *verbnoun*

= stand

sefwich fan hyn, newch chi? = stand here, will you?

roedd rhywun yn sefyll tu allan = someone was standing outside

mae ymgeisydd newydd yn sefyll dros y Rhyddfrydwyr = a new candidate is standing for the Liberals

seibiant (*plural seibiannau*) *noun, masculine*

= rest; respite; breather

yn y cyfamser mi °gawn ni seibiant

bach = in the meantime we'll have a little breather

seicoleg *noun, feminine*

= psychology

seicolegol *adjective*

= psychological

seicolegydd (*plural seicolegwyr*)

noun, masculine

= psychologist

seiliedig *adjective*

= based (ar° on)

nofel seiliedig ar ei °brofiadau yn

ystod yr Ail °Ryfel Byd = a novel based on his experiences during the Second World War

seilio *verbnoun*

= base (ar° on)

cyfres o °luniau wedi'u seilio ar chwedlau'r Celtiaid = a series of pictures based on the legends of the Celts

⇒ **sail**

seimllyd *adjective*
= greasy; fatty

seiniau *plural of*
⇒ **sain**

seiri *plural of*
⇒ **saer**

Seisnig *adjective*
= English (*pertaining to England*)

seithfed *adjective*
= seventh

! *Ordinal numerals are adjectives, but behave in a special way. All other than ⇒ cynta precede the noun. With feminine singular nouns, the noun itself undergoes soft mutation, as does the ordinal after the article—so: y seithfed dyn 'the seventh man' but y seithfed °ferch 'the seventh girl'*

selsigen (*plural selsig*) *noun, feminine*
= sausage

senedd (*plural -au*) *noun, feminine*
= parliament
byddai'r ymyrch dros Senedd i °Gymru'n parhau = the campaign for a Parliament for Wales would continue

serch hynny *adverb*
= however; all the same; nevertheless
serch hynny, fe °welwyd rhai fflachiadau o'r ffrwydradau mwyaf = all the same, some flashes from the biggest explosions were seen
⇒ **er hynny, ⇒ fodd bynnag**

seren (*plural sêr*) *noun, feminine*
= star (*also figurative*)
un o sêr disgleiria'r nefoedd yw Spica = Spica is one of the brightest stars in the heavens
seren °ddwbl (*plural sêr dwbl*) = binary star
seren °wib (*plural sêr gwib*) = shooting star
seren y gogledd = polestar
noson yng °nghwmni sêr y byd teledu Cymraeg = an evening in the company of the stars of Welsh television

seryddiaeth *noun, feminine*
= astronomy

seryddwr (*plural seryddwyr*) *noun, masculine*
= astronomer

serth *adjective*
= steep

set (*plural -iau*) *noun, feminine*
= set

ac mi °ellwch chi ennill set °gyfan o'i °lyfrau yn ein cystadleuaeth heno = and you can win a complete set of his books in our competition this evening

setlo *verb/noun*
= settle (down)
naeth hi erioed setlo yn yr ysgol = she never settled in school
bydd pethau wedi setlo ychydig erbyn 'ny, dw i'n siwr = I'm sure things will have settled down a bit by then

sgerbwd (*plural sgerbydau*) *noun, masculine*
= skeleton

sgï (*plural sgïau*) *noun, feminine*
= ski

sgidiau *plural noun*
= shoes
tynnwch eich sgidiau! = take your shoes off!
gwisga dy sgidiau! = put your shoes on

! *This is the normal spoken plural form of ⇒ esgid.*

sgil (*plural -iau*) *noun, masculine*
= skill

bydd cyfle hefyd i ymarfer eich sgiliau cyfathrebu = there will also be an opportunity to practise your communication skills

sgil
⇒ **yn sgil**

sgil-ffaith (*plural sgil-ffeithiau*) *noun, masculine*
= side-effect

beth am sgil-ffeithiau'r moddion newydd 'ma? = what about the side-effects of these new drugs?

sgïo *verb/noun*
= ski

mae atyniadau'r °ganolfan yn cynnwys pwll nofio a llethr sgïo = the

centre's attractions include a swimming pool and a ski slope

sgleinió *verb*noun

= polish, shine

mae esiau golchi'r ceir 'ma i gyd a'u

sgleinió wedyn = all these cars have got to be washed and then polished

sglodyn (*plural sglodion*) *noun*, masculine

= chip

faint ydy sglodion yn unig? = how much are chips on their own?

pysgod a sglodion = fish and chips

sglodyn silicon (*plural sglodion silicon*) *noun*, masculine

= silicon chip

sgôr (*plural sgoriau*) *noun*, feminine

= score

sgorio *verb*noun

= score

a dyma'r Ffrancwyr wedi sgorio eto! =

and the French have scored again!

sgrech (*plural -iadau*) *noun*, masculine

= shriek

sgrechian, sgrechu *verb*noun

= shriek

sgrifennu *verb*noun

= write

na i sgrifennu atyn nhw yfory = I'll

write to them tomorrow

! *This word, and its common variant* ⇒ **sgwennu**, *are the norm for 'write' in the spoken language, while the written and formal language prefers* ⇒ **ysgrifennu**. *Note that, as with verbs for 'send', 'write to...' is* **sgrifennu at°** *with people, and* **sgrifennu i°** *with places.*

sgrin (*plural sgriniau*) *noun*, feminine

= screen

sgrin °flaen (*plural sgriniau blaen*) *noun*, feminine

= windscreen

sgubo *verb*noun

= sweep

mi °fyddai'n hawdd sguo'r adroddiad

o'r neilltu = it would be easy to sweep the report to one side

sgwâr (*plural sgwariau*) *noun*, feminine

• = square

byddwn ni'n ymgynnull ar Sgwâr y

°Farchnad bore fory am naw = we will gather on Market Square tomorrow morning at nine

• (*as adjective*) = square

sgwennu *verb*noun

= write

pw y sgwennodd y llythyr 'ma? = who wrote this letter?

! *This word, and its common variant* ⇒ **sgrifennu**, *are the norm for 'write' in the spoken language, while the written and formal language prefers* ⇒ **ysgrifennu**. *Note that, as with verbs for 'send', 'write to...' is* **sgwennu at°** *with people, and* **sgwennu i°** *with places.*

'sgwn i *verb* (North)

= I wonder

'sgwn i be' °ddigwyddodd fan'ma? = I wonder what happened here?

'sgwn i ydyn nhw wedi cyrraedd? = I wonder if they've arrived?

ond ai dyna oedd ei °fwriad, 'sgwn i? = but is that what he meant to do, I wonder?

⇒ **gwybod**, ⇒ **tybed**

sgwrs (*plural sgyrsiau*) *noun*, feminine

= conversation; chat

gwrandewch unwaith eto ar y sgwrs, yna atebwch y cwestiynau = listen once again to the conversation, then answer the questions

°gawn ni sgwrs °fach ar ôl y °wers, iawn? = we'll have a little chat after the lesson, OK?

sgwrsio (*sometimes sgyrsio*) *verb*noun

= chat

si (*plural sion*) *noun*, masculine

= rumour; talk

mae 'na si bod nhw'n mynd i °gau'r ffatri = there is talk that they are going to close the factory

siaced (*plural -i*) *noun*, feminine

= jacket

sianel (*plural -i*) *noun*, feminine

= channel (*also TVradio*)

mi °fydd sianel °deledu newydd ar yr awyr erbyn mis Ebrill = a new television channel will be on the air by April

...o °blith y cannoedd o sianeli teledu sy ar °gael yn yr Unol °Daleithiau = ...from among the hundreds of television channels available in the United States

siâp (*plural siapiau*) *noun, masculine*
= shape

siapa hil/siapwch hil = get a move on!

siarad *verb/noun*

• = speak (â^h to; am° about)

dych chi'n siarad Cymraeg? = do you speak Welsh?

siaredir Cymraeg yma = Welsh spoken here

ydy e wedi siarad â hi am hyn oll, 'te?
= has he spoken to her about all this, then?

• = talk (â^h to; am° about)

siaradwch â'ch gilydd am °ddeng munud = talk to each other for ten minutes

maen nhw'n siarad lol, 'na i gyd = they're talking nonsense, that's all

mae gormod o siarad fan hyn = there's too much talk(ing) here

⇒ **dweud**, ⇒ **sôn**

siaradus *adjective*
= talkative

siaradwr (*plural siaradwyr*) *noun, masculine*
= speaker

siaradwraig (*plural siaradwraigedd*) *noun, feminine*
= speaker

siawns (*plural -iau*) *noun, feminine or masculine*
= chance

gyda siawns o un mewn 54 o ennill deg punt... = with a chance of one in 54 of winning ten pounds

⇒ **cyfle**

sibrwd (*stem sibryd-*) *verb/noun*
= whisper

sicr *adjective*
= sure, certain (o° to)

yn y pen draw mae'r gwirionedd yn sicr o °ddod i'r amlwg = eventually the truth is sure to come to light

yn sicr = certainly:

yn sicr mae newid o °ryw °fath ar y ffordd = certainly change of some sort is on the way

⇒ **siwr**

sicrhau *verb/noun*

• = assure

galla i'ch sicrhau y byddwn ni'n gwneud yr hyn gallwn ni = I can assure you that we will do what we can

• = ensure

rhaid inni sicrhau cyfrinachedd = we have to ensure confidentiality

• = secure

sicrwydd *noun, masculine*

= certainty

does dim sicrwydd pendant mai fan hyn y cafodd ei °eni = there is no (definite) certainty that he was born here

i sicrwydd = for certain, for sure:

go °brin y cawn ni °wybod i sicrwydd pwy oedden nhw = we can hardly know for certain who they were

siec (*plural -iau*) *noun, feminine*

= cheque

°ga i °dalw â siec? = can I pay by cheque?

sieciau'n °daladwy i °Ysgol °Gynradd Llaneglwys = cheques payable to Llaneglwys Primary School

siglen (*plural -ni*) *noun, feminine*

= swing (*in playground*)

siglo *verb/noun*

= shake; swing

silff (*plural -oedd*) *noun, feminine*

= shelf

sillaf (*plural -au*) *noun, feminine*

= syllable

sillafu *verb/noun*

= spell

sut mae sillafu hynny, 'te? = how is that spelt, then?

sinema (*plural sinemâu*) *noun, feminine*

= cinema

beth am inni °fynd i'r sinema heno? = what about us going to the cinema this evening?

sioc (*plural -iau*) *noun, masculine*

= shock

°ges i sioc = I got a shock, I was shocked

siocled (*plural -i*) *noun, masculine*
= chocolate

sioe (*plural -au*) *noun, feminine*
= show

dyma ni'n edrych ymlaen unwaith eto at y sioeau amaethyddol = here we are once more looking forward to the agricultural shows

siom (*plural -au*) *noun, feminine or masculine*
= disappointment

°ges i siom °fawr wrth °ddarllen y nofel 'ma = I was very disappointed when I read this novel

siomedig *adjective*

• = disappointed

dw i'n meddwl °fod y plant yn siomedig braidd = I think the children are a bit disappointed

• = disappointing

perfformiad siomedig iawn °welon ni ddoe = it was a very disappointing performance that we saw yesterday

siomi *verb/noun*

= disappoint

fe °ges i'n siomi = I was disappointed.

siop (*plural -au*) *noun, feminine*

= shop

mae siop °flodau newydd ei hagar yn y °dre = a flower shop has just been opened in the town

siopa *verb/noun*

= shop, do the shopping

siopleidr (*plural siopladron*) *noun, masculine*

= shoplifter

sir (*plural -oedd*) *noun, feminine*

= (Welsh) county

Cyngor Sir Gwynedd = Gwynedd County Council

mae rhai o'r hen siroedd yn dal efo ni = some of the old counties are still with us

! This word is used only for Welsh county names, while ⇨ **swydd** is used for counties elsewhere in the British Isles.

siswrn *noun, masculine*

= scissors

siwgwr, siwgr *noun, masculine*

= sugar

dach chi'n cymryd siwgwr? = do you take sugar?

siwmpwr (*plural -i*) *noun, feminine*
= jumper (clothing)

siwr *adjective*

= sure, certain

wyt ti'n siwr am hynny? = are you sure about that?

dw i'n siwr na °fydd neb yn erbyn y syniad fan hyn = I'm sure there won't be anyone against the idea here

! Generally this word is interchangeable with ⇨ **sicr**, except that 'certainly' is always **yn sicr**. Note also the set phrase **siwr o °fod: fe °fyddan nhw yma cyn hir, siwr o °fod** = they'll surely be here soon **naethon nhw °lwyddo?—siwr o °fod** = did they manage it?—I expect so

sleisen (*plural sleisys*) *noun, feminine*

= slice (o° of)

°gymera i °ddwy sleisen o'r bara 'na = I'll have two slices of that bread

⇨ **tafell**

smotyn (*plural smotiau*) *noun, masculine*

= spot

oedd ei hwyneb hi'n smotiau i gyd = her face was covered in spots

smo *etc*

⇨ **bod**

smwddio *verb/noun*

= iron, do the ironing

smygu *verb/noun*

= smoke

dw i °ddim yn smygu = I don't smoke

⇨ **ysmygu**, ⇨ **mwg**

snobyddiaeth *noun, feminine*

= snobbery

snobyddlyd *adjective*

= snobbish, snobby

so *etc*

⇨ **bod**

sobor, sobr *adjective*

• = sober; serious

mae °ngwaith i'n dibynnu ar °fod yn °barchus a sobor = my work depends on me being respectable and sober

- (as intensifier with **o**° + adjective) = awfully
mae'r te 'ma'n edrych yn sobor o °wan
= this tea looks awfully weak

sodlau plural of

⇒ **sawdl**

soffistigedig adjective

= sophisticated

sôn (stem **soni-**) verb/noun

- = talk (**am**° about)

mae 'na un peth bach na sonies i amdano ddoe = there's one little thing I didn't talk about yesterday
ac o sôn am °gychod, ... = and talking of boats, ...

mae'r sôn am symiau enfawr o arian yn gwrthod diflannu = the talk about huge sums of money refuses to go away

mae rhyw sôn am °ddatganiad nes ymlaen heddiw = there is talk of an announcement later today

⇒ **siarad**

- = mention

heb sôn am° = not to mention:
rhaidd ystyried y goblygiadau, heb sôn am y costau = we have to consider the implications, not to mention the costs
paid sôn! = get away (with you)!:
es i ar °goll ar y ffordd rhwng y coleg a'r °dafarn—paid sôn! = I got lost on the way between the college and the pub—get away!/you never!

sosban (plural **-au**) noun, feminine

= saucepan

soser (plural **-i**) noun, feminine

- = saucer

- = (satellite) dish

fe °fydd y cwmni wedi cyflymu'r °broses o °werthu soseri lloeren = the company will have speeded up the process of selling satellite dishes

socialaeth noun, feminine

= socialism

socialydd (plural **socialwyr**) noun,

masculine

= socialist

sothach noun, masculine

= nonsense; rubbish

pwys sgwennodd y sothach 'ma? = who wrote this rubbish?

⇒ **sbwriel**

sownd adjective

= (stuck) fast or tight

wi'n sownd! = I'm stuck!

staer noun, feminine

= stairs

mae hi lan staer (/lawr staer) ar y

°foment = she's upstairs (downstairs) at the moment

⇒ **grisiau**

stafell (plural **-oedd**) noun, feminine

= room

faint o stafelloedd sy ar y llawr 'ma? = how many rooms are there on this floor?

! This is the normal form in the spoken language, while written and formal language prefers ⇒ **ystafell**

stafell °fwyta (plural **stafelloedd**

bwyta) = dining room

stafell °fyw (plural **stafelloedd byw**) = living room

stafell molchi (plural **stafelloedd molchi**) = bathroom

stafell °wely (plural **stafelloedd gwely**) = bedroom

stamp (plural **-iau**) noun, masculine

= stamp

°ga i °ddau stamp dosbarth cynta ac un ail °ddosbarth? = can I have two first class stamps and one second class?

staplydd (plural **-ion**) noun, masculine

= stapler

'**sti** particle (North)

= you know

tydi hi °ddim yn rhy hwyr, 'sti = it's not too late, you know

! This is a very colloquial, but very common, contraction of **°wyddost ti?**, and is used in Northern areas as a parenthetical expression in the same way as its English counterpart. It cannot start a sentence, and instead nearly always appears in the form of a 'tag' at the end, or as a pause-filler. The **chi** equivalent is **°wyddoch chi?** which is not so routinely contracted. Southern areas use contractions of non-inflected forms instead.

⇒ **gwybod**, ⇒ **chimod**, ⇒ **timod**

stiwidio (plural **-s**) *noun, feminine*
= studio

stondin (plural **-au**) *noun, masculine*
= stall

stordy (plural **stordai**) *noun, masculine*
= warehouse

stori (plural **storiau** or **straeon**) *noun, feminine*
= story

bydd y stori °fer 'ma'n °gyfarwydd i chi i gyd = this short story will be familiar to you all

fyth ers i straeon am °lygredd °ddechrau ymddangos... = ever since stories about corruption started to appear...

storm (plural **-ydd**) *noun, feminine*
= storm

stormus *adjective*
= stormy

straeon
⇨ **stori**

streic (plural **-iau**) *noun, feminine*
= strike

mae'r nifer sy wedi pleidleisio dros streic yn isel iawn = the number who have voted for a strike is very low

stribed or **stribedyn** (plural **stribedi**) *noun, masculine*
= strip (of material, land, etc)

strwythur (plural **-au**) *noun, masculine*
= structure

mae eisiau meistroli strwythur yr iaith yn ogystal â'i geiriau = one must master the structure of the language as well as its words

stryd (plural **-oedd**) *noun, feminine*
= street

ewch i lawr y stryd °gynta ar y °dde 'ma = go down the first street on the right here

stumog (plural **-au**) *noun, feminine*
= stomach

mae stumog °dost 'da fi = I've got stomach ache

styfnig *adjective*
= stubborn

un styfnig iawn ydy hi, cofia = she's very stubborn, mind

sudd (plural **-ion**) *noun, masculine*
= juice

p'un leiciet ti, sudd afal neu sudd oren? = which would you like, apple juice or orange juice?

suddo *verb/noun*
= sink

mae 'na ofnau °fod y llong °danfor wedi suddo = there are fears that the submarine has sunk

... cyn i'r llong °ryfel 'ma °gael ei suddo ym 1942 = ... before this battleship was sunk in 1942

sugno *verb/noun*
= suck

sugnwr llwch *noun, masculine*
= vacuum cleaner

Sul

in: dydd Sul
= Sunday

! Note that this word has a wider meaning in the expressions **dros y Sul** 'over the weekend' and **bwrw'r Sul** 'spend the weekend':

°welwn ni chi dros y Sul °rywbryd = we'll see you sometime over the weekend

lle dych chi'n bwriadu bwrw'r Sul, 'te? = where are you planning to spend the weekend, then?

⇨ **Llun**

sustem

⇨ **system**

sut?

! This word is pronounced **shwd** or **shwt** in Southern areas

1 *adverb*
= how

sut mae'r teulu? = how is the family?

sut oedd y °daith? = how was the journey?

sut aeth hi yn y diwedd, 'te? = how did it go in the end, then?

does neb yn gwybod sut bydd yr °olygfa 'ma'n edrych yfory = nobody knows what this scene will look like tomorrow

sut dach chi'n deud hynny yn

°Gymraeg? = how do you say that in Welsh?

sut felly? or **sut hynny?** = how come?:

°fyddan nhw °ddim yn gorfod talu

wedi'r cyfan—**sut hynny?** = they

won't have to pay after all—how come?

⇒ **pa mor**°

2 (sut°) *adjective*

= what kind of...?

sut °dre, felly, yw Llaneglwys? = what kind of town, then, is Llaneglwys?

sut °dywydd °gaethoch chi yno? =

what kind of weather did you have there?

! This adjectival use is a colloquial alternative for **pa °fath o°**

sŵ (*plural -au*) *noun, masculine or feminine*

= zoo

swil *adjective*

= shy

'**sdim eisiau bod yn swil** = there's no need to be shy

swildod *noun, masculine*

= shyness

swilit (*plural sylltau*) *noun, masculine*

= shilling

swmpus *adjective*

= bulky, hefty

fel y gwelwch chi, mae'r adroddiad yn

un digon swmpus = as you (can) see,

the report is quite a hefty one

swn, 'swn

⇒ **bod**

sŵn *noun, masculine*

= noise; sound

pw y sy'n gwneud yr holl sŵn 'na? =

who's making all that noise?

°**glywest ti'r sŵn 'na gynnu?** = did

you hear that sound/noise just then?

cadw sŵn = make a noise or racket

o'n nhw'n cadw sŵn trwy'r nos, wi'n

gwneud 'that ti = I'm telling you, they

were making a noise all night

swnlyd *adjective*

= noisy

y bai yw °fod y peiriant ei hunan yn

swnlyd braidd = the trouble is that

the engine itself is rather noisy

swper *noun, masculine or feminine*

= supper; evening meal

beth am °gael swper nawr, a gorffen

hyn wedyn? = why don't (we) have

supper now, and finish this later?

⇒ **cinio**

sws (*plural -us*) *noun, feminine or masculine*

= kiss

ty'd â sws i mi = give me a kiss

hwyl a sws = goodbye and a kiss

(*affectionate ending to letter*)

⇒ **cusan**

swydd (*plural -i*) *noun, feminine*

• = job

mae disgwyl y bydd eu penderfyniad

yn dod â °channoedd o swyddi i'r

ardal = their decision is expected to

bring hundreds of jobs into the area

o'n i'n gobeithio cael swydd °barhaol

yn hytrach nag un dros °dro = I was

hoping to get a permanent job rather

than a temporary one

• = (*English, Scottish or Irish*) county

yn Swydd Stafford mae hi'n byw

bellach = she lives in Staffordshire

now

⇒ **sir**

swyddfa (*plural swyddfeydd*) *noun, feminine*

= office

cysylltwch â'n swyddfa am °ragor o

°fanylion = contact our office for more

details

llfarydd ar °ran y Swyddfa °Gymreig

= a spokesman for the Welsh Office

swyddog (*plural -ion*) *noun, masculine*

= officer, official

mae'n amlwg °fod swyddogion y

cyngor wedi camddeail y sefyllfa =

council officials have clearly

misunderstood the situation

swyddogol *adjective*

= official

mae'r cwmni bellach yn °nwylo'r

Derbynnydd Swyddogol = the

company is now in the hands of the

Official Receiver

swyn (*plural -ion*) *noun, masculine*

= charm, spell

swyno *verb/noun*

= charm, enchant

swynol *adjective*

= charming, enchanting

sy (or **sydd**) *verb*

! This word is part of the verb **bod** 'to be'—it is present tense third person singular/plural, and so corresponds to **mae**, with the basic meaning 'is/are'. It coexists with **mae**, and is used in place of it in three circumstances.

- = who/which is/are (*relative use*)
y dyn sy'n siarad = the man who is speaking
gofynnwch i'r dyn sy tu allan = ask the man who is outside
mae 'na °rai sy wedi colli popeth = there are some who have lost everything
llyfr sy'n esbonio'r prif egwyddorion = a book which explains the main principles
mae eisiau rhywun sy °ddim yn nabod yr ardal = we need someone who doesn't know the area
- = is/are

! **sy** is used instead of **mae** when the subject of the sentence has been placed at the start of the sentence. Compare the following neutral and focused sentences:

mae Angharad yn darllen y newyddion heno (*neutral—nothing emphasised*) = Angharad is reading the news tonight

Angharad sy'n darllen y newyddion heno = Angharad is reading the news tonight (*i.e. not Bethan*)

Further examples:

ti sy ar °fail = (it is) you (who) are to blame!

y plant sy'n diodde = (it's) the children (that) suffer

dim ond dau sy ar ôl = there are only two left (*literally: '(it is) only two (that) are left'*)

dyn enwog iawn sy gyda ni heno = we have a very famous man with us tonight (*literally: '(it is) a very famous man (that) is with us tonight'*)

- = is/are (*after question-words representing the subject of the sentence*)

! **sy** is used in place of **mae** after question words which are themselves

the subject—this means that ⇒ **pwyl?**, ⇒ **beth?**, ⇒ **faint?**, **pa un?/p'un?** and **pa °rai** (which can all refer to persons or things) are followed by **sy** in the present tense (and perfect, which uses present tense + ⇒ **wedi**) when they are the subject:

pwyl sy'n dod heno? = who is coming this evening?

Contrast this with

pwyl ydy honna? = who is that woman (*identification sentence*)

pwyl mae Elwyn yn helpu? = who(m) is Elwyn helping? (**pwyl** represents object, not subject).

Other question words such as ⇒ **lle?** where?, ⇒ **pryd?** when? and ⇒ **sut?** how?, cannot refer to people or things, and so cannot be the subject—they are always followed by **mae** (or **maen** with **nhw**) in the present.

sych *adjective*

comparative **sychach**, superlative **sychaf**(f)

= dry

mi °fydd hi'n parhau'n sych ac yn heulog yfory = it will continue dry and sunny tomorrow

mae eisiau rhywle sych iawn = we need somewhere very dry

sychdafwr *noun, masculine*

= tumble-drier

syched *noun, masculine*

= thirst

! This term indicating a temporary physical condition is used with ⇒ **ar°** when a person is stated:

mae syched arna i = I'm thirsty
oedd syched arny'n nhw? = were they thirsty?

gobeithio na °fydd gormod o syched ar y plant = I hope the children won't be too thirsty

sychu *verb/noun*

= dry

sychydd gwallt *noun, masculine*

= hairdryer

sydyn *adjective*

• = sudden

yna, yn sydyn iawn, dyma fe'n codi ar ei °draed = but, very suddenly, he got to his feet

• (North) = quick

maen nhw'n mynd yn sydyn = they go quickly

⇒ **cyflym**

sydd

⇒ **sy**

syfrdanu *verb-noun*

= astound, amaze

mi °ges i 'n syfrdanu gan y ffilm 'ma = I was astounded by this film

syfaen (*plural sylfeini*) *noun, feminine*

• = base

• = foundation

• (*in plural*) = the basics, basic principles

sylfeini'r °Gymraeg = the basics of Welsh

⇒ **bôn**

syfaenol *adjective*

= basic, fundamental

byddan nhw wedi dysgu'r °eirfa

syfaenol erbyn diwedd y °flwyddyn = they will have learnt the basic vocabulary by the end of the year

syfaenydd (*plural sylfaenywyr*) *noun,*

masculine

= founder

sylfeini *plural of*

⇒ **syfaen**

syllw *noun, masculine*

= attention

rhoddir syllw manwl i °gymwysterau

pob ymgeisydd = close attention will be given to every applicant's qualifications

sylwebaeth (*plural -au*) *noun,*

feminine

= commentary

sylweddol *adjective*

= appreciable, substantial

mae prisiau tai wedi codi'n sylweddol yn °ddiweddar = house prices have risen appreciably or substantially of late

sylweddoli *verb-noun*

= realize

o'n i heb sylweddoli hynny, a dweud y gwir = I hadn't realized that, actually

syllwi *verb-noun*

= notice (**ar°** with object)

o'n i heb sylwi, a dweud y gwir = I

hadn't noticed, actually

roedd aelodau wedi dechrau sylwi ar

°gysondeb yr adroddiadau

beirniadol = members had begun to notice the consistency of the critical reports

syllu *verb-noun*

= stare, gaze (**ar°** at)

paid syllu arna i felly! = stop staring at me like that!

symbylu *verb-noun*

= stimulate, spur

syml *adjective*

comparative **symlach**, *superlative*

symla(f)

= simple

na i °drio gwneud pethau mor syml ag

y galla i = I'll try and make things as simple as I can

mae'n symlach nag o'n i'n °feddwl = it's simpler than I thought

symledd *noun, masculine*

= simplicity

symleiddio *verb-noun*

= simplify

symud *verb-noun*

= move

pryd symudoch chi i °Gymru? = when did you move to Wales?

°elli di symud y °gadair 'ma draw

fan'na i mi? = can you move this chair over there for me?

°welwch chi'r peth bach 'na'n symud

ar °draws y sgrin? = do you see that little thing moving across the screen?

symudiad (*plural -au*) *noun,*

masculine

= move, movement

⇒ **mudiad**

symudol *adjective*

= mobile, movable

syndod (*plural -au*) *noun, masculine*

= surprise

oedd hi'n syndod i mi faint oedd e'n

yfed = it was a surprise to me how much he was drinking

⇒ **synnu**

synhwyro *verb**noun*

= sense

⇒ **synnwyr****synhwyrol** *adjective*

= sensible

syniad (*plural -au*) *noun, masculine*

= idea

does gynna i °ddim syniad lle gallen**nhw °fod** = I've no idea where they could be**syniad dal** = good idea!**'s gynna i °ddim syniad, mae ofn arna****i** = I've no idea, I'm afraid**synnu** *verb**noun*

= be surprised; wonder

ti'n meddwl dôn nhw'n hwyr?—**synnw i °ddim** = do you think they'll come late?—I shouldn't wonder**mi °fasech chi'n synnu mor °debyg****ydy °ngwaith i a'ch gwaith chi** = you'd be surprised how similar my work and your work are**o'n i'n synnu gweld nhw** = I was

surprised to see them

⇒ **syndod****synnwyr** (*plural synhwyr*) *noun,**masculine*

• = sense

y pum synnwyr = the five senses

• = reason

mae hyn yn mynd y tu hwnt i °bob**synnwyr** = this goes beyond all reason**synnwyr cyffredin** = common sense**syrffedu** (**ar°**) *verb**noun*= have enough (**ar°** of), be tired (**ar°** of)**dw i wedi syrffedu arni** = I've had enough of it**syrthio** *verb**noun*

= fall

paid ti â syrthio! = don't you fall!**mi syrthiodd oddiar ei °feic** = he fell off his bike⇒ **cwympo****system, sustem** (*plural -au*) *noun,**masculine*

= system

syth *adjective*

= straight

dyw'r llinell 'ma °ddim yn syth = this

line isn't straight

ewch yn syth ymlaen lawr fan hyn = go straight on down here**fe °redodd e'n syth drwy'r °gegin** = he ran straight through the kitchen**yn syth** = straight away, directly:**bydd rhaid i'r comisiwn ailedrych ar****°rai o'r etholaethau'n syth** = the commission will have to look again at some of the constituencies straight away**fe aeth yn °blismon yn syth o'r ysgol** =

he became a policeman straight from school

Tt

ta *conjunction (North)*
= or

! This word is used in Northern areas where choice between two things is involved

heddiw ta fory dach chi am °fynd? = do you want to go today or tomorrow?

⇒ **neu°**

'ta *particle (North)*
= then

rwan 'ta, beth sy gynnon ni? = now, then, what have we got?

iawn 'ta - fwrdd â nil = OK then - off we go!

⇒ **'te**

ta beth

1 *pronoun*
= whatever

mae eisiau meddwl am °gyfiawnder, ta beth yw hwnna = we need to think about justice, whatever that is

2 *adverb*

= anyway

does neb yn cytuno â chi, ta beth = nobody agrees with you anyway

tabled (*plural -i*) *noun, feminine*
= tablet

taclus *adjective*

= tidy

bydd eisiau cadw'r pethau 'ma'n

°daclus, on' bydd? = these things will have to be kept tidy, won't they?

tacluso *verb-noun*

= tidy (up)

tacluswch eich stafelloedd, newch chi? = tidy up your rooms, will you?

Tachwedd *noun, masculine*

= November

⇒ **lonawr**

tad (*plural -au*) *noun, masculine*

= father

roedd °nhad yn nabod nhw

°flynyddoedd yn ôl = my father knew them years ago

mae hi'n byw gyda'i h'had = she lives with her father

Hen °Wlad fy °Nhadau = (Old) Land of my Fathers

tad-cu (*plural tad-cuod*) *noun, masculine (South)*

= grandfather

⇒ **taid**

taenu *verb-noun*

• = spread (out)

gad inni °daenu nhw ar y gwely = let's spread them out on the bed

• = scatter

⇒ **lledaenu**

taer *adjective*

• = earnest; urgent

..., **waeth pa mor °daer yw'r angen** =

..., however urgent (is) the need

• = eager

taer yw'r gwir am y golau (*proverb*) =

the truth will out (*literally*: the truth is eager for the light)

tafarn (*plural -au, tafarndai*) *noun, feminine or masculine*

= pub

pwysy am °fynd i'r °dafarn heno? =

who wants to go to the pub this evening?

tafarnwr (*plural tafarnwyr*) *noun, masculine*

= pub landlord

tafell (*plural -i, -au, tefyll*) *noun, feminine*

= slice (o° of)

°gymera i °dafel o'r un yna, os

gwelwch yn °dda = I'll have a slice of that one, please

⇒ **sleisen**

taflegryn (*plural taflegrau*) *noun, masculine*

= missile

taflen (*plural -ni*) *noun, feminine*

= leaflet; sheet

cymerwch °daflen yn y siop = take a leaflet in the shop

cysylltwch â'r swyddfa am °daflen

°wybodaeth °gyflawn = contact the office for a full information sheet

taflu, taflyd (*stem tafli-*) *verb-noun*

• = throw

mae eisiau i °rywun stopio nhw rhag

taflu cerrig fel 'ny = someone should stop them throwing stones like that

°gafodd e ei °daflu allan bron yn syth = he was thrown out almost at once
 • = throw away
bydd rhaid taflu nhw = they'll have to be thrown away

taflunydd (*plural -ion*) *noun, masculine*
 = projector

taflyd
 ⇨ **taflu**

tafod (*plural -au*) *noun, masculine*
 = tongue
dangos dy °dafod, nei di? = show (me) your tongue, will you?
pryd o °dafod = a telling-off:
°fyddi di'n cael pryd o °dafod = you'll get a telling-off

tafodiaith (*plural tafodieithoedd*)
noun, feminine
 = dialect
mae lle canolog i'n tafodieithoedd yn ein bywydau beunyddiol = our dialects have a central place in our everyday lives

tafodieithol *adjective*
 = dialectal

tagfa *noun, feminine*
 = strangulation; asphyxia

tagfa °geir (*plural tagfeydd ceir*)
noun, feminine
 = traffic jam

tagu *verbnoun*
 = strangle, choke

tai *plural of*
 ⇨ **tŷ**

taid (*plural teidiau*) *noun, masculine*
 (North)
 = grandfather
 ⇨ **tad-cu**

tair
 ⇨ **tri**

taith (*plural teithiau*) *noun, feminine*
 = journey; trip
sut oedd y °daith? = how was the journey?
teithiau o amgylch Bae Ceredigion = trips around Cardigan Bay

⇨ **teithio**

tal *adjective*
comparative talach, superlative tala(f)
 = tall

mae hi'n °dalach na fi = she's taller than me
pwyl ydy'r tala fan hyn? = who is the tallest here?

⇨ **taldra**

tâl (*plural talau*) *noun, masculine*
 = payment; charge; fee
dim tâl ychwanegol = no extra charge
mae'ch tâl aelodaeth yn °ddyledus = your membership fee is due

taladwy *adjective*
 = payable
sieciau'n °daladwy i °Gyngor y Sir = cheques payable to the County Council

talai (*plural taleion*) *noun, masculine*
 = payee

talaith (*plural taleithiau*) *noun, feminine*
 = state; province
pythefnos i °ddau yn °nhalaith Arizona = a fortnight for two in the state of Arizona

talcen (*plural -nau, -ni*) *noun, masculine*
 = forehead

taldra *noun, masculine*
 = tallness; height
 ... **o °daldra** = ... in height:
gall yr anifeiliaid 'ma °gyrraedd deg troedfedd o °daldra = these animals can reach ten feet in height

talent (*plural -au*) *noun, feminine*
 = talent

talentog *adjective*
 = talented

talfyriad (*plural -au*) *noun, masculine*
 • = abbreviation
 • = abridgement

talfyrru *verbnoun*
 • = abbreviate
 • = abridge

taliad (*plural -au*) *noun, masculine*
 = payment

talu *verbnoun*
 = pay
talwch yma = pay here
telir eich cyflog yn °fisol = your salary will be paid monthly

ydych chi wedi talu ac arddangos? = have you paid and displayed?

dw i heb °gael °nhalu = I haven't been paid

mi °dala i iddo fo'r hyn sy arna i iddo = I'll pay him what I owe him

faint °dalest ti am y rhain? = how much did you pay for these?

bydd hi'n talu i chi °fynd yno = it'll pay you to go there

talwr (plural **talwyr**) *noun, masculine*
= payer

tamaid (plural **tameidiau**) *noun, masculine*

= piece; bit

mae tamaid o °gaws ar ôl yn yr oegell
= there's a piece of cheese left in the fridge

°gest ti dy siomi?—tamaid bach = were you disappointed?—a little bit

⇒ **darn**, ⇒ **tipyn**

tan° *preposition*
= until, till

! *This preposition is used primarily with time-words, while the conjunction 'until (...something happens)' is ⇒ nes (conjunction). Compare:*

na i aros yma tan wyth = I'll wait here until eight

but: **na i aros yma nes iddyn nhw °alw** (or ... **nes bod nhw'n galw**) = I'll wait here until they call

°fyddwn ni °ddim yn gweld nhw tan Nadolig = we won't see them till Christmas

but: **°fyddwn ni °ddim yn gweld nhw nes i'r tywydd °wella** (or ... **nes bod y tywydd yn gwella**) = we won't see them until the weather gets better

But sometimes, especially in the spoken language, tan is used as a conjunction, where ⇒ nes (conjunction) would be expected in the standard language:

nes i °ddim addysgu 'n hun go iawn tan i mi symud i °Loegr = I didn't educate myself properly till I moved to England

Note that in the literary language tan° means 'under', which in the living language is ⇒ dan° or ⇒ o dan.

⇒ **hyd** *conjunction*, ⇒ **nes** *conjunction*

tân (plural **tanau**) *noun, masculine*
= fire

ydy rhywun yn mynd i °gynnu tân? = is someone going to light a fire?

roedd yr adeiladau i gyd ar °dân erbyn i'r °frigad °dân °gyrraedd = all the buildings were on fire by the time the fire brigade arrived

⇒ **ar °dân**, ⇒ **tanio**

tanbaid *adjective*
= fervent; burning

tanddaear, tanddaearol

adjective

= underground

rheilffordd °danddaear = underground railway

tanfor(ol) *adjective*

= undersea, submarine

llong °danfor = submarine

tanio *verb noun*

• = set fire to, set alight

gad inni °danio'r holl °bapurau 'ma nawr, 'te = let's set fire to all these papers now, then

• = fire (*projectile*)

mae milwyr wedi tanio ar °brotestwyr = soldiers have fired on protesters

⇒ **tân**, ⇒ **saethu**

tanlinellu *verb noun*

= underline (*also figurative*)

tanlinellwch y gwallau i gyd = underline all the mistakes

dydy'r ffaith 'ma'n °ddim ond

tanlinellu'r °broblem go iawn = this fact only underlines the real problem

⇒ **llinell**

tanwydd (plural **-au**) *noun, masculine*
= fuel

tanysgrifiad (plural **-au**) *noun, masculine*

= subscription

tanysgrifio *verb noun*

= subscribe, take out a subscription (i° to)

neu beth am °danysgrifio? = or what about subscribing?

naethon ni °danysgrifio i'r cylchgrawn 'ma llynedd, on'do? = we took out a subscription to this magazine last year, didn't we?

tâp (plural **tapiau**) *noun, masculine*
= tape

tâp fideo (plural **tapiau fideo**) *noun, masculine*
= video tape

taran (plural **-au**) *noun, feminine*

• = thunder

• = clap of thunder

°glywest ti'r °daran 'na? = did you hear that thunder?

taranu *verb-noun*

= thunder

tarddiad (plural **-au**) *noun, masculine*

= derivation; source

tarddu *verb-noun*

= derive (o° from), come from

mae'n °debyg °fod y gair yn tarddu o'r Ffrangeg = the word probably derives from French

o°ba °wlad mae'r bwydydd 'ma'n tarddu? = what country do these foods come from?

tarian (plural **-au**) *noun, feminine*

= shield

taro (stem also **traw-**) *verb-noun*

= hit; strike

°gafodd ei °daro gan °gar = he was hit by a car

mi °ges i °nharo gan ei brwdfrydedd = I was struck by her enthusiasm

...pan °drawodd darnau o'r °gomed y °blaned lau eleni = ...when pieces of the comet hit the planet Jupiter this year

! This word has a broader range than the more literal **⇒bwrw** and **⇒curo**, being used also for most figurative or transferred senses of 'strike'—for example **taro bargaen** strike a bargain, **taro ar olew** strike oil, **taro'r awr** strike the hour etc.

tarw (plural **teirw**) *noun, masculine*

= bull

tasg (plural **-au**) *noun, feminine*

= task

mae'n °bryd inni wynebu'r °dasg sydd

o'n blaen ni = it's time for us to face the task which is before us

tatws *plural noun*

= potatoes

= potato

! A single potato is usually **taten** *noun, feminine*

tatws pob = baked potatoes

taw *conjunction (South)*

= that (in reported speech - focused clauses)

! For a detailed discussion of focused reported speech, see **Grammar reference** section.

o'n i'n meddwl taw fe °wedodd 'ny = I

thought that it was he who said that

°glywes i taw heno maen nhw'n dod =

I heard that it was tonight that they were coming

mae'n amlwg taw nhw sy'n °gyfrifol =

it's obvious that they are responsible

efallai taw Sioned oedd yn iawn wedi'r

cwbwl = perhaps it was Sioned who was right after all

⇒y *conjunction*, ⇒mai, ⇒na *conjunction*

ta waeth *adverb*

= never mind

°fydd hi byth yn cynnig panaid i mi -

ond ta waeth am hynny = she never offers me a cup of tea - but never mind about that

tawel *adjective*

comparative **tawelach**, superlative

tawela(f)

= quiet; peaceful

byddwch yn °dawel! = be quiet!

oedd hi'n °dawelach nag arfer yn y

sioep heddiw = it was quieter than usual in the shop today

llecyn tawel ar °lan yr afon = a

quiet/peaceful spot by the river

tawelwch *noun, masculine*

= quiet; quietness; silence

tawelu *verb-noun*

= go quiet; quieten down

mae'r adar wedi tawelu = the birds

have gone quiet

te *noun, masculine*

= tea

hoffech chi °banaid o °de? = would

you like a cup of tea?

'te *particle*

= then

nawr 'te—be' nawn ni? = now then—what shall we do?

beth ti'n moyn °wneud, 'te? = what do you want to do, then?

reit 'te—bant â nil = right then—off we go!

⇒ 'ta

tebyg

1 *adjective*

• = likely

mae'n °bur °debyg mai Jones °fydd yn derbyn y swydd = it's very likely that Jones will get the job

! *The expression mae'n °debyg, with a following 'that...' clause, corresponds to 'probably' or, sometimes 'must' in the 'supposition' sense (⇒rhaid):*

mae'n °debyg bod ni'n rhy hwyr = we are probably too late

mae'n °debyg °fod rhywbeth o'i °le = something must be wrong

mae'n °debyg mai breuddwydio o'n i = I must have been dreaming

• = like; similar (i° to)

mae honna'n °debyg iawn i'r un

°weles i = that one is very like the one I saw

2 *noun, masculine*

• = likelihood

mi °fydd hi yma yfory, yn ôl pob tebyg

= she'll be here tomorrow, in all likelihood

• = like

lliwiau na °welsoch chi mo'u tebyg

eriod o'r blaen = colours the like of which you have not ever seen before

tebygol *adjective*

= likely (o° to)

mae'r diffyg tebygol o £4 biliwn felly'n

°gwbl °groes i'r disgwyl = the likely deficit of £4 billion is therefore completely against expectations

tebygolrwydd *noun, masculine*

= likelihood; probability

tebygrwydd *noun, masculine*

= similarity; likeness

teg *adjective*

comparative tecach, superlative teca(f)

= fair

teg yw gofyn a oes pwynt inni °fynd â

hyn ymhellach = it is fair to ask whether there is any point in our taking this any further

! *Note the common expression*

chwarae teg fair play—used in a concessive or admmissive sense:

maen nhw wedi gwneud yn °dda

iawn, chwarae teg iddyn nhw = they've done very well, fair play to them

yn ara(f) °deg = slowly

tegell (*plural -au*) *noun, masculine*

= kettle

mae'r tegell yn berwi = the kettle's boiling

wyt ti wedi rhoi'r tegell i °ferwi? = have you put the kettle on?

teilwng *adjective*

= worthy; deserving (*adjudication in eisteddfod competitions*)

neb yn °deilwng nobody deserving (*the prize*)

teimlad (*plural -au*) *noun, masculine*

= feeling

teimlo *verbnoun*

= feel

dw i'n teimlo'n °flinedig = I feel tired

sut mae'n teimlo? = how does it feel?

mi °fedra i °deimlo fo °rywle fan hyn = I can feel it somewhere here

mae'r gweithlu bellach yn teimlo nad

yw eu swyddi'n °ddiogel = the workforce now feel that their jobs are not safe

⇒ **cydymdeimlo**

teipiadur (*plural -on*) *noun, masculine*

= typewriter

teipio *verbnoun*

= type

teipydd (*plural -ion*) *noun, masculine*

= typist

teipyddes (*plural -au*) *noun, feminine*

= typist

teirw *plural of*

⇒ **tarw**

teisen (*plural -nau*) *noun, feminine*

= cake

⇒ **cacen**

teitl (*plural -au*) *noun, masculine*

= title

beth ydy teitl y llyfr? = what is the title of the book?

teithiau *plural of*

⇒taith

teithio *verb noun*

= travel; make a trip

ei °brif °ddiddordebau ydy teithio a**darllen** = his main interests are travelling and reading

⇒taith

telediad (*plural -au*) *noun, masculine*

= (TV) transmission

teledu *noun, masculine*

= television, TV

beth sy ar y teledu heno? = what's on television this evening?**dw i eisiau gwyllo'r teledu** = I want to watch TV**nei di °ddiffodd y teledu?** = will you switch off the television?**teledu lloeren** = satellite TV**telyn** (*plural -au*) *noun, feminine*

= harp

telynor (*plural -ion*) *noun, masculine*

= harpist

telynores (*plural -au*) *noun, feminine*

= harpist

tenau *adjective**comparative teneuach, superlative***teneua(f)** (or with **mwya, mwya**)

= thin

ti'n edrych yn °denau ofnadwy! = you look awfully thin!**gofala °fod ti °ddim yn torri nhw'n rhy °denau** = watch you don't cut them too thin**terfyn** (*plural -au*) *noun, masculine*

= end

rhoi terfyn ar° rywbeth = to put an end to something**terfynol** *adjective*

= final

rownd °derfynol Cwpan y Byd = the final round of the World Cup**terfysgaeth** *noun, feminine*

= terrorism

terfysgwr (*plural terfysgwyr*) *noun,**masculine*

= terrorist

term (*plural -au*) *noun, masculine*

= term

yn °nhermau pêl-droed o leiaf, trasiedi yw hi = in terms of football at least, it is a tragedy

⇒tymor

testun (*plural -au*) *noun, masculine*

• = text

byddwn ni'n edrych yn °fanwl ar y testun = we will be taking a detailed look at the text

• = subject

beth ydy testun y °ddarlith? = what is the subject of the lecture?

⇒pwnc

teulu (*plural -oedd*) *noun, masculine*

= family

sut mae'r teulu dyddiau 'ma? = how's the family these days?**dych chi wedi cwrrd â °nheulu?** = have you met my family?**teuluol** *adjective*

= family, familial

tew *adjective**comparative tewach, superlative***tewa(f)**

• = fat

mae'r un yma'n °dewach na'r lleill = this one is fatter than the others• = thick (*especially of liquids, etc*)**peidiwch gwneud y cymysgedd yn****rhy °dew** = don't make the mixture too thick**teyrnas** (*plural -oedd*) *noun, feminine*

= kingdom

y °Deyrnas Unedig = the United Kingdom**teyrnasu** *verb noun*

= reign

th-

look up th- after all the t's

ti *pronoun*= you (*familiar singular*)**°welest ti nhw?** = did you see them?**°weles i ti** = I saw you**beth sy'n bod arnat ti?** = what's the matter with you?**oes car °da ti?** = have you got a car?**ti sy'n °gyfrifol am hyn** = (it is) you (who) are responsible for this**ti oedd yn iawn** = you were right

! This pronoun is used with single individuals on familiar terms with the

speaker. In practice this means:
 a close friend; a close member of
 the family; a child; an animal; a god
 In all other instances, including all
 cases where more than one individual
 is addressed, ⇒**chi** and related
 words must be used.

There is a variant form **di**, which is
 used instead of **ti** in the following
 circumstances:

a) in the inflected future

pam na °ddoi di hefo ni? = why don't
 you come with us?

°gymeri di °ragor? = will you take
 some more?

b) generally as the 'echoing'
 pronoun with the possessive
 adjective **dy°**

beth yw dy °gyfeiriad di? = what is
 your address?

mae dy °lyfrau di ar y bwrdd = your
 books are on the table

c) generally as a reinforcing pronoun
 after a singular imperative

aros di fan hyn tra bo' fi'n ffonio =
 you wait here while I phone
 but not after **paid**:

paid ti â dweud pethau felly! = don't
 you say such things!

⇒**chi**, ⇒**tithau**, ⇒**chdi**.

ticed (plural -i) noun, masculine
 = ticket

⇒**tocyn**

tim (plural **timau**) noun, masculine
 = team

timod contraction of **wyt ti'n gwybod**
 = you know, y'know

⇒**gwybod**, ⇒**chimod**

tin (plural -au) noun, feminine
 = arse; backside

tipyn noun, masculine

= a bit; a little bit

dych chi'n siarad Cymraeg?—tipyn
(bach) = do you speak Welsh?—a (little)
 bit

mae'n teimlo °dipyn yn °well heddiw =
 he's feeling a bit better today

mae tipyn ar ôl = there's a bit left

mae cryn °dipyn o °drafod wedi bod
yn °barod = there has already been
 quite a bit of discussion

bydd yn rhaid mynd °dipyn yn uwch =
 (you) will have to go a bit higher

hoffwn i °fod wedi gweld tipyn mwy o
°bwylsais ar ei °flynyddoedd cynnar
 = I would have liked to see a little more
 emphasis on his early years

tir (plural -oedd) noun, masculine
 = land

mae'r tir yn rhy isel fan'ma, °welwch
chi = the land is too low here, you see
oedd y rhan °fwya'n gweithio ar y tir =
 most were working on the land

tirlun (plural -iau) noun, masculine
 = landscape

mi °all y tirlun yma edrych yn °drist
braidd ar °brydiau = this landscape
 can look rather sad at times

tisian verbnoun
 = sneeze

tithau pronoun
 = you (familiar singular)

! This is one of the special set of
 expanded pronouns that are used—
 though not that frequently—to convey
 emphasis or some idea of contrast
 with, or echoing of, what has gone
 before. A variant **dithau** is used
 where **di** would replace ⇒**ti**.

Nadolig Llawn i ti!—a tithau! = a
 Happy Christmas to you!—and (to) you
 too!

iawn—mi °gei dithau ffonio nhw! =
 OK—you can phone them!

⇒**ti**

tiwtor (plural -iaid) noun, masculine
 = tutor

tiwtora verbnoun
 = act/work as a tutor

tlawd adjective
 comparative **tlotach**, superlative
tlota(f), plural **tlodion**

= poor

oedd pobol yn °dlotach o °lawer °bryd
hynny = people were much poorer
 then

mor °dlawd â llygoden eglwys = as
 poor as a church mouse

tlodi noun, masculine
 = poverty

tlws adjective (feminine **tlws**)
 = pretty

⇒**per**

to (plural **-eau, -eon**) *noun, masculine*

= roof

rhoi'r ffidil yn y to = give up, abandon:

o'n i'n teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to = I felt like giving up

to bach = circumflex accent

toc *adverb*

= soon, shortly

°fydda i 'na toc = I'll be there in a moment

toc ar ôl i'r Rhufeiniaid °adael = just after the Romans left

tocyn (plural **-nau**) *noun, masculine*

= ticket

dw i heb °brynu'r tocynnau = I haven't bought the tickets

⇒ **ticed**

tocyn tymor (plural **tocynnau tymor**)

= season ticket

toddi *verb/noun*

= melt; thaw

toddydd (plural **-ion**) *noun, masculine*

= solvent

toiled (plural **-au, -i**) *noun, masculine*

= toilet

! tŷ bach or (North) **lle chwech** are widely used as euphemisms.

tollti

⇒ **tywallt**

ton (plural **-nau**) *noun, feminine*

= wave

tôn (plural **tonau**) *noun, feminine.*

• = tone

• = tune

tonfedd (plural **-i**) *noun, feminine*

= wavelength

top (plural **-iau**) *noun, masculine*

= top

ar °dop... = on the top of...

llawn °dop = full up:

dyn ni'n llawn °dop ers bore 'ma =

we've been full up since this morning

⇒ **copa**, ⇒ **pen**

torf (plural **-eydd**) *noun, feminine*

= crowd

mae'r °dorf yn amlwg yn dechrau colli amynedd nawr = the crowd are clearly beginning to lose patience now

torfol

in: y cyfryngau torfol = the mass media

torheulo *verb/noun*

= sunbathe

torri *verb/noun*

• = break

nes i °dorri °nghoes llynedd = I broke my leg last year

canwch y larwm drwy °dorri'r gwydr = sound the alarm by breaking the glass

mae'r rhain wedi'u torri = these are broken

• = cut

gallech °dorri'ch bil siopa yn ei

hanner = you could cut your shopping bill in half

torri ar °draws = interrupt

pediwch torri ar °nhraws i! = don't interrupt me!

⇒ **agor**

• = tear

torrwch y papur fel hyn = tear the paper like this

⇒ **rhwygo**

torth (plural **-au**) *noun, feminine*

= loaf

°ga i °dorth °wen os gwelwch yn °dda?

= can I have a white loaf please?

tost *adjective*

• = sore; aching; painful

oes pen tost 'da hi? = has she got a headache?

mae stumog °dost 'da fi = I've got stomach ache

• (South also:) = ill

wi'n teimlo'n °dost = I feel ill

tra

1 *conjunction*

= while

! As a conjunction, tra is followed by a 'that...' clause.

ac un peth arall, tra bo fi 'ma... = and another thing, while I'm here...

2 *adverb*

= quite; entirely; very

peth tra gwahanol yw hynny = that's quite a different thing/matter

sustem °dra effeithiol = a very effective system

trachefn, °drachefn *adverb*

= again

! A rare alternative for ⇨eto

traddodiad (plural **-au**) *noun, masculine*
= tradition
pobl sy'n ymfalchïo yn eu hiaith a'u traddodiadau = people who are proud of their language and their traditions

traddodiadol *adjective*
= traditional

traean (plural **-au**) *noun, masculine*
= third (*fraction*)

traed *plural of*
⇨troed

traeth (plural **-au**) *noun, masculine*
= beach
yna aethon ni i'r traeth = then we went to the beach

traethawd (plural **traethodau**) *noun, masculine*
= essay; dissertation

trafnidiaeth *noun, feminine*
• = transport
bydd eisiau buddsoddi mewn addysg, iechyd, trafnidiaeth ac ati = (we) will need to invest in education, health, transport and so on

• = traffic
⇨traffig

trafod *verb/noun*
= discuss
mae'n hen bryd inni °drafod hyn oll = it's high time we discussed all this

trafodaeth (plural **-au**) *noun, feminine*
= discussion
dw i am ehangu'r °drafodaeth ychydig = I want to broaden the discussion a bit

trafferth (plural **-ion**) *noun, feminine or masculine*
• = trouble, bother
pam mynd i'r °drafferth o °ddefnyddio dros °fil o °eiriau? = why go to the trouble of using over a thousand words?

• (*in plural*) = trouble, problems, difficulties
°ges i °drafferthion ar y ffordd yn ôl = I had problems on the way back
⇨didrafferth

trafferthu *verb/noun*
= go to trouble, bother

trafferthus *adjective*
= troublesome

traffig *noun, masculine*
= traffic
traffig osgoi = diverted traffic

tragwyddol *adjective*
= eternal

trais *noun, masculine*
= violence
mae 'na °lai o °drais a °phethau dyddiau 'ma, ond... = there is less violence and (such) things these days, but...

tramgwydd *noun, masculine*
maen (plural **meini**) **tramgwydd** = stumbling block

tramor
1 *adverb*
= abroad
dych chi'n mynd tramor eleni? = are you going abroad this year?

2 *adjective*
= foreign
mae'r peiriannau i gyd o °wneuthuriad tramor = the machines are all of foreign manufacture

⇨estron

trannoeth *adverb*
= the next day

! Usually °drannoeth because of its adverbial use.

°drannoeth, fe °gododd y °ddau fel arfer = the next day, the two of them got up as usual

traul (plural **treuliau**) *noun, feminine*
= consumption
traul tanwydd = fuel consumption
ar °draul = at the expense of:
mi °gyflawnodd ei °waith arloesol ar °draul ei iechyd = he completed his pioneering work at the expense of his health

trawiad (plural **-au**) *noun, masculine*
= stroke; blow
trawiad ar y °galon = heart attack

trawiadol *adjective*
= striking, impressive

traws
⇨ar °draws

trawsblannu *verb/noun*
= transplant (also figurative)

trawsnewid (*stem trawsnewidi-*)
verb/noun
= transform

tre(f) (*plural trefi, trefydd*) *noun, feminine*
= town

y °dre °fwya ar hyd yr arfordir gorllewinol = the biggest town along the west coast

! Note that 'in (to) town' and 'to town' require the definite article in Welsh:

awn ni i'r °dre, °te = let's go into town, then

mae'n byw °rywle yn y °dre bellach = he/she lives somewhere in town now

trechu *verb/noun*
= defeat, beat

trechwyd y Sacsoniaid mewn brwydr °waedlyd yn Hastings = the Saxons were defeated in a bloody battle at Hastings

⇒ **curo**

tref
⇒ **tre(f)**

trefn (*plural -au*) *noun, feminine*
• = order

rhoch nhw yn °nhrefn yr °wyddor = put them in alphabetical order

• = system

mae'r rhan °fwya wedi addasu'n iawn i'r °drefn newydd = most have adapted OK to the new system

trefniad (*plural -au*) *noun, masculine*
= arrangement

trefniadur (*plural -on*) *noun, masculine*
= (personal) organizer (book)

trefniant (*plural trefniannau*) *noun, masculine*
= arrangement

trefnu *verb/noun*
= arrange; organize

dyn ni wedi trefnu cwrdd wythnos nesa = we've arranged to meet next week

fe °drefnwyd y cyfan gan ysgolion lleol = the whole thing was organized by local schools

trefnus *adjective*
= orderly; in order

trefnydd (*plural -ion*) *noun, masculine*
= organizer

pwyl °fydd trefnydd y cwrs 'ma? = who will be the organizer of this course?

trefol *adjective*
= urban

treial (*plural -on*) *noun, masculine*
= trial

cynhelir treialon cŵn defaid yma °ddydd Sadwrn nesa = sheepdog trials will be held here next Saturday
disgwylir iddyn nhw °fynd i °dreial yn y °flwyddyn newydd = they are expected to go on trial in the new year

⇒ **trio**

treiddgar *adjective*
= penetrating

treiddio *verb/noun*
= pierce, penetrate

treigladd (*plural -au*) *noun, masculine*
= (grammatical) mutation

treigladd meddal = soft mutation

treigladd laes = aspirate mutation

treigladd trwynol = nasal mutation

treiglo *verb/noun*
= mutate (*initial letter*)

treisio *verb/noun*
= rape

treisiol *adjective*
= violent

trên (*plural trenau*) *noun, masculine*
= train

dw i'n meddwl awn ni ar y trên

or: **dw i'n meddwl awn ni gyda'r trên** = I think we'll go by train

treth (*plural -i*) *noun, feminine*
= tax

fe °fydd hynny'n gostwng lefel eich

trethi = that will lower the level of your taxes

treth ar °werth (T.A.W.) = value added tax (V.A.T.)

trethdalwr (*plural trethdalwyr*) *noun, masculine*
= taxpayer

treuliau teithio *plural noun*
= travelling expenses

treulio *verb/noun*

= spend (time)

°dreulies i wythnos °gyfan yn

gorwedd ar y traeth = I spent a whole week lying on the beach

⇒ gwario

tri^h *numeral (feminine tair)*

= three

mae gynnon ni °dri o °blant = we've got three children

lleolir y dramâu eleni mewn tair prif °ganolfan = the plays this year will be located in three main centres

bydd y tri ohonon ni'n mynd gyda'n

gilydd = the three of us will go together

! In the literary language, **tri** (but not **tair**) is followed by the aspirate mutation—so **tri** °cheffyl three horses but **tair** coeden three trees. In the spoken language **tri** cheffyl is just as common. As always, aspirate mutation of **p-** and **t-** is even less likely in speech.

When the numeral functions as a pronoun (i.e. without a following noun), **tair** is only used where all three individuals referred to are feminine—otherwise **tri**.

⇒ trydydd

trideg *numeral*

= thirty

tridiau *adverb*

= (period of) three days

bydd y °gynhadledd yn para am

°dridiau = the conference will last for three days

⇒ diwrnod, ⇒ dydd

trigolion *plural noun*

= inhabitants; dwellers

pa °ganran o °drigolion y °dre sy

bellach yn °ddiwaith, °te? = what percentage of the townspeople are now unemployed, then?

trin (*stem trini-*) *verb/noun*• = treat (*patient*)

lle dych chi'n cael eich trin ar hyn o

°bryd? = where are you being treated at the moment?

• = deal with

dyn anodd ei °drin = a difficult man to deal with

⇒ delio

triniaeth (*plural -au*) *noun, feminine*

= treatment

mae'r gweddill yn cael triniaeth mewn

ysbytai lleol = the rest are receiving treatment in local hospitals

trio *verb/noun*

= try

beth dych chi'n trio °ddweud? = what are you trying to say?

°dries i °ddwywaith cyn rhoi'r gorau

iddi = I tried twice before giving up

! A variant form **treial** is heard in some areas.

⇒ ceisio

trist *adjective*

= sad

on'd ydyn nhw'n edrych yn °dris? = don't they look sad?

tristwch *noun, masculine*

= sadness

tro (*plural -eon, -eau*) *noun, masculine*

• = time

dyma'r pedwerydd tro i mi °ofyn = this is the fourth time I've asked

dan ni heb °weld ti ers tro = we haven't seen you for a (long) time

'na °ddigon am y tro = that's enough for now

mae ymwelwyr yn dod yn ôl yma °dro ar ôl tro = visitors come back here time after time

! This word is used for 'time' when talking about 'how many times'. For 'once', 'twice', 'three times' etc.

⇒ gwaith *noun, feminine*

A related adverb is ⇒ droeon more than once, several times

• = turn

dy °dro di nawr! = your turn now!

mynd am °dro = go for a walk:

aethon ni am °dro ar ôl cinio = we went for a walk after lunch

troad (*plural -au*) *noun, masculine*

= turn

ar °droad y °ganrif = at the turn of the century

trobwynt (*plural -iau*) *noun, masculine*

= turning point

troed (*plural traed*) *noun, masculine or feminine*

= foot

cerwch mas i chwarae—dych chi dan

°draed o hyd! = go out and play—

you're under my feet the whole time!

mae rhywbeth ar °droed = something is afoot

tŷ bychan ar °droed y rhiw = a little house at the foot of the hill

troedfedd (*plural -i*) *noun, feminine*
= foot

troedio *verb* *noun*

= walk; tread

troedio llwybrau'r ardal = walking the region's paths

troi (*stem tro-, troi- or trodd-*) *verb* *noun*
= turn

trowch i °dudalen 26 = turn to page 26

nei di °droi'r teledu i lawr ychydig? =

will you turn the television down a bit?

mi °droddodd hi i fyny ar y diwedd = she turned up at the end

roedd hi newydd °droi i °fod yn ysgol

°gyfun = it had just turned into (being) a comprehensive school

nes i °droi'r swydd i lawr = I turned the job down

tros

⇒ **dros**

trosedd (*plural -au*) *noun, feminine*
= crime

trosedd a °chosb = crime and punishment

cyflawni trosedd = commit a crime

troseddol *adjective*
= criminal

troseddu *verb* *noun*
= commit crime

cafwyd lleihad o °fwy na 25% mewn

achosion o °droseddu = there has been a reduction of more than 25% in cases of crime/criminal behaviour

troseddwr (*plural troseddwyr*) *noun, masculine*
= criminal

trosglwyddo *verb* *noun*
= transfer

dw i am °drosglwyddo cant o

°bunnoedd i °nghyfrif cadw = I want

to transfer a hundred pounds to my savings account

trosi *verb* *noun*

= translate

bydd rhaid ei °drosi i'r Saesneg

°gynta, on' bydd? = it'll have to be translated into English first, won't it?

⇒ **cyfieithu**

trosiad (*plural -au*) *noun, masculine*
= translation

⇒ **cyfieithiad**

trosodd

⇒ **drosodd**

trothwy (*plural -au, -on*) *noun, masculine*

= threshold

a ninnau ar °drothwy canrif newydd,

... = with us (being) on the threshold of a new century, ...

trousus *noun, masculine*

= trousers

truan *adjective*

= poor; wretched

beth am yr aderyn truan 'ma? = what about this poor bird?

⇒ **°druan**

trueni *noun, masculine*

= pity

'na °drueni! = what a pity!

trugaredd *noun, masculine*

= mercy

trwbl or **trwbwl** *noun, masculine*

= trouble

⇒ **bai**, ⇒ **trafferth**

trwchus *adjective*

= thick

mae'r eira'n °drwchus fan hyn = the snow is thick here

trwm *adjective*

comparative trymach, superlative

tryma(f) *occasional plural trymion*

= heavy

ydy hwnna'n rhy °drwm i ti? = is that too heavy for you?

mae'n °drymach nag o'n i'n °feddwl = it's heavier than I thought

bydd cyfarpar arbennig i °bobol trwm eu clyw = there will be special equipment for people who are hard of hearing

trwodd *adverb*
= through

! This adverb—often °drwodd in speech—corresponds to the preposition ⇒trwy°/⇒drwy°.

Compare:

fe aeth y bws drwy'r °dre = the bus went through the town
but **fe aeth y bws drwodd** = the bus went through

The same distinction is made with ⇒dros° / ⇒drosodd

mi °rodda i chi °drwodd = I'll put you through

trwsio *verb noun*
= mend, fix

°elli di °drwsio'r cawod inni? = can you fix the shower for us?

trwy°

! ⇒drwy°, but trwy° is normal for time expressions of the type **trwy'r prynhawn** all afternoon

oedd e fan hyn trwy'r amser! = it was here all the time!

bydda i yn 'yn swyddfa trwy'r dydd yfory = I'll be in my office all day tomorrow

⇒drwy °gydol

trwyadl *adjective*
= thorough

rhaid aros nes ei °fod yn cael ei ymchwilio'n °drwyadl = we must wait until it has been thoroughly investigated

⇒trylwyr

trwydded (*plural -au*) *noun, feminine*
= licence

trwydded °yrru (*plural trwyddedau gyrru*) = driving licence

trwyddedu *verb noun*
= license

trwyn (*plural -au*) *noun, masculine*
= nose

°alla i °ddim anadlu'n iawn drwy °nhrwyn = I can't breathe properly through my nose

trychineb (*plural -au*) *noun, masculine or feminine*
= disaster

oedd hi'n °drychineb! = it was a disaster!

trychinebus *adjective*
= disastrous

trydan *noun, masculine*
= electricity

mae'ch bil trydan yn dal heb ei °dal = your electricity bill is still unpaid

trydanol *adjective*
= electric

trydanwr (*plural trydanwyr*) *noun, masculine*
= electrician

trydydd *adjective (feminine trydedd°)*
= third

! Ordinal numerals are adjectives, but behave in a special way. All other than ⇒cynta precede the noun. With feminine singular nouns, the noun itself undergoes soft mutation, as does the ordinal after the article—so: **y trydydd car** the third car but **y °drydedd °goeden** the third tree.

dyma'r trydydd tro i mi °geisio = this is the third time I've tried

y °drydedd °goeden o'r chwith = the third tree from the left

ac yn °drydydd, ... = and thirdly, ...

⇒tri

trylwyr *adjective*
= thorough

bydd yr ymgeisydd llwyddiannus â gwybodaeth °drylwyr o'i

°bwnc/°phwnc = the successful candidate will have a thorough knowledge of his/her subject

⇒trwyadl

trymaidd *adjective*
= close, sultry

mae wedi bod yn °drymaidd heddiw = it's been close today

⇒mwll

trysor (*plural -au*) *noun, masculine*
= treasure

trywanu *verb noun*
= stab

mi °gafodd dyn ei °drywanu yn y °dre neithiwr = a man was stabbed in the town last night

tu *noun, masculine*
= side

! This word is of much more restricted use than ⇒ **ochor**, and is found mostly in the prepositions ⇒ **tu allan**, ⇒ **tu cefn**, ⇒ **tu draw**, ⇒ **tu fewn**, ⇒ **tu hwnt**, ⇒ **tu mewn** and ⇒ **tu ôl**.

Note also the phrase **o °du** from, used particularly where different parties or differing viewpoints are involved:

ond beirniadaeth hallt a °ddaeth o °du'r llywodraethwyr = but harsh criticism came from the governors

tua^h (before vowels **tuag**) preposition

! As always in the spoken language, aspirate mutation is applied inconsistently if at all, and in any case rarely with **p-** and **t-**.

- = about, approximately
°ddo i'n ôl tua chwech, **'te** = I'll come back (at) about six, then
mae tua dwsin ohonyn nhw ar ôl, dw i'n meddwl = there are about a dozen of them left, I think
- = towards

! In this sense, **tua** is less frequent than ⇒ **tuag at°**

mae pobloedd yr ardal yn dechrau edrych tua'r Dwyrain = the peoples of the region are beginning to look towards the East

tuag at° preposition

= towards; in the direction of
mae angen mw y °barch tuag at safbwyntiau pobol eraill = we need more respect for other people's points of view

tu allan (or **y tu allan**) adverb

= outside
mae'r cŵn yn byw tu allan = the dogs live outside

! This adverb appears with the definite article when a preposition precedes:

y °broblem yw bod nhw'n cynrychioli seddi o'r tu allan i °Gymru = the problem is that they represent seats outside Wales

tu cefn (or **y tu cefn**) (i°) preposition
= behind

°elli di sefyll tu cefn iddo am eiliad? = can you stand behind him for a moment?

! This adverb appears with the definite article when a preposition precedes:

o'r tu cefn daeth e = he came from behind

⇒ **tu ôl**

tudalen (plural **-nau**) noun, masculine or feminine

= page

rhowch eich enw llawn ar °waelod y tudalen ola = put your full name at the bottom of the last page

mae tudalen °wag ar y diwedd = there's an empty page at the end

tu draw (or **y tu draw**) (i°) preposition
= beyond

mi aeth y canlyniadau y tu draw i °bob disgwyl = the results went beyond all expectations

⇒ **draw**, ⇒ **tu hwnt**

tuedd (plural **-iadau**) noun, feminine
= tendency

tueddol adjective

= inclined, having a tendency (o° to)

tueddu verbnoun

= tend (i° to)

mae rhieni'n tueddu i °feio'u hunain = parents tend to blame themselves

tu fas adverb

⇒ **tu allan**

tu fewn (or **y tu fewn**) (i°) preposition
= within; inside

°gawn ni °weld beth sy tu fewn = let's see what's inside

mae rhai'n dal tu fewn i'r adellad = some are still inside the building

! This adverb appears with the definite article when a preposition precedes:

mae'n edrych yn °well o'r tu fewn = it looks better from the inside

⇒ **o fewn**

tu hwnt (or **y tu hwnt**) (i°)

1 preposition
= beyond

mae hyn wedi mynd tu hwnt i °bob rheswm = this has gone beyond all reason

mae'r °dasg tu hwnt i °allu ffotograffydd = the task is beyond the abilities of a photographer

maen nhw wedi diddanu cynulleidfaoedd dros °Gymru a tu hwnt = they have entertained audiences all over Wales and beyond

⇒ **tu draw**

2 *adverb (follows adjective)*
= extremely

oedd y °ddarlith heddiw'n °ddiflas tu hwnt = the lecture today was extremely boring

⇒ **dros ben**

tu mas *adverb*

⇒ **tu allan**

tu mewn (*or y tu mewn*)

variant of ⇒ **tu fewn**

tun (*plural -iau*) *noun, masculine*
= tin, can

tunnell (*plural tunelli*) *noun, feminine*
= ton

tu ôl (*or y tu ôl*) (*1°*) *preposition*
= behind

mae e'n gweithio tu ôl i'r bar heddiw = he's working behind the bar today
hynny, nid lles y °wlad, sydd y tu ôl i amryw o'i °benderfyniadau = that, (and) not the good of the country, is what is behind some of his decisions

⇒ **tu cefn**

t'wel *contraction of wyt ti'n gweld*
= you see

⇒ **gweld**, ⇒ **ch'wel**

twf *noun, masculine*
= growth

gyda twf economïau marchnad yn °Nwyrain Ewrop... = with the growth of market economies in Eastern Europe...

⇒ **cynnydd**

twll (*plural tyllau*) *noun, masculine*

• = hole

mae twll yn dy °grysl = there's a hole in your shirt!

y twll yn yr haen osôn = the hole in the ozone layer

• (*derogatory*) = dump

mae'r °dre 'ma'n °dwl o °le = this town is a dump

twll tin

= arsehole (*also figurative*)

twnel (*plural -au, -i*) *noun, masculine*

= tunnel

twp *adjective*

= stupid

paid bod yn °dwp! = don't be stupid!

twpdra *noun, masculine*

= stupidity

twpsyn *noun, masculine*

= fool, idiot

twr (*plural tyrau*) *noun, masculine*

= tower

twrist (*plural -iaid*) *noun, masculine*

= tourist

twristiaeth *noun, feminine*

= tourism

twt *adjective*

= tidy, neat

twt lol! = nonsense!

twyllo *verbnoun*

= deceive; cheat

mae ein gallu i °dwylllo'n hunain yn anhygoel = our ability to deceive ourselves is incredible

dw i °ddim eisiau gweld neb yn twyllo = I don't want to see anyone cheating

twym *adjective (South)*

comparative twymach, twyma(f)

• = warm

• = hot

mae'n °dwym heddiw, on'd yw hi? = it's hot today, isn't it?

⇒ **cynnes**, ⇒ **poeth**

twymo *verbnoun*

= warm/heat up; get warm/hot

twymydd (*plural -ion*) *noun, masculine*

= heater

twymyn (*plural -au*) *noun, feminine*

= fever

twyn (*plural -i*) *noun, masculine*

• = dune

• = hillock

twyn tywod (*plural twyni tywod*)

noun, masculine

= sand dune

tŷ (*plural tai*) *noun, masculine*

= house

o'n nhw'n rhannu tŷ *°rywle yn y*

Gogledd = they shared a house somewhere in the North

mae'r tai fan hyn i gyd wedi'u llosgi'n

ulw = all the houses here have been burnt to ashes

°welwch chi'r rhes o °dai fan 'cw? = do you see that row of houses over there?

mae eu tŷ nhw'n rhy °fach iddyn nhw = their house is too small for them

yn tŷ = at home

yn tŷ ni = in our home

! Note that **tŷ bach** is the standard euphemism for 'toilet', while 'a small house' is **tŷ bychan**.

⇒ **adre(f)**, ⇒ **gartre(f)**

tyb (*plural -iau*) *noun, masculine or feminine*

= opinion (in the sense of 'estimation', and therefore less common than

⇒ **barn**)

tybed *adverb*

= I wonder

tybed oes amser 'da ni? = I wonder if we've got time?

pwyl °fyddai wedi dweud hynny,

tybed? = who would have said that, I wonder?

tybed be' °ddaeth ohono fo? = I wonder what became of him?

! This is an invariable word (but ⇒ **tybio**) that can either begin the sentence or be tagged on at the end.

⇒ **'sgwn i**

tybiedig *adjective*

= supposed

awdur tybiedig y gwaith hwn = the supposed author of this work

tybio, tybied (*stem tybi-*) *verb/noun*

= suppose, imagine

°dybiwn i = I should imagine or suppose:

byddan nhw yma erbyn chwech,

°dybiwn i = they'll be here by six, I should imagine

⇒ **tybed**

tyddyn (*plural -nau, -nod*) *noun, masculine*

= smallholding

tyfiant (*plural tyfiannau*) *noun, masculine*

= growth

tyfu *verb/noun*

= grow

mae storïau Arthur wedi tyfu a

lledaenu trwy Ewrop = the Arthur stories have grown and spread through Europe

mae'r plant wedi tyfu, °fentra i = the children have grown, I bet

fe °dyfodd y galw am °bethau felly yn

ystod y rhyfel = the demand for such things grew during the war

mae e'n tyfu tatws = he grows potatoes

tŷ gwydr (*plural tai gwydr*) *noun, masculine*

= greenhouse

tynged (*plural tynghedau*) *noun, feminine*

= fate; destiny

dal yn y °fantol mae tynged y chwarel

= the fate of the quarry is still in the balance

tyngedfennol *adjective*

= fateful

tyngu *verb/noun*

= swear (an oath)

naeth e °dyngu na °fyddai fe'n dod yn

ôl = he swore he would not come back

⇒ **llw**, ⇒ **rhegi**

tylwyth

in: y tylwyth teg = the fairy folk, the fairies

tyllau *plural of*

⇒ **twll**

tyllu *verb/noun*

• = bore

• = perforate, make a hole/holes in

tylluan (*plural -od*) *noun, feminine*

= owl

⇒ **gwldihw**

tymer (*plural tymherau*) *noun, feminine*

= temper

tymer °ddrwg iawn sy gynno fo = he's very bad-tempered

tymheredd (*plural tymereddau*) *noun, masculine*

= temperature

bydd y tymheredd yn cyrraedd deuddeg gradd erbyn y prynhawn = the temperature will reach twelve degrees by the afternoon

tymor (*plural tymhorau*) *noun, masculine*

• = season

Cyfarchion y Tymor = Season's Greetings

rhoddir tocyn tymor i °bob myfyriwr = a season ticket will be given to every student

• = term; semester

pryd mae tymor y Gwanwyn yn dechrau? = when does the Spring term begin?

tymor byr = short-term

tymor hir = long-term

ystyriaethau tymor hir ydy'r rhain i gyd = these are all long-term considerations

tyndra *noun, masculine*

= tension

cynyddu mae tyndra yn y Dwyrain

Canol = tension is rising in the Middle East

tynnu *verb**noun*

• = pull; draw

tynwch i agor = pull to open

tynnu dy °goes oedd e = he was pulling your leg

tynna'r llenni, nei di? = draw the curtains, will you?

• = take off (*clothes*);

tynwch eich dillad = take your clothes off

• = draw (*picture*)

°elli di °dynnu llun i mi, 'te? = can you draw me a picture, then?

• = take (*photograph*)

pam na °ddewch chi draw i °gael tynnu'ch llun? = why don't you come over and have your picture taken?

tŷ sengl (*plural tai sengl*) *noun, masculine*

= detached house

tystio *verb**noun*

• = testify

• (*on certificates*) = certify

tystiolaeth (*plural -au*) *noun, feminine*

= evidence

tystysgrif (*plural -au*) *noun, feminine*
= certificate

tŷ teras (*plural tai teras*) *noun, masculine*

= terraced house

tywallt (*also tollti in some areas*) *verb**noun* (*North*)

= pour

⇒ **arllwys**

tywod *noun, masculine*

= sand

tywydd *noun, masculine*

= weather

sut °dywydd °gest ti ar dy °wyliau? = what kind of weather did you have on your holiday?

dyma °ragolygon y tywydd am heno ac yfory = here is the weather forecast for tonight and tomorrow

tywyll *adjective*

comparative tywyllach, superlative

tywylla(f)

= dark

mae'n rhy °dywyll i °weithio bellach = it's too dark to work now

dyma'r lliw glas tywylla sy 'da ni = this is the darkest blue we've got

tywyllu *verb**noun*

= darken; get dark

gwnewch yn siwr bod chi gartre erbyn

iddi °dywyllu = make sure you're home by the time it gets dark

tywyllwch *noun, masculine*

= darkness

tywys *verb**noun*

= lead; guide; show round

bydd myfyriwr y chweched dosbarth ar gael i'ch tywys o amgylch yr ysgol = sixth form students will be on hand to take you round the school

tywysog (*plural -ion*) *noun, masculine*

= prince

Tywysog Cymru = the Prince of Wales

tywysogaeth (*plural -au*) *noun, feminine*

= principality

tywysoges (*plural -au*) *noun, feminine*

= princess

TH

Uu

theatr (plural **-au**) *noun, feminine*
 = theatre
theatr awyr agored = an open-air theatre

thema (plural **themâu**) *noun, feminine*
 = theme
 ⇒ **pwnc**, ⇒ **testun**

therapi (plural **therapiau**) *noun, masculine*
 = therapy
therapi gwaith = occupational therapy
therapi lleferydd = speech therapy

therapydd (plural **-ion**) *noun, masculine*
 = therapist
rhaid i mi °weld 'n therapydd = I must see my therapist

thermomedr (plural **-au**) *noun, masculine*
 = thermometer

'u
stands for the possessive adjective ⇒ eu after vowels.

ucha(f)
 ⇒ **uchel**

uchafbwynt (plural **-iau**) *noun, masculine*
 = high point, climax

daw'r cyfan i uchafbwynt ar y nos Sadwrn olaf = the whole thing will come to a high point on the last Saturday night

uchder (plural **-au**) *noun, masculine*
 = height

uchel *adjective*
comparative uwch, superlative ucha(f)

• = high
pa mor uchel y gall yr awyrennau 'ma hedfan? = how high can these planes fly?

bydd y tymereddau dros y °wlad ychydig yn uwch heddiw na ddoe = the temperatures across the country will be a bit higher today than yesterday

yr Wyddfa ydy'r mynydd ucha yng °Nghymru = Snowdon is the highest mountain in Wales

! *The superlative ucha(f) also corresponds to 'upper' or 'top' (as an adjective):*

y rhan ucha o'r corff = the upper part of the body

well gen i eu rhoi nhw yn y dosbarth ucha'n syth = I'd rather put them in the top class straight away

• (voice) = loud
paid siarad yn rhy uchel fan hyn = don't speak too loud here
siaradwch yn uwch! = speak up!

ucheldir (plural **-oedd**) *noun, masculine*
 = highland

uchelgais (plural **uchelgeisiau**) *noun, masculine or feminine*
 = ambition

uchelgeisiol *adjective*

= ambitious

mae'r cwangos yn cael eu defnyddio gan °bersonoliaethau uchelgeisiol = the quangos are used by ambitious personalities

uchelwydd *noun, masculine*

= mistletoe

uchod**1** *adjective*

= above (in documents etc)

yr enwau uchod = the above names**2** *adverb*

..., **fel y dywedwyd uchod** = ..., as was said above

⇒ **isod****ufudd** *adjective*

= obedient

roedd y ci'n dal i aros yn ufudd

amdani = the dog was still waiting obediently for her

ufuddhau *verb-noun*

= obey

uffern *noun, feminine*

• = hell

uffern ar y °ddaeir = hell on earth

• (as intensifier)

be' uffern dych chi'n °wneud? = what the hell are you doing

pw y uffern ydy hwnna? = who the hell is that?

⇒ **diawl**, ⇒ **cythraul****uffernol** *adjective*

• = hellish

• (as intensifier) = awfully, terribly

mae'n °ddrud uffernol, mae'n uffernol

o °ddrud = it's awfully expensive

ugain (plural **ugeiniau**) *numeral*

• = twenty

ugain o °gystadleuwyr = twenty contestants

mae'n ugain munud i wyth = it's twenty to eight

dim ond papur ugain punt sy gen i =

I've only got a twenty pound note

°gwrddes i ag e °gynta ugain

"mlynedd yn ôl = I first met him twenty years ago

• (plural often used to indicate

indeterminate number, in the same way as 'scores' in English):

°weloch chi'r ugeiniau o °bobol tu**allan i sinema Porthmadog neithwr?**

= did you see the scores of people outside Porthmadog cinema last night?

! This numeral, part of the original vigesimal system of counting in Welsh, is used throughout Wales by native speakers, while an alternative 'decimalized' version **dau °ddeg** is now promoted in the schools.

However, another good reason for using this native form is that the artificial alternative sounds very like ⇒ **deuddeg** 12 (for which, in turn, a 'decimalized' alternative **undeg dau** has been produced for schools).

ugeinfed *adjective*

= twentieth

⇒ **pumed****ulw** *plural noun*

= cinders, ashes

llosgi'n ulw = burn to ashes, burn to the ground

mae'r pentre wedi'i °llosgi'n ulw = the village has been burnt to the ground

un, un° *numeral*

= one

mae 'na un peth o'n i am °drafod â ti cyn mynd = there's one thing I wanted to discuss with you before going

mi °geith pob un ohonoch chi ei arian yn ôl = every one of you will get his money back

mae un °broblem yn dal heb ei datrys

= there is one problem still unsolved

be' nawn ni efo'r un yma, 'ta? = what shall we do with this one, then?

! This numeral causes soft mutation of a following feminine noun - so **un ceffyl** one horse but **un °gath** one cat

⇒ **cynta(f)**, ⇒ **fesul**, ⇒ **(y) naill°**, ⇒ **pa°**, ⇒ **rhai** pronoun, ⇒ **yr un**

undeb (plural **-au**) *noun, masculine*

= union

dych chi'n aelod o undeb? = are you a member of a union?

yr Undeb Sofietaidd = the Soviet Union**undonog** *adjective*

= monotonous

undydd *adjective*

= one-day

cwrs undydd ar °gyfer dysgwyr profiadol = a one-day course for advanced learners

uned (*plural -au*) *noun, feminine*
= unit

unedau cegin o ansawdd ar °gael °bob amser = quality kitchen units always available

aed â hi i'r Uned Gofal Dwys = she was taken to the Intensive Care Unit

unedig *adjective*

= united

y °Deyrnas Unedig = the United Kingdom

unfan

in phrases of the type:

arhoswch yn eich unfan! = stay where you are!

naeth e aros yn ei unfan = he stayed where he was

naeth hi aros yn ei hunfan = she stayed where she was

uniaith *adjective*

= monolingual; monoglot

mae posteri uniaith °Gymraeg yn dal i'w gweld ymhobman = Welsh-only posters can still be seen everywhere

plant o °deuluoedd uniaith Saesneg = children from English-only families/monoglot English families

unig (^o) *adjective*

• (*precedes noun and causes soft mutation*) = only

fe yw'r unig °ddyn sy'n °gymwys ar °gyfer swydd o'r °fath = he is the only man who is suitable for such a job

• (*follows noun*) = lonely

o'n nhw'n byw mewn bwthyn unig = they lived in a lonely cottage

⇒ **yn unig**

unigol *adjective*

= singular; individual

unigolyn (*plural unigolion*) *noun, masculine*

= individual

mae hyn yn °fater i'r unigolyn = this is a matter for the individual

unigryw *adjective*

= unique

ond mae'r nodwedd 'ma'n °bell o °fod yn unigryw = but this characteristic is far from (being) unique

union *adjective*

= exact

fe °gafodd ei saethu i lawr wythnos

union yn ôl = he was shot down

exactly a week ago

yn union = exactly

byddwn ni yno am °dair wythnos (yn)

union = we'll be there for three weeks exactly

beth yn union mae hyn yn °feddwl?

= what exactly does this mean?

bydd y costau'n llawer uwch, felly? -

yn union = so the costs will be much higher? - exactly

⇒ **i'r dim**

uniongyrchol *adjective*

= direct

neu fe °allwch chi °gyfrannu'n

uniongyrchol at eich hoff elusennau

= or you can contribute directly to your favourite charities

debyd uniongyrchol = direct debit

unlle

in: (dim) yn unlle = (not) anywhere

⇒ **nunlle**

unman

in: (dim) yn unman = (not) anywhere,

⇒ **nunman**

uno *verb/noun*

• = join

beth am eu huno nhw? = what about joining them together?

• = merge

efallai y bydd eisiau eu huno nhw =

perhaps they will have to be merged

yn Lloegr ceisiwyd uno rhai o'r

ysgolion = in England an attempt was made to merge some of the schools

• = unite

⇒ **ymuno**

unochrog *adjective*

= partisan, biased

unol *adjective*

= united

yn unol â^h = in accordance with:

fe °redir y digwyddiad 'ma'n unol â

rheolau'r clwb = this event will be run in accordance with club rules

yr Unol °Daleithiau = the United States

unrhyw^o *adjective*

= any

bydden ni'n °ddiolchgar am unrhyw

°gymorth = we would be grateful for any help

ni °ellir atgynhyrchu unrhyw °ran o'r cyhoeddiad hwn... = no part of this publication can be reproduced...

! Note that **unrhyw°** is only used when the sense of 'any' is 'whatever kind/type'. When, on the other hand, 'any' can be removed from the English sentence without altering the sense, then it is not translated in Welsh:

oes afalau 'da chi heddiw? = have you got any apples today?

unrhywbeth *pronoun*

= anything

byddai unrhywbeth yn °well na'r hyn

sy gynnwys ni ar hyn o °bryd =

anything would be better than what we've got at the moment

unrhywbeth arall? = anything else?

! Note however that 'not...anything' is normally ⇒ **dim byd**, or ⇒ **dim**:

°alla i °weld dim = I can't see anything

does dim byd ar ôl = there isn't anything left

unrhywun *pronoun*

= anyone

mi °fasai unrhywun yn deall hynny = anyone would understand that

! When anyone means '(hypothetical) someone' (as opposed to 'no matter who' in the example above), ⇒ **rhywun** is possible as an alternative

oes unrhywun eisiau rhagor o

°fanylion, 'te?, oes rhywun

eisiau rhagor o °fanylion, 'te? =

does anyone want more details, then?

Note that 'not...anyone' is normally ⇒ **neb**:

°wes i neb = I didn't see anyone

unwaith

1 *adverb*

= once

dw i wedi dweud wrthaf ti mwy nag

unwaith heddiw! = I've told you more than once today!

unwaith yn rhagor os gwelwch yn

°dda, unwaith eto os gwelwch yn

°dda = once more please

2 *conjunction*

= once

unwaith bod y llong wedi mynd, bydd

y lle 'ma'n tawelu = once the ship has gone, this place quiets down

unwaith y byddwn ni wedi arwyddo,

°fydd 'na °ddim mynd yn ôl = once we have signed, there'll be no going back

! As a conjunction, **unwaith** is generally followed by a 'that...' clause, but **mae** is sometimes found instead of **bod/°fod**:

unwaith mae comed yn °gyfnodol,

mae'r diwedd ar y ffordd = once a comet is periodic, the end is on the way

In some Southern areas **siwrnai** or

siwrne is used instead of **unwaith**.

Unwaith also serves for 'once upon a time' (also **un tro**):

unwaith, mewn gwlad °bell = once upon a time, in a country far away

urdd (*plural -au*) *noun, feminine*

= order (movement)

Urdd Gobaith Cymru *Welsh language youth movement, referred to as yr Urdd*

uwch

⇒ **uchel**

uwchben *preposition*

= above; over

°welwch chi'r arwydd 'na uwchben y siop? = do you see that sign over the shop?

uwchfarchnad (*plural -oedd*) *noun, feminine*

= supermarket

⇒ **archfarchnad**

uwchlaw *preposition*

= above

mae'r copaon yn codi rhwng 4000' a

6000' uwchlaw'r môr = the summits rise between 4000' and 6000' above the sea

uwchradd *adjective*

= secondary (school)

yn yr ysgol uwchradd mae e yn

°barod, 'te? = he's in secondary school already, then?

⇒ **cynradd**

uwd *noun, masculine*

= porridge

Ww

waeth *adjective*

! This modal expression takes the construction **i° + subject + °verbnoun**:
waeth inni °fynd = we might as well go

⇒ **man a man**, ⇒ **well**

wal (*plural -iau*) *noun, feminine*
 = wall (*usually internal*)

⇒ **mur**

wastad *adverb*
 = always

o'n i'n gweithio gyda merch a oedd wastad yn °grac iawn = I was working with a girl who was always very cross
dw i wastad yn dweud y gallai pethau °fod yn °waeth = I always say things could be worse

⇒ **o hyd**

wats
 ⇒ **oriawr**

wedi

! ⇒ **Wedi box**

wedyn *adverb*

• = then
trough i'r °dde fan hyn, wedyn yn syth ymlaen am °filitir = turn right here, then straight on for a mile
wedyn bydd eisiau dod â nhw'n ôl = then (we) will have to bring them back y ... **wedyn** the next ...:
ond, y diwrnod wedyn, dyma fe'n dod yn ôl = but, the next day, back he came

! In speech **ac wedyn** 'and then' is often ⇒ **chwedyn**.

• = later (on)
pam na °ddoi di draw wedyn? = why don't you come round later?
gad inni °adael y gweddill tan wedyn = let's leave the rest till later
 ⇒ **yna**, ⇒ **nes ymlaen**

weithiau *adverb*
 = sometimes

mae pethau felly'n digwydd weithiau = such things happen sometimes
weithiau bydda i'n mynd am °dro cyn swper = sometimes I go for a walk before supper

⇒ **gwaith** *noun, feminine*

wel *interjection*

= well
wel, lle °fuoch chi trwy'r dydd? = well, where have you been all day?
oes rhagor i °ddod?—**wel, °gawn ni °weld** = is there more to come?—well, we'll see

well *adverb*

• = (had) better

! This modal expression takes the construction **i° + subject + °verbnoun**:
well inni °fynd = we'd better go
well i'r rhieni °ofyn eu cwestiynau nhw °gynta, dw i'n meddwl = the parents had better ask their questions first, I think
°ddylen ni °ddweud rhywbeth?—**well inni °beidio** = should we say something?—we'd better not

• = prefer (+ *noun*), would rather (+ *verb*)

! In this sense **well** is used with ⇒ **gyda** (**i'da**) (*South*) or ⇒ **gan°** (*North*); 'to' or 'than' is ⇒ **na^h**
well 'da fi °goffi na te = I prefer coffee to tea
well gynna i °de na °choffi = I prefer tea to coffee
well 'da fi °gerdded na dal y bws = I'd rather walk than catch the bus

⇒ **gwell**

wrth°

1 *preposition*

personal forms: **wrtha i, wrthat ti, wrtho fe, wrthi hi, wrthon ni, wrthoch chi, wrthyn nhw**
common variants: **wrtho i, wrthot ti**

! In normal speech all these personal forms tend to lose the **wr-**: 'tha i, 'that ti, 'tho fe etc.

• (*proximity*)

= by; at
mae rhywun wrth y drws = someone is at the door
oedd o'n sefyll wrth y byrddau 'na trwy'r noson = he was standing by those tables all evening

Wedi

1 PARTICLE

This particle, which does not cause mutation, is used in place of \Rightarrow **yn** *particle* to link a form of \Rightarrow **bod** with a verbnoun when completed rather than ongoing action is indicated.

Compare:

mae Gwenith yn darllen y papur =

Gwenith is reading the paper

mae Gwenith wedi darllen y papur =

Gwenith has read the paper

Note that there is a greater difference in form between the English sentences than between the Welsh ones, where the change of meaning from ongoing to completed action requires only the change of **yn** to **wedi**.

Further examples:

ydy'r lleill wedi mynd? = *have the others gone?*

mae'r byd wedi newid, a hynny er gwaeth, mae arna i ofn = *the world has changed, and for the worse, I'm afraid*

o'n nhw wedi cytuno'n °barod = *they had already agreed*

°fyddwn ni wedi gadael erbyn i chi °gyrraedd = *we will have left by the time you arrive*

pwyr °fasai wedi meddwl? = *who would have thought (it)?*

ond wedi dweud hynny, efallai y dylen ni ailfeddwl = *but having said that, perhaps we should rethink*

Like \Rightarrow **yn** *particle*, **wedi** is used to link a verbnoun to a preceding form of \Rightarrow **bod** associated with it. Unlike **yn**, however, its sense of completed action also allows it to be used with modals like \Rightarrow **dyllwn** and \Rightarrow **gallu**; in these cases **wedi** still requires a 'dummy' °**fod** for it to be attached to:

mi °ddylen ni °fod wedi esbonio'r sefyllfa °gynta = *we should have explained the situation first*

gallen nhw °fod wedi cael eu lladd = *they could have been killed*

The 'completed action' sense of **wedi** also leads it to be used in phrases denoting the result of an action.

Compare:

°gafodd y ffenest ei °chau = *the window was closed* (action)

ffenest wedi'i °chau = *a closed window* (state)

In the first of these examples, we visualize the dynamic action of someone closing the window, for which \Rightarrow **cael** + possessive adjective + verbnoun is used; while in the second we visualize a window that is closed (and may have been in that non-dynamic state for some time)—here **cael** (for dynamic action) is not appropriate, while **wedi** (completed action) is. Like **cael**, though, **wedi** here is followed by possessive adjective + verbnoun.

Further examples:

bwydydd wedi'u rhewi = *frozen foods*
dych chi wedi'ch trechu! = *you're beaten!*

nofel wedi'i sgrifennu yn Almaeneg = *a novel written in German*

2 PREPOSITION AFTER

As a preposition, **wedi** is a less common and more formal alternative to \Rightarrow **ar ôl**:

daethon nhw'n ôl wedi'r rhyfel = *they came back after the war* (more usually ...**ar ôl y rhyfel**)

But it is obligatory in telling the time:

mae'n hanner awr wedi wyth = *it's half past eight*

and in the set phrases **wedi'r cwbl** and **wedi'r cyfan** 'after all'

dim ond gyrrwr lori ydw i, wedi'r cwbl = *I'm only a lorry-driver, after all*

and **wedi hynny** or **wedi 'ny** 'after that', 'then'

°glywes i °ddim byd mwy wedi 'ny = *I didn't hear anything else after that*

continued overleaf

Wedi continued

3 CONJUNCTION AFTER

As with its use as a preposition, **wedi** as a time conjunction (+ **i**° + subject + °verbnoun) is much less frequent and

more formal than **ar ôl**:

wedi iddyn nhw °fynd = *after they go/went* (more usually **ar ôl iddyn nhw °fynd**)

- (with verbs of saying etc)
 - dw i wedi dweud wrthi'n °barod** = I've already told her
 - roedd e'n murmur yn °dawel wrtho'i hun** = he was murmuring quietly to himself
 - glynwch y peth 'ma wrth °waelod y silff** = stick this thing to the bottom of the shelf
- (with ⇒**rhaid**)
 - rhaid wrth °gefnogaeth °fwy ymarferol** = there is a need for more practical support
- (with adjectives indicating personal attitude or behaviour towards someone)
 - dig/crac wrth°** = angry with
 - caedig wrth°** = kind to
 - cas wrth°** = nasty/mean to
 - paid bod yn °ddig wrthyn nhw** = don't be angry with them
 - o'n i'n trio bod yn °garedig wrtho, 'na i gyd** = I was trying to be kind to him, that's all
- (with a verbnoun)
 - = whileing, in ...ing:
 - o'n i'n teimlo'n annifyr °rywsut wrth siarad ag e** = I felt awkward somehow while talking to him
- **wrthi**
 - = hard at it; busy
 - ti'n dal wrthi, 'te?** = you're still hard at it, then?
 - mae'r prif °bleidiau wrthi'n confasio ar hyd a lled Cymru** = the main parties are hard at work canvassing the length and breadth of Wales
 - mae'r archeolegwyr wrthi'n chwilio am hen °furiau'r °dre** = the archaeologists are busy looking for the old town walls
- (in idiomatic phrases)
 - wrth °gwrs** = of course
 - wrth °reswm** = of course, naturally

wrth lwc = luckily, as luck would have it:
peth gwahanol yw hynny, wrth °gwrs = that's different, of course
wrth lwc, roedd y trên yn hwyr iawn am unwaith = luckily, the train was very late for once

! When **wrth °gwrs** stands at the front of the sentence, it is generally followed by a 'that...' clause:
wrth °gwrs bod nhw'n dod gyda ni! = of course they're coming with us!

2 conjunction
 = as; while

! As a time conjunction **wrth°** is followed by the construction **i° + subject + °verbnoun**, with the tense of the English verb varying according to context.

bydd llai o adar wrth iddyn nhw °golli eu cynefinoedd = there will be fewer birds as they lose their habitats
°gafodd e °air 'da pob un ohonyn nhw wrth iddyn nhw °fynd allan = he had a word with each of them as they went out
aros fan'na eiliad wrth i mi °orffen y gwaith 'ma = stay there a moment while I finish this work

! Note that no **i-** construction is necessary when the subject on either side of the 'as/while' is the same person or persons:
diffoddwch y goleuadau wrth °adael = switch off the lights as you leave

wŷ (plural **wyau**) noun, masculine
 = egg

wyf
 ⇨ **bod**

wylo *verb*/*noun*

= weep; cry

⇒ **crio**, ⇒ **llefain**

ŵyn

⇒ **oen**

wyneb (*plural -au*) *noun, masculine*

= face

dw i'n cofio fel byddai hi'n troi ei

hwyneb tua'r ffenest = I remember

how she would turn her face towards
the window

wynebu *verb*/*noun*

= face

nag ych chi nawr yn wynebu

rhwygiadau yn y °blaid? = aren't you
now facing splits in the party?

rhaidd inni wynebu'r ffeithiau = we must
face the facts

wynwyn, wynwns

⇒ **nionyn**

ŵyr (*plural wyrion*) *noun, masculine*

• = grandson

• (*in plural*)

= grandchildren

wyres (*plural -au*)

= granddaughter

wysg

in: yn wysg ei °gefn = backwards

(*talking about 'him' e*)

yn wysg eich cefn = backwards (*talking*

about 'you' chi)

yn wysg ei °chefn backwards (*talking*

about 'her' hi)

i lawr â James yn wysg ei °gefn =

down (the hill) went James backwards

! *The possessive adjective in this expression varies according to the person or object referred to.*

wyt

⇒ **bod**

wyth *numeral*

= eight

! *Generally this numeral is followed by an optional soft mutation of a following noun. Another common construction, however, is **wyth + o° + plural noun**.*

wyth punt or **wyth °bunt** = £8

wyth cant or **wyth °gant** = eight
hundred

wyth °mlynedd (or **wyth blynedd**) =
eight years

wyth °niwrnod (or **wyth diwrnod**) =
eight days

wyth cath, wyth °gath or **wyth o**
°gathod = eight cats.

wythfed *adjective*

= eighth

! *Ordinal numerals are adjectives, but behave in a special way. All other than ⇒ **cynta** precede the noun. With feminine singular nouns, the noun itself undergoes soft mutation, as does the ordinal after the article—so: **yr wythfed dyn** the eighth man but **yr wythfed °ferch** the eighth girl*

wythnos (*plural -au*) *noun, feminine*

= week

°wela i chi wythnos i heddiw = I'll see
you a week today

mae hi wedi bod yn wythnos °brysur

iawn = it's been a very busy week

tan wythnos nesa, °tel = till next week,
then!

bydd 'na un °fargen °bob wythnos na

°ellir mo'i °cholli = there will be one
unmissable bargain each week

! *Note in **wythnos diwetha** 'last week' that the expected mutation of **diwetha** after the feminine **wythnos** does not occur because the combination **s+dd** generally assimilates to **sd** in the spoken language.*

wythnosol *adjective*

= weekly

wythnosolyn (*plural wythnosolion*)

noun, masculine

= weekly magazine, weekly

Yy

y (also **yr**, **'r**) definite article
= the

! ⇨ **the** on the English-Welsh side

y (before vowels **yr**) conjunction
= that

! This conjunction (often silent in normal speech) is used to introduce subordinate clauses (introduced by 'that...' in English) where the original statement began with an affirmative verb other than present tense of **bod**.

dw i'n meddwl y bydd hi gartre = I think that she'll be at home

dw i'n meddwl y dylai hi °fod gartre

= I think that she should be at home
mae disgwyl y bydd y ffatri'n cau = it is expected that the factory will close

dw i'n meddwl y byddai hynny'n

°ormod = I think that that would be too much

mae'n °bosib y gall e °ddod = he may be able to come

In addition, many conjunctions use a 'that...' construction, as do qualifying expressions like 'perhaps' and 'probably':

...rhag ofn y byddan nhw'n hwyr = ...in case they are late

fel y dwedodd y gweinidog ddoe... = as the minister said yesterday

°debyg iawn y basen nhw'n cytuno = they would probably agree

efallai y dylech chi aros tan yfory = perhaps you ought to wait till tomorrow

prin y gallen ni °ganiatáu hynny = we could hardly allow that

Finally, **y** is used in relative clauses to link a verb to its antecedent:

rhywbeth y dylid meddwl amdano = something that should be thought about

oes gynnoch chi °lyfr y gallwn i °brynu (fe) i °ngwraig? = have you got a book that I could buy for my wife?

dyma'r union °broblem y sonies i amdani wythnos diwetha = this is

exactly the problem I talked about last week

y °bobol yr oedd eu merch fan hyn ddoe = the people whose daughter was here yesterday

⇨ **(a)°, ⇨ bod etc** verbnoun functioning as conjunction, ⇨ **mai**, ⇨ **taw**, ⇨ **na^{ho}**

See also **Reported Speech** in the Grammar reference section

y (before vowels **yr**) particle

! These occur in literary and very formal spoken Welsh before present and imperfect tense forms of **bod**—for example **y mae** 'is/are' for **mae**, **yr oedd** for **oedd** 'was/were' for **roedd**, **yr wyf** 'I am' for **dw i** or **wi**. Using them in speech sounds affected.

ychwaith

⇨ **chwaith**

ychwaneg

⇨ **chwaneg**, **chwanag**

ychwanegol

= extra; in addition; additional

dim tál ychwanegol = no extra charge
ai treth ychwanegol ar y tlawd yw'r loteri mewn gwirionedd? = is the lottery really an additional tax on the poor?

ychwanegu

• = add (**at°** to)

°ga i ychwanegu rhywbeth fan hyn? = can I add something here?

• = increase

ydy hyn wedi ychwanegu at ein gwybodaeth o °gwbwl, tybed? = has this increased our knowledge at all, I wonder?

ychydig

• = little

ychydig iawn o amser sy ar ôl 'da ni nawr = we've got very little time left now

faint o °Gymraeg sy gynno fo?—go ychydig = how much Welsh has he got?—not much at all

• = a little; a little bit

°alli di °roi ychydig rhagor i mi? = can you give me a little bit more?

bydda i'n ôl mewn ychydig = I'll be back in a bit

• = few

mae hi'n un o'r ychydig artistiaid Cymreig go iawn = she is one of the few genuinely Welsh artists

• = a few

dim ond ychydig °fisoedd cyn iddyn nhw °gollir etholiad cyffredinol = only a few months before they lost the general election

mae'r cyrff yn bod i °wasanaethu ychydig o °bobol °bwerus = the bodies exist to serve a few powerful people

! *Unlike its more colloquial counterpart ⇒ peth adverb, ychydig can be used with plural as well as singular nouns. It requires o° with a singular noun, but can appear without when a plural noun follows.*

ŷd *noun, masculine*
= corn

ydi, ydw, ydy, ydych, ydyn
⇒ bod

yfed (*stem yf-*) *verb/noun*
= drink

faint yfest ti neithiwr? = how much did you drink last night?

beth am °rywbeth i yfed °gynta? = what about something to drink first?

yfory (*sometimes fory after a vowel*)
adverb
= tomorrow
°wela i di yfory! = I'll see you tomorrow!
heddiw ta fory dach chi am °fynd? = do you want to go today or tomorrow?
°fasai yfory'n °gyfleus? = would tomorrow be convenient?

yng
⇒ ynⁿ *preposition*

ynganiad (*plural -au*) *noun, masculine*
= pronunciation

ynganu *verb/noun*
= pronounce
gofalwch bod chi'n ynganu'r gair 'ma'n iawn = make sure you pronounce this word properly

ynglwm *adverb*
= bound up (wrth° with)
⇒ clymu

ynghyd *preposition*
= together (â° with)

daeth 21 o °blant ysgolion cynradd Cylch Ystwyth ynghyd = 21 children from Ystwyth district primary schools came together
cafwyd cwestiynau ynghyd â barn a sylwadau = questions were received together with opinion(s) and observations

⇒ cyd

ynghylch *preposition*
= about, concerning
mi °fu pryderon ynghylch dyfodol y mudiad yn °ddiweddar = there have been worries lately concerning the future of the movement

⇒ ynglŷn â°, ⇒ am°

ynglŷn â° *preposition*
= about, concerning
dyma °ofyn am °fwy o °fanylion ynglŷn â'r holiadur = so (we) asked for more details about the questionnaire
⇒ ynghylch, ⇒ am°

ym
⇒ ynⁿ *preposition*

ym°- *prefix*

! *This is used to form verbs and derived nouns, and often, but by no means always, conveys the idea of 'self'.*

• **ymbaratoi** *verb/noun*
= prepare oneself
(⇒ paratoi)
• **ymddiswyddo** *verb/noun*
= resign
(⇒ diswyddo)
• **ymolchi** *verb/noun*
= wash oneself
(⇒ golchi)
• **ymrywmo** *verb/noun*
= bind/commit oneself
(⇒ rhwymo)
• **ymuno** *verb/noun*
= join (*a club*)
(⇒ uno)

yma *adverb*
= here
oes rhywun yma? = is there anyone here?

yma ym °Mhentraeth maen nhw'n byw = here in Pentraeth (is where) they live
mi °fydd y tywydd yn oer, gyda °chawodydd yma ac acw = the

weather will be cold, with showers here and there

! Sometimes **yma** is shortened to **'ma**:
Aled sy 'ma = (it's) Aled here (on phone)

⇒ **dyma**^o, ⇒ **fan hyn**, ⇒ **y .. 'ma**

y ... 'ma adjective

• = this

dyw'r stafell 'ma °ddim yn rhydd bore
'ma = this room is not free this morning

faint °dalest ti am y car 'ma, 'te? = how much did you pay for this car, then?

ydy'r bws 'ma'n mynd i Abergwaun? = does this bus go to Fishguard?

• = these

dydy'r eitemau 'ma °ddim ar °werth = these items are not for sale

ydy'r stafelloedd 'ma ar °gael? = are these rooms available?

faint ydy'r planhigion 'ma? = how much are these plants?

°brynes i'r sgidiau 'ma fan hyn ddoe = I bought these shoes here yesterday

! In spoken Welsh 'this room' is phrased 'the room here' **y stafell 'ma**, and 'these rooms' as 'the rooms here' **y stafelloedd 'ma**. Because of this phrasing, there is no distinction between 'this' and 'these' (+ noun) in spoken Welsh. Gender of the noun is immaterial (unlike in literary Welsh, see below), except as regards the definite article present in the construction, which will cause soft mutation of feminine singulars—see **the** on the English-Welsh side for details. The form of the definite article will vary depending on circumstance—see **the** on the English-Welsh side for details of this as well.

Sometimes **'ma** is given its full form **yma** in speech (e.g **y stafell yma**) but the shortened form is far more common in this use.

Note that literary Welsh uses the true adjectives ⇒ **hwn** (adjective), ⇒ **hon** (adjective), ⇒ **hyn** (adjective)—usage not current in unaffected speech but regularly encountered in writing.

ymadael (stem **ymadaw-**) verbnoun

• = leave (â^h with object)

ymadawodd y brenin â'r ynys y diwrnod wedyn = the king left the island the next day

• = depart

trenau'n ymadael °bob awr = trains departing every hour

ymadawiad (plural **-au**) noun, masculine
= departure

ymadrodd (plural **-ion**) noun, masculine
= expression

mae'n hawdd cymysgu'r °ddau ymadrodd 'ma = it's easy to confuse these two expressions

⇒ **mynegi**

ymaelodi verbnoun

= become a member (ynⁿ of), join

ymaelodwch yn eich cangen °leol

nawr! = join your local branch now!

⇒ **aelod**, ⇒ **ymuno**

ymagor (or **magor**) verbnoun
= yawn (also figurative)

ymarfer

1 verbnoun
= practise

= ditectif (*plural-s*) *masculine*

determined *adjective*

= penderfynol

to be determined to go = bod yn

°benderfynol o °fynd

develop *verb*

= datblygu

development *noun*

= datblygiad (*plural-au*) *masculine*

devil *noun*

= diawl (*plural-iaid*) *masculine*, cythraul
(*plural cythreuliaid*) *masculine*

devote *verb*

= (*set aside*) neilltuo

to devote time to something = neilltuo

amser i° rywbeth

to devote oneself to something =

ymroddi i° rywbeth

dew *noun*

= gwlith *masculine*

diagram *noun*

= diagram (*plural-au*) *masculine*

dial *verb*

= deialu

to dial a wrong number = camddeialu

dialect *noun*

= tafodiaith (*plural tafodieithoedd*)
feminine

dialling code *noun*

= cōd deialu (*plural codau deialu*)
masculine

dialling tone *noun*

= sain °ddeialu (*plural seiniau deialu*)
feminine

diamond *noun*

= diamwnt (*plural-au*) *masculine*

diaper (*US*) *noun*

= cewyn (*plural-nau*) *masculine*

diary *noun*

= dyddiadur (*plural-on*) *masculine*

dice *noun*

= deisiau *plural*

dictionary *noun*

= geiriadur (*plural-on*) *masculine*

die¹ *verb*

= marw

he died = bu °farw

he is dying = mae e'n marw

! Note the difference between **bu °farw** he died, **mae e wedi marw** he is dead, and **mae e'n marw** he is dying.

I'm dying to see it = dw i'n ysu am ei °weld e

die² *noun*

= deis (*plural-iau*) *masculine*

diet *noun*

= deiet (*plural-au*) *masculine*

to go on a diet = mynd ar °ddeiet

to be on a diet = bod ar °ddeiet

difference *noun*

= gwahaniaeth (*plural-au*) *masculine*

what's the difference between ..? =

beth ydy'r gwahaniaeth rhwng ...?

it makes no difference to me = dim ots

gen i (*North*)

= dim ots 'da fi (*South*)

! Although the vast majority of nouns ending in **-aeth** are feminine, **gwahaniaeth** is masculine.

different *adjective*

= gwahanol

! **gwahanol** follows the noun it refers to in this sense; when it precedes the noun, it means 'various'.

difficult *adjective*

= anodd

difficulty *noun*

= anhawster (*plural anawsterau*)
masculine

dig *verb*

= palu, cloddio

dig up

• (*plants*)

= dadwreiddio

• (*objects*)

= datgloddio, datgladdu

diligent *adjective*

= ymroddgar

dim *adjective*

- (of light etc)
= gwan, aneglur
- (stupid)
= twp

dinghy *noun*

= dingi (*plural -s*) *masculine*

dining room *noun*

= stafell °fwyta (*plural* stafelloedd
bwyta) *feminine*

dinner *noun*

= cinio, swper

dip *verb*

- (in liquid)
= trochi
- (headlights)
= gostwng (*stem* gostyng-)

direct *adjective*

= uniongyrchol

direct debit *noun*

= debyd uniongyrchol *masculine*

direction *noun*

= cyfeiriad (*plural -au*) *masculine*
in the direction of... = yng
°nghyfeiriad...
= tuag at°...

directions *noun*

(instructions)
= cyfarwyddiadau *plural*

directly *adverb*

- (straight)
= yn syth
- (at once)
= ar unwaith, yn syth

director *noun*

= cyfarwyddwr (*plural* cyfarwyddwyr)
masculine
= cyfarwyddwraig (*plural*
cyfarwyddwragedd) *feminine*

dirt *noun*

= baw *masculine*

dirty *adjective*

= bud(u)r, brwnt

dis- *prefix*

= af^o-, anⁿ-, an^o-

disabled *adjective*

= anabl

disadvantage *noun*

= anfantais (*plural* anfanteision)
feminine

disadvantaged *adjective*

= (o) dan anfantais

disagree *verb*

= anghytuno

to disagree with someone about

something = anghytuno â^h rhywun
am° rywbeth, anghytuno â rhywun
ynglŷn â^h rhywbeth

disagreeable *adjective*

= annymunol

disappear *verb*

= diflannu

disappoint *verb*

= siomi

disappointed *adjective*

= siomedig, wedi [*possessive adjective*]
siomi

we were disappointed = fe °gawson

ni'n siomi (*action*)

= o'n ni wedi'n siomi (*state*)

disappointing *adjective*

= siomedig

disappointment *noun*

= siom (*plural -au*) *feminine or masculine*

disapprove *verb*

= anghymeradwyo

disaster *noun*

= trychineb (*plural -au*) *masculine or
feminine*

disastrous *adjective*

= trychinebus

discipline *noun*

= disgyblaeth *feminine*

disco *noun*

= disgo (*plural -s*) *masculine*

disconnect *verb*

= datgysylltu

discourage *verb*

- (make downhearted)
= digalonni

- (persuade not to)
= perswadio i °beidio

to discourage someone from doing

something = perswadio rhywun i

°beidio gwneud rhywbeth

discover *verb*

= darganfod (*stem* darganfydd-)

discovery *noun*

= darganfyddiad (*plural -au*) *masculine*

discriminate *verb*

to discriminate against someone = dangos anffafiaeth i^o rywun

discrimination *noun*

- (*in someone's favour*) = ffafiaeth *feminine*
- (*against someone*) = anffafiaeth *feminine*

discuss *verb*

= trafod

discussion *noun*

= trafodaeth (*plural*-au) *feminine*
a discussion about politics = trafodaeth ar ^owleidyddiaeth

disease *noun*

- (*illness*) = clefyd (*plural*-au, -on) *masculine*
- (*infection*) = haint (*plural* heintiau) *masculine*

disgrace *noun*

= gwarth *masculine*

disgraceful *adjective*

= gwarthus

disguise**1** *noun*

= cuddwisg (*plural*-oedd) *feminine*

2 *verb*

- (*with clothes*) = cuddwisgo
- (*conceal*) = cuddio

disgusting *adjective*

= fffiaidd, ysglyfaethus

dish *noun*

= dysgl (*plural*-au) *feminine*

dishes *noun*

= llestri *plural*

to do the dishes = golchi'r llestri

dishonest *adjective*

= anonest

dishwasher *noun*

= peiriant golchi llestri (*plural* peiriannau golchi llestri) *masculine*

dislike *verb*

I dislike him = dw i ^oddim yn hoff ohono fe, dw i ^oddim yn leicio or hoffi fe

I dislike dogs = dw i ^oddim yn hoff o

^ogŵn, dw i ^oddim yn leicio/hoffi cŵn, ^ogas gen i ^ogŵn

dismiss *verb*

- (*from job*) = diswyddo
- (*treat as unimportant*) = diystyru

disobedient *adjective*

= anufudd

disobey *verb*

= anufuddhau

disorganised *adjective*

= anhrefnus, anniben

display *verb*

= arddangos

pay and display car park = maes parcio talu ac arddangos

dispute**1** *noun*

= dadl (*plural*-euon) *feminine*

2 *verb*

- (*argue*) = dadlau
- (*challenge*) = herio

dissatisfied *adjective*

= anfodlon

to be dissatisfied with something =

bod yn anfodlon â^h rhywbeth / ar^o rywbeth

dissertation *noun*

= traethawd (*plural* traethodau) *masculine*

distance *noun*

= pellter (*plural*-au, -oedd) *masculine*

in the distance = yn y pellter, ymhell

to keep one's distance = cadw draw

distant *adjective*

= pell

distinct *adjective*

- (*different*) = gwahanol
- (*definite*) = penodol, pendant

distinguish *verb*

to distinguish between A and B = gwahaniaethu rhwng A a B

distract *verb*

to distract someone from his work =
tynnu sylw rhywun oddiar ei °waith

distressed *adjective*

= gofidus

distressing *adjective*

= gofidus

distribute *verb*

- (hand out)
= dosbarthu
- (share)
= rhannu

district**1** *adjective*

= rhanbarthol

2 *noun*

- (general senses)
= ardal (*plural* -oedd) *feminine*, cylch
(*plural* -oedd) *masculine*
- (administrative)
= rhanbarth (*plural* -au) *masculine*

disturb *verb*

= aflonyddu, rhwystro

dive *verb*

= penllamu, plymio

diversion *noun*

(for traffic)
= gwyrriad (*plural* -au) *masculine*

divert *verb*

diverted traffic = traffig osgoi

divide *verb*

- = rhannu
to divide thirty by six = rhannu trideg â
chwech
- = ymrannu
the road divides = mae'r ffordd yn
ymrannu

divorce**1** *noun*

= ysgariad (*plural* -au) *masculine*

2 *verb*

= ysgaru, cael ysgariad
they are getting divorced = maen
nhw'n mynd i ysgaru, maen nhw'n
mynd i °gael ysgariad
they are divorced = maen nhw wedi
ysgaru, maen nhw wedi cael
ysgariad

DIY *needs postp*

DIY shop = siop crefftau'r cartref
(*plural* siopau crefftau'r cartref)
feminine

DIY enthusiast = crefftwr cartref (*plural*
crefftwyr cartref) *masculine*

dizzy *adjective*

I feel dizzy = mae °mhen i'n troi
he felt dizzy = roedd ei °ben e'n troi

do *verb*

! This verb has a very wide range of meanings and uses in English. A frequent and important use is as an auxiliary in various circumstances, and particular care is needed to make the right choice in Welsh in each case.

- (general senses)
= gwneud (*irregular*)
to do the shopping = gwneud y gwaith
siopa
he's doing his homework = mae'n
gwneud ei °waith cartre
do as you please = gwnewch fel y
mynnoch chi
do your best = gwna dy °orau
they'll do it later = nân nhw fe wedyn
they didn't do anything = naethon nhw
°ddim byd
- (in present tense negatives and questions)
do you speak Welsh? = dych chi'n
siarad Cymraeg?
I don't live there now = dw i °ddim yn
byw yno bellach
- (in past tense negatives and questions)
did you see them? = °welest ti nhw?, nest
ti °weld nhw?, ddaru ti °weld nhw?
(North)
she didn't come = °ddaeth hi °ddim,
naeth hi °ddim dod, ddaru hi °ddim
dŵad (North)
- (in prohibitions)
don't shout like that! = paid gweiddi fel
'ny!
don't wait for us = peidiwch aros
amdanon ni
don't be angry = paid bod yn °grac
don't worry = peidiwch poeni
- (in tags and short answers)
Dafydd phoned, didn't he? = mi
ffoniodd Dafydd, on'°do?

she speaks Welsh, doesn't she? =

mae hi'n siarad Cymraeg, on'd ydy?

'I like them'—'so do I' = 'dw i'n hoffi
nhw—'a finnau'

'I don't like this'—'neither do I' = 'dw i
°ddim yn hoffi hwn'—'na finnau'

'will you come?'—'I might do' = '°ddoi
di?'—'efallai'

• (*idioms*)

something to do with computers =

rhywbeth yn ymwneud â

^hchyfrifiaduron

that has nothing to do with me = does a

nelo hynny â fi

they can do without it = mi °allan nhw
°fyw hebddi

do up

• (*garment*)

= cau (*stem cae-*)

• (*renovate*)

= adnewyddu

dock *noun*

= doc (*plural -iau*) *masculine*

doctor *noun*

= meddyg (*plural -on*) *masculine*, doctor
(*plural -iaid*) *masculine*

to go to the doctor's = mynd at y
meddyg

document *noun*

= dogfen (*plural -ni, -nau*) *feminine*

documentary *noun*

(*programme*)

= rhaglen °ddogfennol (*plural rhaglenni*
dogfennol) *feminine*

dog *noun*

= ci (*plural cŵn*) *masculine*

dole *noun*

on the dole = ar y clwt

doll *noun*

= dol (*plural -iau*) *feminine*, doli (*plural -s*)
feminine

dollar *noun*

= doler (*plural -i*) *feminine*

dolphin *noun*

= dolfîn (*plural -od*) *masculine*

domino *noun*

= dominô (*plural -s*) *masculine*

to play dominoes = chwarae (*stem*
chwarae-) dominôs

donate *verb*

= rhoi (*stem rhoi-, rhodd-*) yn anrheg

donated by ... = rhoddedig gan° ...

donation *noun*

= rhodd (*plural -ion*) *feminine*

donkey *noun*

= asyn (*plural -nod*) *masculine*

don't

= paid... (*singular*), peidiwch... (*plural*);

paid â^h..., peidiwch â^h...

don't wait for us = paid aros amdanon

ni, paid ag aros amdanon ni

don't lose the money = paid colli'r

arian, paid â^hcholli'r arian

don't sit there = peidiwch eistedd fan

'na, peidiwch ag eistedd fan 'na

! The versions with â are more formal in style, except in the emphatic construction **paid ti â ...!**, 'don't you...!', where it is normal even in speech.

door *noun*

= drws (*plural drysau*) *masculine*

there's someone at the door = mae
rhywun wrth y drws

doorbell *noun*

= cloch drws (*plural clychau drysau*)
feminine

dormitory *noun*

= (y)stafell °gysgu (*plural (y)stafelloedd*
cysgu) *feminine*

dose *noun*

= dogn (*plural -au*) *masculine*

double *adjective*

= dwb(w)l

to play doubles = chwarae (*stem*
chwarae-) mewn parau

double bass *noun*

= bas dwb(w)l (*plural basau dwb(w)l*)

masculine, basgrwth (*plural*
basgrythau) *masculine*

double bed *noun*

= gwely dwbwl (*plural gwelyau dwbwl*)
masculine

double-decker *noun*

= bws deulawr (*plural bysiau deulawr*)
masculine

double room *noun*

= stafell °ddwblw (*plural* stafelloedd dwblw) *feminine*

doubt**1** *noun*

= amheuaeth (*plural* amheuan) *feminine*

there's no doubt about it = does dim dwywaith amdani

no doubt he'll be along later = mi °ddaw nes ymlaen, mae'n °debyg, mae'n °debyg y daw e nes ymlaen

without a doubt = yn °ddi-os = heb os nac onibai

2 *verb*

= amau (*stem* amheu-)

dough *noun*

= toes *masculine*

doughnut *noun*

= toesen (*plural*-ni) *feminine*

down *adverb*

= lawr, i lawr

he ran down the road = fe °redodd e (i) lawr y ffordd

prices have gone down = mae prisiau wedi mynd (i) lawr

down there = lawr fan 'na

down here = lawr fan hyn

! **lawr** and **i lawr** are interchangeable, with **i lawr** the more formal of the two.

downstairs *adverb*

= (i) lawr y grisiau, (i) lawr staer

dozen *noun*

= dwsin (*plural*-au) *masculine*

a dozen eggs = dwsin o wyau

dozens (*indeterminate number*) = ugeiniau

! When used with a following noun, this noun, either singular or plural, requires o°.

draft *noun* (US)

there's a draft here = mae hi'n tynnu fan hyn

drag *verb*

= llusgo, tynnu

dragon *noun*

= draig (*plural* dreigiau) *feminine*

the Red Dragon = y Ddraig Goch

drain *noun*

= ffos (*plural*-ydd) *feminine*, draen (*plural* dreiniau) *feminine*

drama *noun*

= drama (*plural* dramâu) *feminine*

dramatic *adjective*

= dramatig

drapes *plural noun* (US)

= llenni *plural*

draught *noun*

there's a draught here = mae hi'n tynnu fan hyn

draughts *plural noun*

(*game*)

= drafftiau *plural*

draw**1** *verb*

• (*pull*)

= tynnu

to draw the curtains = tynnu'r llenni

• (*with pencil*)

= tynnu

to draw a map = tynnu map

• (*attract*)

= denu

to draw someone's attention to something = tynnu sylw rhywun at°

rywbeth

2 *noun*

• (*raffle etc*)

= tyniad (*plural*-au) *masculine*

• (*drawn game*)

= gêm °gyfartal (*plural* gemau cyfartal) *feminine*

• (*attraction*)

= atyniad (*plural*-au) *masculine*

draw back

• (*retreat*)

= tynnu'n ôl

• **to draw back the curtains** = tynnu'r llenni

draw up

• (*plans*)

= llunio

• (*of car*)

= stopio

drawer *noun*

= drôr (*plural*-s or droriau) *masculine* or *feminine*

drawing *noun*

= darlun (*plural*-iau) *masculine*

dread *verb*

= ofni

dreadful *adjective*

= ofnadwy, dychrynlyd, erchyll

dream**1** *noun*= breuddwyd (*plural -ion*) *masculine or feminine***a bad dream** = hunllaf (*plural -au*) *feminine***2** *verb*

= breuddwydio

to dream about something = breuddwydio am ° rywbeth**drench** *verb*

= gwlychu

we got drenched = fe °gaethon ni'n gwlychu**dress****1** *noun*• (*item of clothing*)= ffrog (*plural -iau*) *feminine*• (*costume*)= gwisg (*plural -oedd*) *feminine***2** *verb*

= gwisgo

dress up

= gwisgo

dressed *adjective***to be dressed in something** = gwisgo rhywbeth**dressing gown** *noun*= gŵn llofft (*plural gynau llofft*) *masculine***drill****1** *noun*= dril (*plural -iau*) *masculine***2** *verb*

= tyllu, drilio

drink**1** *noun*= diod (*plural -ydd*) *feminine***can I buy you a drink?** = °ga i °brynu diod i chi?**2** *verb*= yfed (*stem yf-*)**he drank too much** = mi yfodd e °ormod**drive****1** *verb*• (*car etc*)

= gyrru

I don't like driving = dw i °ddim yn hoffi gyrru• (*impel*)

= ysgogi

what drives him? = beth sy'n ysgogi fe?**2** *noun***to go for a drive** = mynd am °dro yn y car**drive away**= gyrru i ffwrdd (*North*), gyrru bant (*South*)**driver** *noun*= gyrrwr (*plural gyrrwyr*) *masculine***driving licence** *noun*= trwydded °yrru (*plural trwyddedau gyrru*) *feminine***drizzle****1** *noun*= glaw mân *masculine***2** *verb*

= bwrw glaw mân

drop**1** *noun*= diferyn (*plural diferion*) *masculine***2** *verb*= gollwng (*stem gollyng-*), cwympo**you've dropped your gloves** = dych chi wedi cwympo'ch menig**drop by**

= galw heibio

drop in**to drop in on someone** = galw heibio i° rywun**drop off**• (*fall*)

= syrthio, cwympo

• (*set down from car etc*)**I'll drop you off here** = na i °adael chi fan hyn• (*go to sleep*)

= mynd i °gysgu

drop out• (*withdraw*)

= tynnu'n ôl

• (*give up*)= rhoi (*stem rhoi-, rhodd-*) 'r gorau i°**drought** *noun*= sychder (*plural -au*) *masculine***drown** *verb*

= boddi

drug *noun*= cyffur (*plural -iau*) *masculine*

drug addict *noun*

- = caeth i °gyffuriau (*plural* caethion i °gyffuriau) *masculine*
- = caethes i °gyffuriau (*plural* caethesau i °gyffuriau) *feminine*

drug addiction *noun*

- = caethiwed i °gyffuriau *masculine*

druggist *noun* (US)

- = fferyllydd (*plural* fferyllwyr) *masculine*

drugstore *noun* (US)

- = fferyllfa (*plural* fferyllfeydd) *feminine*

drum *noun*

- = drwm (*plural* drymiau) *masculine*

drunk**1** *adjective*

- = meddw, wedi meddwi

blind drunk = meddw °gaib, meddw'n racs

to get drunk = meddwi, mynd yn °feddw

2 *noun*

- = meddwyn (*plural* meddwon) *masculine*

dry**1** *adjective*

- = sych

2 *verb*

- = sychu

duck**1** *noun*

- = hwyaden (*plural* hwyaid) *feminine*

2 *verb*

- = gostwng (*stem* gostyng-) pen

due *adjective*• (*for payment*)

- = dyledus

• (*proper, fair*)

- = teg

• **when is the bus due?** = pryd mae'r bws i °fod i °gyrraedd?

• **due to something** (*because of*) =

- oherwydd rhywbeth, o achos rhywbeth

dull *adjective*

- = diflas

dumb *adjective*• (*unable to speak*)

- = mud

• (US: *stupid*)

- = twp

dump *noun*• (*for rubbish etc*)

- = tomen (*plural*-ni) *feminine*

• (*pejorative: place*)

- = twll o °le *masculine*

dune *noun*

- = twyn (*plural*-i) *masculine*

during *preposition*

- = yn ystod

during the war = yn ystod y rhyfel

dusk *noun*

- = cyfnos (*plural*-au) *masculine*

at dusk = gyda'r nos, gyda'r cyfnos

dust**1** *noun*

- = llwch *masculine*

2 *verb*

- = tynnu llwch, dwstio

dustbin *noun*

- = bin sbwriel (*plural* biniau sbwriel) *masculine*

dustman *noun*

- = dyn y biniau (*plural* dynion y biniau) *masculine*

dustpan *noun*

- = rhaw °lwch (*plural* rhawiau llwch)

feminine, padell °lwch (*plural* padellau llwch) *feminine*

dusty *adjective*

- = llychlyd

duty *noun*• (*obligation*)

- = dyletswydd (*plural*-au) *feminine*

to be on duty = bod ar °ddyletswydd

• (*tax*)

- = toll *feminine*

duty-free *adjective*

- = di-°doll

duvet *noun*

- = duvet (*plural*-s) *masculine*, cwilt (*plural*-iau) *masculine*

dwelling *noun*

- = preswylfa (*plural* preswylfeydd) *feminine*

dye**1** *noun*

- = lliw (*plural*-iau) *masculine*

2 *verb*

- = lliwio

Ee

each**1** *adjective*

= pob

each room = pob stafell**each one is different** = mae pob un yn °wahanol**2** *pronoun*

= pob un

each of them has a car = mae gan °bob un ohonyn nhw °gar**twenty pence each** = ugain ceiniog yr un**3** *each other* *pronoun*

! *There is a special phrase for each other depending on who it refers to:*
 ei gilydd (referring to 'them')
 ein gilydd (referring to 'us')
 eich gilydd (referring to 'you')

they hate each other = maen nhw'n casáu ei gilydd**we'll help each other** = nawn ni helpu'n gilydd**did you recognise each other?** = naethoch chi adnabod eich gilydd?**eager** *adjective*

= awyddus, taer

eagle *noun*= eryr (*plural -od*) *masculine***ear** *noun*= clust (*plural -iau*) *feminine or masculine***I'm all ears** = dw i'n °glustiau i gyd**earache** *noun***she's got earache** = mae gynni hi °bigyn yn y °glust (*North*), mae clust °dost 'da hi (*South*)**earlier** *adverb*

= °gynt

early *adjective*

= cynnar

earmark *verb*

= clustnodi

earn *verb*= ennill (*stem enill-*)**earring** *noun*= clustdlws (*plural clustdlysau*) *masculine***earth** *noun*• (*planet*)= daear *feminine*, byd *masculine*• (*soil*)= pridd *masculine***earthquake** *noun*= daeargryn (*plural -fâu or -feydd*) *masculine or feminine***easier** *adjective*

= haws

it's easier this way = mae'n haws ffordd hyn**easier said than done** = haws dweud na gwneud

! *This is the standard, and irregular, formation from hawdd easy—some speakers use a regular form hawddach, and a combined form hawsach is also common.*

easily *adverb*

= yn hawdd

east**1** *adverb***to go east** = mynd i'r dwyrain, mynd tua'r dwyrain**2** *noun*= dwyrain *masculine***in the east of Wales** = yn °nwyrain Cymru**to the east of here** = i'r dwyrain o fan hyn**the Middle East** = y Dwyrain Canol**the Far East** = y Dwyrain Pell**Easter** *noun*= (y) Pasg *masculine***Happy Easter!** = Pasg Hapus!**Easter Sunday** = Sul y Pasg**Easter Monday** = Llun y Pasg**Easter egg** *noun*= ŵy Pasg (*plural wyau Pasg*) *masculine***easterly** *adjective*

= dwyreiniol, o'r dwyrain

easy *adjective*

= hawdd, rhwydd

it's easy to forget = mae'n hawdd anghofio

it's not easy to get work here = dydy hi
°ddim yn hawdd i °gael gwaith fan hyn

eat *verb*

= bwyta

eat out = mynd allan i °fwyta

EC *noun*

= y °Gymuned Ewropeaidd *feminine*

echo *noun*

= atsain (*plural* atseiniau) *feminine*

economic *adjective*

= economaidd

economics *noun*

= economeg *feminine*

economize *verb*

= cynilo

economy *noun*

= economi (*plural* economïau) *feminine*
or *masculine*

edge *noun*

• (*general*)

= ymyl (*plural* -on) *masculine* or *feminine*

on the edge of town = ar ymyl(on) y
°dre

• (*of knife etc*)

= min *masculine*

educate *verb*

= addysgu

he was educated in Wales = cafodd ei
addysg yng °Nghymru

education *noun*

= addysg *feminine*

effect *noun*

= effaith (*plural* effeithiau) *feminine*

to have an effect on something =
effeithio ar° rywbeth

effective *adjective*

= effeithiol

efficient *adjective*

= effeithiol

effort *noun*

= ymdrech (*plural* -ion) *masculine* or
feminine

to make an effort = ymdrechu

egg *noun*

= wŷ (*plural* wyau) *masculine*

eggcup *noun*

= cwpan wŷ (*plural* cwpanau wŷ)
masculine or *feminine*

eight *numeral*

= wyth

eight cats = wyth cath, wyth o °gathod

eight pounds (*money*) = wyth
punt°bunt

eight days = wyth °niwrnod/diwrnod

eight years = wyth °mlynedd

eight years old = wyth °mlwydd oed

at eight o'clock = am wyth o'r °gloch

I have eight = mae gen i wyth (*North*),
mae wyth 'da fi (*South*)

eighteen *numeral*

= deunaw, undeg wyth

eighteen pounds = deunaw punt,
undeg wyth o °bunnoedd

eighteenth *adjective*

= deunawfed (*precedes noun*)

the eighteenth book = y deunawfed
llyfr

the eighteenth year = y °ddeunawfed
°flwyddyn

on the eighteenth of September = ar y
deunawfed o °Fedi

eighth *adjective*

= wythfed (*precedes noun*)

the eighth month = yr wythfed mis

the eighth year = yr wythfed
°flwyddyn

eighty *numeral*

= wythdeg

eighty apples = wythdeg o afalau

eighty years = wythdeg o °flynyddoedd

eighty years old = wythdeg oed

eisteddfod *noun*

= eisteddfod (*plural* -au) *feminine*

either

1 *conjunction*

= naill ai

either tea or coffee = naill ai te neu
°goffi, te ynteu coffi

2 *pronoun*

take either of them = cymerwch naill
ai'r un neu'r llall

3 *adjective*

take either book = cymerwch yr un
llyfr neu'r llall

4 *adverb*

• (*in negative sentences—not ... either*)
= chwaith

I can't see them either = °alla i mo'u
gweld nhw chwaith

elastic band *noun*

= dolen elastig (*plural* dolennau or dolenni elastig) *feminine*

elbow *noun*

= penelin (*plural* -oedd) *masculine* or *feminine*

elder *adjective*

= hŷn

elderly *adjective*

= oedrannus, mewn oed

eldest *adjective*

= hyna(f)

elect *verb*

= ethol

election *noun*

= etholiad (*plural* -au) *masculine*

to win an election = ennill (*stem* enill-) etholiad

electric *adjective*

= trydanol, trydan

electrician *noun*

= trydanwr (*plural* trydanwyr) *masculine*

electricity *noun*

= trydan *masculine*

elegant *adjective*

= cain

element *noun*

= elfen (*plural* -nau) *feminine*

he's in his element = mae e wrth ei °fodd

she's in her element = mae hi wrth ei bodd

I'm in my element = dw i wrth 'y °modd

elephant *noun*

= eliffant (*plural* -od) *masculine*

elevator *noun* (US)

= lifft (*plural* -iau) *feminine*

eleven *numeral*

= unarddeg, undeg un

eleven people = unarddeg o °bobol

at eleven o'clock = unarddeg o'r °gloch

eleven years = un °flwyddyn ar °ddeg, undeg un o °flynyddoedd

eleven years old = blwydd ar °ddeg oed, undeg un °mlwydd oed

I have eleven = mae gen i

unarddeg/undeg un (*North*), mae unarddeg/undeg un 'da fi (*South*)

eleventh *adjective*

= unfed ar °ddeg

the eleventh month = yr unfed mis ar °ddeg

else**1** *adverb*

= arall

someone else = rhywun arall

something else = rhywbeth arall

somewhere else = rhywle arall

everyone else = pawb arall

everything else = popeth arall

nothing else = dim byd arall

no-one else = neb arall

2 *or else* (*otherwise*)

= fel arall

elsewhere *adverb*

= rhywle arall

e-mail**1** *noun*

= e-bost *masculine*

2 *verb*

to e-mail someone = danfon e-bost at° rywun

embarrassed *adjective*

= annifyr

embarrassing *adjective*

= annifyr

embassy *noun*

= llysgenhadaeth (*plural* llysgenadaethau) *feminine*

emergency *noun*

= argyfwng (*plural* argyfyngau) *masculine*

in an emergency = mewn argyfwng

emergency exit *noun*

= allanfa °frys (*plural* allanfeydd brys)

feminine, dihangfa (*plural* dihangfeydd) *feminine*

emergency services *plural noun*

= gwasanaethau brys

emigrate *verb*

= ymfudo, gadael (*stem* gadaw-) y °wlad

they've emigrated = maen nhw wedi gadael y °wlad

emotion *noun*

= emosiwn (*plural* emosiynau)
masculine

emotional *adjective*

= emosiynol

emperor *noun*

= ymerawdwr (*plural* ymerawdwyr)
masculine

emphasis *noun*

= pwyslais *masculine*

emphasize *verb*

= pwysleisio

to emphasize something = pwysleisio
 rhywbeth, rhoi (*stem* rhoi-, rhodd-) 'r
 pwyslais ar^o rywbeth

employ *verb*

- (*give work to*)
 = cyflogi
- (*use*)
 = defnyddio

employed *adjective*

to be employed = bod â gwaith

= bod â swydd

to be employed as a driver = gweithio
 fel gyrrwr

employee *noun*

= cyflogedig (*plural*-ion) *masculine*

employer *noun*

= cyflogwr (*plural* cyflogwyr) *masculine*

employment *noun*

= cyflogaeth *feminine*

to find employment = cael gwaith
 = cael swydd

empty**1** *adjective*

= gwag

2 *verb*

= gwacáu

enable *verb*

= galluogi

to enable someone to do something =
 galluogi rhywun i ^owneud rhywbeth

enchant *verb*

= swyno

enchanting *adjective*

= swynol

enclose *verb*

= amgau (*stem* amgae-)

I enclose two tickets = amgaeaf^oddau
^odocyn

enclosed *adjective*

- (*with letter*)
 = amgaeëdig

encourage *verb*

- (*give courage to*)
 = calonogi
- (*persuade, urge*)
 = annog

end**1** *noun*

- (*final part*)
 = diwedd (*plural*-ion) *masculine*, terfyn
 (*plural*-au) *masculine*

the end of the programme = diwedd y
 rhaglen

at the end = ar y diwedd

in the end = yn y diwedd

at the end of August = ^oddiwedd mis
 Awst

- (*furthest part*)
 = pen *masculine*

the end of the street = pen y stryd

2 *verb*

- (*come to an end*)
 = diweddu, dod i ^oben
- (*put an end to*)
 = rhoi pen/terfyn/diwedd ar^o

end up

they ended up in Bangor = aethon nhw
 i ^oFangor yn y diwedd

he ended up a teacher = mi aeth yn
 athro yn y diwedd

endearing *adjective*

= annwyl

ending *noun*

= diwedd (*plural*-ion) *masculine*

endless *adjective*

- (*without ceasing*)
 = dibaid
- (*with no end*)
 = diderfyn, di-ben-draw

endlessly *adverb*

= yn ^oddiderfyn, yn ^oddibaid

enemy *noun*

= gelyn (*plural*-ion) *masculine*

energetic *adjective*

= egniol

energy *noun*

= egni (*plural* egniön) *masculine*, ynni
masculine

engaged *adjective*

- (to be married)
to get engaged = dyweddio
they're engaged = maen nhw wedi dyweddio
- (phone line)
= prysur
the line is engaged = mae'r lein yn °brysur

engine *noun*

- = peiriant (*plural* peiriannau)
masculine, injan (*plural-s*) *feminine*

engineer *noun*

- = peiriannydd (*plural* peirianwyr)
masculine

England *noun*

- = Lloegr *feminine*

English**1** *adjective*

- (language)
= Saesneg
- (pertaining to England)
= Seisnig

2 *noun*

- (language)
= Saesneg
- (people)
= y Saeson *plural*

English-only *adjective*

- (language) = uniaith Saesneg
an English-only document = dogfen uniaith Saesneg

Englishman *noun*

- = Sais (*plural* Saeson) *masculine*

Englishwoman *noun*

- = Saesnes (*plural-au*) *feminine*

enjoy *verb*

- = mwynhau (*stem* mwynheu-)
- to enjoy doing something = mwynhau gwneud rhywbeth
- did you enjoy the trip? = naethoch chi °fwynhau'r °daith?

enjoyable *adjective*

- = dymunol, hyfryd

enjoyment *noun*

- = mwynhad *masculine*

enliven *verb*

- = bywiogi

enormous *adjective*

- = anferth, enfawr

enough**1** *adverb*

- = digon
- this isn't big enough = dyw hwn °ddim yn °ddigon mawr

2 *pronoun*

- = digon (o°)
- enough food = digon o °fwyd
- have you got enough? = oes gen ti °ddigon?
- that's enough = mae hynny'n °ddigon
- not enough (*insufficient*) = annigonol
- to have enough of something (*ie in excess*) = syrffedu ar° rywbeth

! digon requires o° with a following noun.

enquire *verb*

- = ymholi, gofyn (*stem* gofynn-)
- !ll enquire over there = na i °ofyn draw fan'na

enquiry *noun*

- = ymholiad (*plural-au*) *masculine*
- to make enquiries = holi, ymholi

ensure *verb*

- = sicrhau

enter *verb*

- (go in)
= mynd i mewn, dod i mewn
- (compete)
= cystadlu
- to enter a race = cystadlu mewn ras

enterprise *noun*

- = menter (*plural* mentrau) *feminine*, busnes (*plural-au*) *masculine*

entertain *verb*

- = difyrru, adlonni

entertaining *adjective*

- = difyr

entertainment *noun*

- = adloniant *masculine*

enthusiastic *adjective*

- = brwd, brwdfrydig

enthusiasm *noun*

- = brwdfrydedd *masculine*

entirely *adverb*

- = hollol, cwb(w)

! Both these adverbs cause soft mutation of a following adjective:

entirely unnecessary = hollol/cwbwl
°ddiangan

entrails *plural noun*
= perfedd *masculine*, perfeddion
masculine plural

entrance *noun*
• (way in)
= mynedfa (*plural mynedfeydd*) *feminine*
• (admittance)
= mynediad *masculine*

entry *noun*
• (admittance)
= mynediad *masculine*
• (in competition)
= cais (*plural ceisiadau*) *masculine*

envelope *noun*
= amlen (*plural -ni*) *feminine*

environment *noun*
= amgylchedd (*plural -au*) *masculine*,
amgylchfyd (*plural -oedd*) *masculine*

envy
1 *noun*
= cenfigen *feminine*

2 *verb*
to envy someone = bod yn
°genfigennus o° rywun

episode *noun*
= pennod (*plural* penodau) *feminine*

equal *adjective*
= cyfartal

equality *noun*
= cyfartalwch *masculine*, cydraddoldeb
masculine

equally *adverb*
= yr un mor° + *adjective*

! yr un mor° displaces the **yn°** that
we would expect in **bod-** sentences:
he is guilty = mae e'n euog
he is equally guilty = mae e yr un
mor euog

equal opportunities *plural noun*
= cyfleoedd cyfartal *plural*

equator *noun*
= cyhydedd (*plural -au*) *masculine*

equipment *noun*
= cyfarpar *masculine*, offer *plural*
translation equipment = cyfarpar
cyfieithu

era *noun*
= cyfnod (*plural -au*) *masculine*, oes
(*plural -oedd or -au*) *feminine*

eraser *noun*
= rwbwr (*plural -au or -i*) *masculine*

error *noun*
= gwall (*plural -au*) *masculine*,
camgymeriad (*plural -au*) *masculine*

escalator *noun*
= esgaladur (*plural -on*) *masculine*

escape *verb*
• (get away)
= dianc (*stem* dihang-)
to escape from prison = dianc o'r
carchar
• (avoid)
= osgoi

especially *adverb*
= yn enwedig, yn arbennig
especially in winter = yn
enwedig/arbennig yn y gaea

**! especially + adjective is usually
arbennig o° + adjective:**
This one is good = Mae hwn yn °dda
This one is especially good = Mae
hwn yn arbennig o °dda

essay *noun*
= traethawd (*plural* traethodau)
masculine

essential *adjective*
= hanfodol

essentially *adverb*
= yn ei hanfod

establish *verb*
= sefydlu

estate *noun*
= stad (*plural -au*) *feminine*, ystad (*plural*
-au) *feminine*

estate agent *noun*
= gwerthwr tai (*plural* gwerthwyr tai)
masculine

estimate
1 *noun*
= amcangyfri(f) (*plural* amcangyfrifon)
masculine

2 *verb*
= amcangyfri(f)

eternal *adjective*
= tragwyddol

ethnic *adjective*
= ethnig

Europe *noun*
= Ewrop *feminine*

European

1 *adjective*
= Ewropeaidd

2 *noun*
= Ewropead (*plural* Ewropeaid)
masculine and feminine

European Union *noun*
= yr Undeb Ewropeaidd *masculine*

evacuate *verb*

- (*building*)
= gwacáu
- (*people*)
= symud allan

even

- 1** *adverb*
- (*expressing surprise*)
= hyd yn oed
he didn't even reply = naeth e °ddim ateb hyd yn oed
even Aled knows that = mae hyd yn oed Aled yn gwybod hynny
 - (*with comparisons*)
= fyth
this one is even more expensive = mae hwn yn °ddrutach fyth

! fyth in this use shows a fixed and permanent soft mutation.

- even though
= er (+ 'that...' clause)
I'll come even though I'm ill = mi °ddo i er °mod i'n sâl

- 2** *adjective*
- (*flat*)
= gwastad
 - (*equal*)
= cyfartal
even number = eilrif (*plural*-au) *masculine*

evening *noun*

= nos, noson, noswaith (*plural* nosweithiau)
good evening! = noswaith °dda!
in the evening = yn yr hwyr
this evening = heno

tomorrow evening = nos yfory
yesterday evening = neithiwr
all evening = trwy'r noson

event *noun*
= digwyddiad (*plural*-au) *masculine*

eventually *adverb*
= yn y diwedd, yn y pen draw

ever *adverb*
• (*at any time*)
= byth; erioed

have you ever been to Ireland? = °fuoch chi erioed yn Iwerddon?

we didn't ever see them again = °welon ni byth mohonyn nhw 'to

he's as lazy as ever = mae e mor °ddiog ag erioed

! byth and erioed are *not* interchangeable—see *Welsh-English entries* for details of the difference between them.

- every** *adjective*
= pob (*mutates in adverbial expressions*)
every house is different = mae pob tŷ'n °wahanol
every day = °bob dydd
every week = °bob wythnos
every year = °bob blwyddyn
every time = °bob tro
every other week = °bob yn ail wythnos
every third week = °bob yn °drydedd wythnos
two out of every three = dau allan o °bob tri
every bit as ... as ... = yr un mor° ... â^h ... = °lawn mor° ... â^h ...

everybody *pronoun*
= pawb
everybody else = pawb arall

everyone *pronoun*
= pawb
everyone else = pawb arall

everything *pronoun*
= popeth
everything else = popeth arall

everywhere *adverb*
= ymhobman
everywhere else = ymhobman arall

evidence *noun*
= tystiolaeth (*plural*-au) *feminine*

to give evidence = tystio

to be in evidence = bod yn amlwg
= bod i'w °weld

evil

1 *adjective*
= drwg

2 *noun*
= drygioni *masculine*

exact *adjective*

- (*precise*)
= union
- (*detailed*)
= manwl

exactly *adverb*
= yn union, i'r dim

exaggerate *verb*
= gorliwio

exam *noun*
= arholiad (*plural*-au) *masculine*
to sit/take an exam = sefyll (*stem* sef- or saf-) arholiad
to pass an exam = pasio arholiad
to fail an exam = methu arholiad

examine *verb*
= archwilio

example *noun*
= enghraifft (*plural* enghreifftiau) *feminine*, esiampl (*plural*-au) *feminine*
for example = er enghraifft (*abbreviation* e.e.)

exceedingly *adverb*
= dros ben (*follows adjective*)
exceedingly good cakes = cacennau blasus dros ben

excellent *adjective*
= ardderchog, rhagorol, campus

except *preposition*
= heblaw (or 'blaw), ac eithrio, ar wahân i°

exchange

1 *noun*
(*place*) = cyfnewidfa (*plural* cyfnewidfeydd) *feminine*
in exchange for something = yn °gyfnewid am° rywbeth

2 *verb*
= cyfnewid (*stem* cyfnewidi-)
to exchange something for something else = cyfnewid rhywbeth am° rywbeth arall

exchange rate *noun*
= cyfradd °gyfnewid (*plural* cyfraddau cyfnewid) *feminine*

excited *adjective*
to get excited = cynhyrfu
to be excited = bod yn llawn cyffro

exciting *adjective*
= cyffrous

exclude *verb*
= cau (*stem* cae-) allan, cadw (*stem* cadw-) allan

excursion *noun*
= gwibdaith (*plural* gwibdeithiau) *feminine*

excuse
1 *noun*
= esgus (*plural*-ion) *masculine*

2 *verb*
= esgusodi
excuse me! = esgusodwch fi!

exercise
1 *noun*
= ymarfer (*plural*-ion) *masculine*
to do exercises = gwneud ymarferion

2 *verb*
= ymarfer

exercise book *noun*
= llyfr (y)sgrifennu (*plural* llyfrau (y)sgrifennu) *masculine*

exert *verb*
to exert oneself = ymdrechu

exhausted *adjective*
I'm exhausted = dw i wedi blino'n lân

exhibition *noun*
= arddangosfa (*plural* arddangosfeydd) *feminine*

exit
1 *noun*
= allanfa (*plural* allanfeydd) *feminine*

2 *verb*
= mynd allan

expand *verb*
= ehangu
to expand on something = ehangu ar° rywbeth

expect *verb*
= disgwyl (*stem* disgwyli-)
to expect to do something = disgwyl gwneud rhywbeth

to expect something to happen =
disgwyl i^o rywbeth ^oddigwydd
they expect us to do the work = maen
nhw'n disgwyl inni ^owneud y gwaith

expectation *noun*= disgwyl *masculine***according to expectations** = yn ôl y
disgwyl**expense** *noun*

• (cost)

= cost (*plural*-au) *feminine*

• (detriment)

at the expense of something = ar
^odraul rhywbeth**expense account** *noun*= cyfri(f) treuliau (*plural* cyfrifon
treuliau) *masculine***expenses** *plural noun*= treuliau *plural*, costau *plural***travelling expenses** = treuliau/costau
teithio**expensive** *adjective*

= drud, costus

experience**1** *noun*= profiad (*plural*-au) *masculine***2** *verb*

= profi

experienced *adjective*

= profiadol

experiment**1** *noun*= arbrawf (*plural* arbrofion) *masculine***2** *verb*

= arbrofi

expert *noun*= arbenigwr (*plural* arbenigwyr)
*masculine***a computer expert** = arbenigwr mewn
cyfrifiaduron**explain** *verb*

= esbonio, egluro

to explain something to someone =
esbonio/egluro rhywbeth i ^orywun**explanation** *noun*= esboniad (*plural*-au) *masculine***explode** *verb*

= ffrwydro

exploit *verb*

• (use)

= defnyddio

• (misuse, treat unfairly)

= camddefnyddio

explosion *noun*= ffrwyriad (*plural*-au) *masculine***explosive****1** *adjective*

= ffrwydrol

2 *noun*= ffrwydryn (*plural* ffrwydron)
*masculine***export****1** *verb*

= allforio

2 *noun*

• (object)

= allforyn (*plural* allforyn) *masculine*

• (action)

for export only = i^ow allforio'n unig**express****1** *adverb*(fast) = ar ^ofrys, yn ^ogyflym**2** *verb*

= mynegi

to express an opinion = mynegi barn**expression** *noun*

• (of face)

= golwg (*plural* golygon) *feminine* or
masculine

• (phrase)

= ymadrodd (*plural*-ion) *masculine***extend** *verb*

• = estyn

to extend an invitation = estyn
gwahoddiad

• = ymestyn

the road extended for a mile = roedd y
ffordd yn ymestyn am ^ofilltir**extension** *noun*= estyniad (*plural*-au) *masculine***extensive** *adjective*

= helaeth

extent *noun***to a certain extent** = i ^oraddau**to a great extent** = i ^oraddau helaeth**external** *adjective*

= allanol

Ff

extinct *adjective*

= darfodedig, wedi marw

extinguish *verb*

= diffodd

extra**1** *adjective*

= ychwanegol

no extra charge = dim tâl ychwanegol**2** *adverb*

= yn ychwanegol

we paid five pounds extra = fe °dalon ni °bum punt yn ychwanegol**extra big** = mawr dros ben**extraordinarily** *adverb*

= hynod o°

extraordinarily clever = hynod o °ddeallus**extraordinary** *adjective*

= rhyfedd, anghyffredin iawn

extreme *adjective*

= eitha(f)

extremely *adverb*= tu hwnt (*follows adjective*), dros ben (*follows adjective*), i'r eitha (*follows adjective*)**this exercise is extremely difficult** = mae'r ymarfer 'ma'n anodd tu hwnt**extrovert****1** *adjective*

= allblyg

2 *noun*= dyn allblyg *masculine*= dynes allblyg *feminine***eye** *noun*= llygad (*plural llygaid*) *masculine***eyebrow** *noun*= ael (*plural -iau*) *feminine***eyelash** *noun*= blewyn amrant (*plural blew amrant*) *masculine***eyelid** *noun*= amrant (*plural amrantau or amrannau*) *masculine***eye shadow** *noun*= colur llygaid *masculine***eyesight** *noun*= golwg *masculine***eyewitness** *noun*= llygad-dyst (*plural -ion*) *masculine***fable** *noun*= chwedl (*plural -au*) *feminine***fabulous** *adjective*• (*legendary*)

= chwedlonol

• (*great, marvellous*)

= gwych

face**1** *noun*= wyneb (*plural -au*) *masculine***2** *verb*

= wynebu

facing the bank = °gyferbyn i'r banc**face up****to face up to something** = wynebu rhywbeth**fact** *noun*= ffaith (*plural ffeithiau*) *feminine***in fact** = a dweud y gwir, mewn gwirionedd**factor** *noun*= ffactor (*plural -au*) *masculine***factory** *noun*= ffatri (*plural ffatrioedd*) *feminine***fade** *verb*• (*lose colour*)

= colli lliw

• (*disappear*)

= diflannu

fail *verb*

= methu, pallu

! In more formal styles, **methu** can be followed by **â** + *verbnoun*, though **methu** + *verbnoun* alone is common.

to fail an exam = methu arholiad**failure** *noun*= methiant (*plural methiannau*) *masculine***faint****1** *verb*

= llewygu

2 *adjective*• (*slight, weak*)

= bychan, gawn

• (*unwell*)

I feel faint = mae "mhen i'n troi

fair

1 *adjective*

• (*reasonable*)

= teg

it's not fair = dydy hi °ddim yn °deg

• (*fair-haired*)

= gwallt golau

to have fair hair = bod â gwallt golau

2 *noun*

= ffair (*plural ffeiriau*) *feminine*

fairly *adverb*

= eitha, go°, gweddol, lled

fairly good = eitha da, go °dda *etc*

to be fairly certain of something = bod yn eitha sicr o° rywbeth

I eitha (*no mutation*) is the most common word, while at the other extreme **lled** is very rare in the modern language.

fairy tale *noun*

= chwedl (*plural -au*) *feminine*

faith *noun*

= ffydd

to have faith in someone = bod â ffydd ynⁿ rhywun

faithful *adjective*

= ffyddlon

fall

1 *noun*

• (*action*)

= cwmp (*plural -au*) *masculine*

• (*US: autumn*)

= hydre(f) *masculine*

in the fall = yn yr hydre

2 *verb*

= syrthio, cwmpo (*South*)

to fall in love with someone = syrthio mewn cariad âⁿ rhywun

to fall asleep = mynd i °gysgu

fall down

= syrthio, cwmpo

fall off

to fall off something = syrthio/cwmpo oddiar° rywbeth

fall over

= syrthio, cwmpo

fall through

• (*fail*) = methu

• (*go wrong*) = mynd yn chwith

false *adjective*

= ffug

false teeth *plural noun*

= dannedd gosod *plural*

familiar *adjective*

= cyfarwydd

family

1 *adjective*

= teuluol

2 *noun*

= teulu (*plural -oedd*) *masculine*

famine *noun*

= newyn (*plural -au*) *masculine*

famous *adjective*

= enwog, adnabyddus

fan *noun*

• (*machine*)

= ffan (*plural -iau*) *feminine*

• (*supporter*)

= cefnogwr (*plural cefnogwyr*) *masculine*

fancy dress party *noun*

= parti gwisg ffansi *masculine*

fantastic *adjective*

• (*strange, unusual*)

= rhyfedd

• (*great*)

= gwyach

far

1 *adjective*

= pell

the far end = y pen pella(f), y pen draw

2 *adverb*

= yn °bell, ymhell

don't go far = paid mynd yn

°bell/ymhell

as far as = hyd°

so far (*up till now*) = hyd yma

= hyd yn hyn

not far = nid nepell

far from happy = °ddim yn hapus o

°bell ffordd

far too big = rhy °fawr o °lauer

fare *noun*

• (*cost of trip*)

= pris (-iau) *masculine*

- (*food*)
= bwyd (*masculine*)

Far East *noun*
= y Dwyrain Pell *masculine*

farm

1 *noun*
= fferm (*plural -ydd*) *feminine*

2 *verb*
= ffermio

farmer *noun*

= ffermwyr (*plural ffermwyr*) *masculine*

farmhouse *noun*

= ffermdy (*plural ffermdai*) *masculine*,
tŷ fferm (*plural tai fferm*) *masculine*

farm

1 *noun*
= rhechen (*plural rhechod*) *feminine*

2 *verb*
= rhechu

farther *adverb*

= ymhellach

fascinating *adjective*

= diddorol iawn

fashion

1 *noun*
= ffasiwn (*plural ffasiynau*) *masculine or feminine*

2 *verb*
(*make, shape*)
= ffurfio, llunio

fashionable *adjective*

= ffasiynol

fast

1 *adjective*

- (*quick*)
= cyflym, clou
this watch is three minutes fast =
mae'r oriau'r ma °dri munud yn °fuan
- (*firm*)
= cadarn

2 *adverb*
• (*quickly*) = yn °gyflym
• (*stuck*)
= sownd

3 *verb*
= ymprydio

fasten *verb*

- (*attach*)
= clymu

to fasten something to something =
clymu rhywbeth wrth° rywbeth

- (*garment*)
= cau (*stem cae-*)

fat

1 *adjective*
= tew

2 *noun*
(*grease*) = saim *masculine*

fatal *adjective*

- (*deadly*)
= marwol
- (*disastrous*)
= enbyd

fate *noun*

= tynged (*plural tyngedau*) *feminine*,
ffawd *feminine*

father *noun*

= tad (*plural -au*) *masculine*

! tad appears as "nhad" when 'Father' is used to mean 'my father'

Father Christmas *noun*

= Siôn Corn *masculine*

father-in-law *noun*

= tad-yng-nghyfraith (*plural tadau-yng-nghyfraith*) *masculine*

fatty *adjective*

= seimllyd, seimlyd

faucet *noun* (US)

= tap (*plural -iau*) *masculine*

fault *noun*

- (*defect*)
= diffyg (*plural -ion*) *masculine*, nam (*plural -au*) *masculine*

- (*blame*)
= bai *masculine*

at fault = ar °fai

it's your fault = chi sy ar °fai

whose fault is it? = pwysy ar °fai?, bai
pwysydy hi?

favour *noun*

= ffafir (*plural -au*) *feminine*

to do someone a favour = gwneud ffafir
i° rywun

will you do me a favour? = nei di ffafir i
mi?

to be in favour of something = bod o
°blaid rhywbeth

favourable *adjective*

= ffafriol

favourite *adjective*= hoff^o (*precedes noun*)**what's your favourite programme?** =
beth ydy'ch hoff^oraglen?**fax****1** *noun*= ffacs (*plural -au*) *masculine or feminine***2** *verb*

= ffacsio

fax machine *noun*= peiriant ffacs (*plural* peiriannau ffacs)
*masculine***fear****1** *noun*• (*general sense*)= ofn (*plural -au*) *masculine*• (*anxiety*)= pryder (*plural -on*) *masculine***2** *verb*

= ofni, bod ag ofn

to fear something = ofni rhywbeth**to fear the worst** = bod ag ofn rhywbeth**fearful** *adjective*• (*inspiring fear*)

= dychrynlyd

• (*afraid*)

= ofnus

feast *noun*= gwledd (*plural -oedd*) *feminine***feat** *noun*= camp (*plural -au*) *feminine***feather** *noun*= pluen (*plural plu*) *feminine***feature** *noun*= nodwedd (*plural -ion*) *feminine***February** *noun*= Chwefror, mis Chwefror *masculine*see also **January****fed up** *adjective*

= wedi cael llond bol(a)

fee *noun*= tâl (*plural taliadau*) *masculine*, ffi
(*plural ffoedd*) *feminine***feeble** *adjective*

= gwan

feed *verb*

= bwydo

will you feed the animals? = nei di

°fwydo'r anifeiliaid?

feel *verb*

= teimlo

I feel ill = dw i'n teimlo'n sâl**it feels cold here** = mae'n teimlo'n oer
fan hyn**can you feel this?** = °ellwch chi

°deimlo hwn?

do you feel like going out? = wyt ti'n

teimlo fel mynd allan?

= oes gen ti awydd mynd allan?

I feel like a cup of tea = hoffwn i °gael
panaid o °de**feeling** *noun*= teimlad (*plural -au*) *masculine***felt-tip pen** *noun*= pin ffelt (*plural* pinnau ffelt)*masculine***female** *adjective*

= benywaidd

feminine *adjective*

= benywaidd

fence *noun*= ffens (*plural -ys*) *feminine*, sietin
*masculine (South)***fencing** *noun*(sport) = cleddyfa *verb**noun*, cleddyfaeth
*feminine***ferry** *noun*= fferi (*plural* fferiau) *feminine***festival** *noun*= gwyl (*plural* gwyliau) *feminine***fetch** *verb*

= nôl, moy'n

go and fetch the milk = cer i nôl y
llaeth**fever** *noun*= twymyn *feminine*, gwres *masculine*

! These terms, when indicating a temporary physical state, are used with **ar^o** + person:

she's got a fever = mae gwres arni.

few**1** *adjective*• (*several*)**a few** = ychydig

a few people = ychydig o °bobol
a few pounds = ychydig o °bunnoedd

- (not many)
= dim llawer, ychydig iawn
few people = dim llawer o °bobol
= ychydig iawn o °bobol

! These quantity expressions require o° before the things or people counted.

2 pronoun

- (several)
there are a few left = mae ychydig ar ôl
= mae rhai ar ôl
- (not many)
there are few left = dim llawer sy ar ôl
= ychydig iawn sy ar ôl
there are few of us left = dim llawer ohonon ni sy ar ôl
so few = cynlleied
as few as = cynlleied â^h

fewer

1 adjective

fewer shops = llai o siopau

2 pronoun

fewer than = llai na^h
fewer than ten people = llai na deg o °bobol

fewest adjective

(smallest number)

the fewest people = y nifer isa o °bobol

field noun

- (area of ground)
= cae (plural -au) masculine, maes (plural meysydd) masculine
playing field = maes chwarae (plural meysydd chwarae) masculine
- (sphere)
= maes (plural meysydd) masculine

fierce adjective

- (heat)
= ffyrnig
- (ferocious)
= gwyllt

fifteen numeral

= pymtheg
fifteen apples = pymtheg o afalau
fifteen years = pymtheng °mlynedd
fifteen years old = pymtheng °mlwydd oed
at 2.15 = am chwarter wedi dau
I have fifteen = mae gen i °bymtheg (North), mae pymtheg 'da fi (South)

fifth adjective

= pumed

fifty numeral

= hanner can(t), pumdeg
fifty apples = pumdeg o afalau
fifty pounds = hanner can punt
fifty years = hanner can °mlynedd
fifty years old = hanner can °mlwydd oed

! hanner can(t) is the normal term with money, measurements and years—note that, as with can(t), the final -t only appears when the numeral stands on its own without the thing counted. Numbers 51–59 use pumdeg rather than hanner cant—pumdeg un, pumdeg dau etc.

fight

1 noun

= brwydr (plural -au) feminine

2 verb

= ymladd, brwydro
to fight against something = ymladd yn erbyn rhywbeth
to fight for something = ymladd dros° rhywbeth
to fight someone = ymladd â^h rhywun

fight back

= ymladd yn ôl

figure noun

- (shape)
= ffurf (plural -iau) feminine
- (person, character)
= ffigwr masculine
- (number)
= ffigur (plural -au) masculine

file

1 noun

= ffeil (plural -iau) feminine
in single file = yn un llinell

2 verb

= ffeilio

fill verb

= llenwi
to fill in a form = llenwi ffurflen
to fill up the car = llenwi'r car

film

1 noun

= ffilm (plural -iau) feminine

2 verb

= ffilmio

filthy *adjective*
= bud(u)r, brwnt

! **budur** is more common in the North, **brwnt** in this meaning in the South.

final

1 *adjective*
= terfynol

2 *noun*
• (sport)
= rownd °derfynol (*plural* rowndiau terfynol) *feminine*

finally

• (in the end)
= yn y diwedd, o'r diwedd
• (lastly)
= yn ola(f)

finance *noun*
= cyllid *masculine*

financial *adjective*
= ariannol

find *verb*
= ffeindio, dod o hyd i°, cael hyd i°

find out
= darganfod (*stem* darganfydd-)

fine

1 *adjective*
• (weather)
= braf
he reached out = estynnodd e ei
°fraich

react *verb*

- (to chemicals, medicines etc)
= adweithio
- (respond)
= ymateb
to react to something = ymateb i°
rywbeth

read *verb*

= darllen
to read something to someone =
darllen rhywbeth i° rywun
can you read Welsh? = °ellwch chi
°ddarllen Cymraeg?
to read through something = darllen
drwy °rywbeth

read out

= darllen yn uchel

readiness *noun*

= parodrwydd *masculine*

reading *noun*

= darlleniad (*plural*-au) *masculine*

ready *adjective*

= parod
to be ready to do something = bod yn
°barod i °wneud rhywbeth
to be ready for something = bod yn
°barod am° rywbeth, bod yn °barod ar
°gyfer rhywbeth

! The related phrase **yn °barod** is an adverb in its own right meaning 'already'.

to get something ready = paratoi
rhywbeth

real *adjective*

- (actual, not imagined)
= gwir°

! **gwir°** precedes the noun it refers to and causes soft mutation.

- (genuine)
= go iawn

reality *noun*

= gwirionedd (*plural*-au) *masculine*
in reality = mewn gwirionedd

realize *verb*

= sylweddoli
I hadn't realized = o'n i heb sylweddoli

really *adverb*

- (actually)
= mewn gwirionedd
it was my fault really = fi oedd ar °fai,
mewn gwirionedd
- (with adjective)
= gwirioneddol°, gwir°, reit° (*colloquial*)
it's really heavy = mae'n °wirioneddol
°drwm
- (interjection)
= °wir!

rear

1 *adjective*

= cefn, ôl
rear wheel = olwyn °gefn (*plural*
olwynion cefn), olwyn ôl (*plural*
olwynion ôl)
rear seat = sedd °gefn (*plural* seddau
cefn), sedd ôl (*plural* seddau ôl)

2 *verb*

(bring up)
= magu

rear-view mirror *noun*

= drych ôl (*plural* drychau ôl) *masculine*

reason *noun*

= rheswm (*plural* rhesymau) *masculine*
a reason for doing something =
rheswm dros °wneud rhywbeth
for no reason = heb °reswm
for this reason = o achos hyn, o'r
herwydd, oherwydd hyn
for that reason = o achos hynny
= oherwydd hynny

reasonable *adjective*

= rhesymol

reassure *verb*

= tawelu meddwl

I reassured him = nes i °dawelu ei °feddwl**rebroadcast** *verb*

= ailddarlledu

receipt *noun*= derbynneb (*plural* derbynebau, derbynebion) *feminine***to get a receipt for something** = cael derbynneb am° rywbeth**receive** *verb*= derbyn (*stem* derbyni-), cael**to receive something from someone** = derbyn or cael rhywbeth gan° rywun

! **cael** is irregular in the preterite, short future and conditional—see entry on the Welsh-English side for details.

recent *adjective*

= diweddar

recently *adverb*

= yn °ddiweddar

reception *noun*

- (*in hotel, hospital etc*) = derbynfa (*plural* derbynfeydd) *feminine*
- (*formal event*) = derbyniad (*plural*-au) *masculine*

receptionist *noun*

= croesawydd (*plural*-ion) *masculine*
 = croesawferch (*plural*-ed) *feminine*
 = derbynydd (*plural* derbynyddion) *masculine*
 = derbynyddes (*plural*-au) *feminine*

recipe *noun*

= rysáit (*plural* ryseitiau) *feminine*
to follow a recipe = dilyn (*stem* dilyn-) rysáit

recognize *verb*

- (*person*) = adnabod (*stem* adnabydd-)
- to recognize someone by something** = adnabod rhywun o° rywbeth

! In the literary language, **adnabod** is used for **nabod** 'know' in the sense of 'be acquainted with', but in the living language these two verbs are distinct.

- (*fact*) = cydnabod (*stem* cydnabydd-)

recommence *verb*= ailddechrau (*stem* ailddechreu-)**recommend** *verb*

= cymeradwyo

what do you recommend? = beth dych chi'n °gymeradwyo?**record**

- 1** *noun*
- (*disc*) = record (*plural*-iau) *feminine*
to play a record = chwarae (*stem* chwarae-) record
- (*in sport*) = record (*plural*-iau) *feminine*
to break a record = torri record
- (*note, memorandum*) = cofnod (*plural*-ion) *masculine*
to make a record of something = gwneud cofnod o° rywbeth
- 2** *verb* = recordio

recorder *noun*

- (*machine*) = recordydd (*plural*-ion) *masculine*
- (*musical instrument*) = recorder (*plural*-s) *masculine*

record player *noun*= chwaraewr recordiau (*plural* chwaraewyr recordiau) *masculine***recover** *noun*

- (*from illness*) = gwella
- (*retrieve*) = ailffeindio, cael yn ôl

rectangle *noun*= pedrongl (*plural*-au) *feminine***recycle** *verb*

= ailgylchu
recycling centre = canolfan ailgylchu (*plural* canolfannau ailgylchu) *feminine*

red *adjective*

- = coch
- to go red** = mynd yn °goch, cochi (*blush*) = gwriddo, cochi

red-haired *adjective*

= pengoch, gwalltgoch

reduce *adjective*

= gostwng (*stem* gostyng-), lleihau
to reduce prices = gostwng prisiau
reduce speed now = arafwch nawr

reduction *noun*

= gostyngiad (*plural* -au) *masculine*,
 lleihad (*plural* -au) *masculine*

redundant *adjective*

he was made redundant = mi °gafodd e
 ei °ddiswyddo

refectory *noun*

= ffreutur (*plural* -iau) *feminine*

refer *adjective*

= cyfeirio
to refer to something = cyfeirio at°
 rywbeth
I refer to your letter ... = cyfeiriaf at eich
 llythyr ... (*formal*)

referee *noun*

- (*in sport*)
 = dyfarnwr (*plural* dyfarnwyr)
masculine
- (*for applicant*)
 = canolwr (*plural* canolwyr) *masculine*,
 cefnogwr (*plural* cefnogwyr) *masculine*

reference *noun*

= cyfeiriad (*plural* -au) *masculine*
to make reference to something =
 cyfeirio at° rywbeth
to give someone as a reference = enwi
 rhywun fel canolwr

reference book *noun*

= cyfeirlyfr (*plural* -au) *masculine*

reflect *verb*

= adlewyrchu

reflection *noun*

= adlewyrchiad (*plural* -au) *masculine*

refreshing *adjective*

- (*renewing*)
 = adnewyddol
- (*reviving*)
 = adfywiol

refreshments *plural noun*

= lluniaeth *masculine*

refrigerator *noun*

= oergell (*plural* -oedd) *feminine*

refuge *noun*

= lloches (*plural* -au) *feminine*

to seek/take refuge from something =

ymochel rhag rhywbeth
to give someone refuge = llochesu
 rhywun

refugee *noun*

= ffoadur (*plural* -iaid) *masculine*
 = ffoadures (*plural* -au) *feminine*

refuse¹ *verb*

= gwrthod, nacáu (*colloquial* cau), pallu
 (*South*)

to refuse to do something = gwrthod
 gwneud rhywbeth

to refuse someone something =
 gwrthod rhywbeth i° rywun

the car refuses to go = mae'r car yn
 pallu mynd

refuse² *noun*

(*rubbish*)
 = sbwriel *masculine*

regarding *preposition*

= ynghylch, ynglŷn â^h, parthed (*formal*)

! Only in very formal written styles is
parthed encountered, and certainly
 never in unaffected speech.

regards *plural noun*

(*at end of letter*)
 = cofion
as regards = o °ran
as regards the rest of the family = o
 °ran gweddill y teulu

region *noun*

= ardal (*plural* -oedd) *feminine*,
 rhanbarth (*plural* -au) *masculine*, bro
 (*plural* bröydd) *feminine*

regional *adjective*

= rhanbarthol

register

1 *noun*
 = cofrestr (*plural* -au, -i) *feminine*

2 *verb*
 = cofrestru

registration number *noun*

• (*general*)
 = rhif cofrestru (*plural* -au cofrestru)
masculine

• (*car*)
 = rhif car *masculine*

regret *verb*

= edifaru, difaru (*colloquial*)

to regret doing something = edifaru
gwneud rhywbeth

regular *adjective*

- (conforming to pattern or type)
= rheolaidd
- regular verbs** = berfau rheolaidd
- (consistent, habitual)
= cyson

regularly *adverb*

- (all senses)
= yn rheolaidd
- (consistently, habitually—also:)
= yn °gyson
- to do something regularly** = gwneud
rhywbeth yn rheolaidd/yn °gyson

rehearsal *noun*

= ymarfer (*plural* -ion) *masculine*

rehearse *verb*

= ymarfer

reincarnation *noun*

= ailymgawdoliad (*plural* -au)
masculine

reject *verb*

= gwrthod

related *adjective*

to be related to someone = perthyn i°
rywun
are they related to you? = ydyn nhw'n
perthyn i ti?

relation *noun*

- (relationship, related person)
= perthynas (*plural* perthnasau)
feminine
- in relation to something** = mewn
perthynas/cysylltiad â^h rhywbeth
- they are my relations** = maen nhw'n
perthyn i mi
- to visit one's relations** = ymweld (*stem*
ymwel-) â^h ch perthnasau
- (link)
= cysylltiad (*plural* -au) *masculine*

relationship *noun*

= perthynas (*plural* perthnasau)
feminine, cysylltiad (*plural* -au)
masculine

relative *noun*

he's a relative of mine = mae e'n
perthyn i mi
those are his relatives = dyna ei
°berthnasau

relax *verb*

= ymlacio

relaxed *adjective*

= wedi ymlacio

relay race *noun*

= ras °gyfnewid (*plural* rasys cyfnewid)
feminine

release

1 *noun*

- (announcement)
= datganiad (*plural* -au) *masculine*
- press release** = datganiad i'r °wasg
- (from prison etc)
= rhyddhad *masculine*, rhyddhau
verb *noun*
- a new release** (*record*) = record newydd
(*film*) = ffilm newydd

2 *verb*

- (liberate)
= rhyddhau
- (put on the market)
= rhyddhau
- (let go of)
= gollwng (*stem* gollyng-)

relevant *adjective*

= perthnasol

reliable *adjective*

= dibynadwy

relieved *adjective*

you'll be relieved to know that ... =
bydd yn rhyddhad i chi °wybod °fod ...

religion *noun*

= crefydd (*plural* -au) *feminine*

religious education, RE *noun*

= addysg °grefyddol *feminine*

rely *verb*

= dibynnu
to rely on someone/something =
dibynnu ar° rywun/rywbeth

remain *verb*

= aros (*stem* arhos-)

remainder *noun*

= gweddill (*plural* -ion) *masculine*

remark

1 *noun*

= sylwad (*plural* -au) *masculine*

2 *verb*

- (make observation)
= gwneud sylwad

to remark on something = gwneud sylwad ar^o rywbeth

- (*notice*) = sylwi

remarkable *adjective*
= hynod

remarkably *adverb*
= hynod o^o

remarkably clever = hynod o °ddeallus

remember *verb*
= cofio

do you remember them? = wyt ti'n cofio nhw?

to remember to do something = cofio gwneud rhywbeth

remember me to your parents = cofiwch fi at eich rhieni

remind *verb*
= atgoffa

to remind someone of something = atgoffa rhywun o^o rywbeth

to remind someone to do something = atgoffa rhywun i °wneud rhywbeth

remote control *noun*
(*device*)
= teclyn (*plural*-au) pell-reolaeth
masculine

remove *verb*

- (*get rid of*) = cael gwared
to remove something = cael gwared ar^o rywbeth/ â^h rhywbeth
- (*move*) = symud
- (*delete*) = dileu

renew *verb*
= adnewyddu

renowned *adjective*
= enwog, adnabyddus
to be renowned for something = bod yn enwog am^o rywbeth

rent

1 *noun*
= rhent (*plural*-i) *masculine*

2 *verb*
= rhentu
to rent a bike = rhentu beic

rental *noun*

car rental company = cwmni llogi ceir (*plural* cwmnïau llogi ceir) *masculine*

repair *verb*

= trwsio, atgyweirio, cyweirio
to have something repaired = cael trwsio rhywbeth

repeat

1 *noun*
(*programme*)
= ailddarllediad (*plural*-au)

2 *verb*

- (*say again*) = ailadrodd, ailddweud
- could you repeat (that)?** = °allech chi ailadrodd (hynny)?
- (*programme*) = ailddarlledu

replace *verb*

- (*substitute*) = disodli
- (*put back*) = ailosod, rhoi (*stem* rhoi-, rhodd-) yn ôl

reply

1 *noun*
= ateb (*plural*-ion) *masculine*

2 *verb*
= ateb

to reply to someone = ateb rhywun

report

1 *noun*
= adroddiad (*plural*-au) *masculine*

2 *verb*

- (*make report*) = adrodd
- (*bring to notice*) = rhoi (*stem* rhoi-, rhodd-) gwybod, hysbysu
- to report a crime to the police** = rhoi gwybod i'r heddlu am °drosedd, hysbysu'r heddlu am °drosedd

reporter *noun*

= gohebydd (*plural*-ion, gohebwyrr) *masculine*

represent *verb*

= cynrychioli

representative *noun*

= cynrychiolydd (*plural* cynrychiolwyr) *masculine*

republic *noun*

= gweriniaeth (*plural*-au) *feminine*

reputation *noun*

= enw *masculine*

request**1** *noun*

= cais (*plural* ceisiadau) *masculine*

2 *verb*

= gofyn (*stem* gofynn-)

to request someone to do something

= gofyn i^o rywun °wneud rhywbeth

to request something from someone =

gofyn rhywbeth gan^o rywun

requirement *noun*

= angen (*plural* anghenion) *masculine*,

gofyn (*plural* -ion) *masculine*

to meet someone's requirements =

bodloni anghenion rhywun

rescue**1** *verb*

= achub

2 *noun*

= achub *verb*noun, achubiad (*plural* -au) *masculine*

research**1** *noun*

= ymchwil *feminine* or *masculine*

2 *verb*

= ymchwilio

resemble *verb*

he resembles his father = mae e'n

°debyg i'w °dad

resent *verb*

to resent someone for something =

bod yn °ddig wrth^o rywun o achos rhywbeth

reservation *noun*• (*of seat*)

= sedd °gadw (*plural* seddi cadw, seddau cadw) *feminine*

• (*of room*)

= stafell °gadw (*plural* stafelloedd cadw) *feminine*

reserve *verb*

to reserve something for someone =

rhoi rhywbeth ar °gadw i^o rywun, neilltuo rhywbeth i^o rywun

to reserve a room = bwcio or sicrhau stafell

all rights reserved = cedwir pob hawl (*formal*)

residence *noun*

(*domicile*)

= preswylfa

hall of residence = neuadd °breswyl

(*plural* neuaddau preswyl) *feminine*

resign *verb*

= ymddiswyddo

resist *verb*• (*oppose*)

= gwrthwynebu

• (*refrain from*)

I can't resist saying this = °alla i °ddim peidio dweud hyn

resolute *adjective*

= penderfynol

resources *plural noun*

= adnoddau *plural*

respect**1** *noun*

= parch

to have respect for someone = bod â

^hpharch/parch (tuag) at^o rywun,

parchu rhywun

out of respect for someone = o °barch at^o rywun

2 *verb*

= parchu

respectable *adjective*• (*person, behaviour*)

= parchus

• (*amount*)

= sylweddol

respond *verb*• (*react*)

= ymateb

to respond to someone/something =

ymateb i^o rywun/rywbeth

he responded by walking out =

cerdded allan oedd ei ymateb

• (*answer*)

= ateb

response *noun*• (*reaction*)

= ymateb (*plural* -ion) *masculine*

a response to someone/something =

ymateb i^o rywun/rywbeth

her response was to say nothing =

dweud dim oedd ei hymateb

• (*answer*)

= ateb (*plural* -ion) *masculine*

responsibility *noun*

= cyfrifoldeb (*plural* -au) *masculine*

this is your responsibility = chi sy'n

°gyfrifol am hyn

responsible *adjective*

= cyfrifol

to be responsible for something = bod yn °gyfrifol am° rywbeth
to be responsible for doing something = bod yn °gyfrifol am °wneud rhywbeth

rest**1** noun

- (relaxation, recuperation) = gorffwys masculine
- (interval) = seibiant (plural seibiannau) masculine
- (remainder) = gweddill masculine

what about the rest? = beth am y gweddill?

2 verb

= gorffwys

restart verb

= aildddechrau (stem aildddechreu-), ailgychwyn (stem ailgychwynn-)

restaurant noun

= tŷ bwyta (plural tai bwyta) masculine

result noun

= canlyniad (plural -au) masculine
as a result of something = o

°ganlyniad i° rywbeth

football results = canlyniadau pêl-droed

resumé (US) noun

= braslun bywyd (plural brasluniau bywyd) masculine

retire verb

= ymddeol

he retired last year = naeth e ymddeol llynedd

retired adjective

= wedi ymddeol

he is retired = mae e wedi ymddeol

retirement noun

= ymddeoliad masculine

return verb

- (come back) = dod yn ôl, dychwelyd (stem dychwel-)
 - (go back) = mynd yn ôl, dychwelyd (stem dychwel-)
- to return to school** = mynd yn ôl i'r ysgol
to return to work = mynd yn ôl i'r gwaith

! dod and mynd are irregular in the preterite, short future, conditional and imperative—see entries on the Welsh-English side for details.

dychwelyd is a formal and official word not normally encountered in speech.

- (give back) = rhoi (stem rhoi-, rhodd-) yn ôl, dychwelyd (stem dychwel-)
- (send back) = danfon/anfon/hala yn ôl

return ticket noun

= tocyn dwyffordd (plural tocynnau dwyffordd) masculine

reveal verb

= datgelu

revenge noun

= dial masculine

to take revenge on someone for something = dial (verbnoun) ar° rywun am° rywbeth

reverend adjective

= parchedig

revolution noun

= chwyldro (plural -adau) masculine

the Industrial Revolution = y Chwyldro Diwydiannol

the French Revolution = y Chwyldro Ffrengig

revolutionary**1** adjective

= chwyldroadol

2 noun

= chwyldroadwr (plural chwyldroadwyr) masculine
 = chwyldroadwraig (plural chwyldroadwragedd) feminine

reward**1** noun

= gwobr (plural -au) feminine

2 verb

to reward someone for something = gwobrwyo rywun am° rywbeth
 = rhoi (stem rhoi-, rhodd-) gwobr i° rywun am° rywbeth

rewind verb

= ailddirwyn

rhinoceros, rhino noun

= rhinoseros (plural -od, -iaid) masculine

rhythm *noun*

= rhythm (*plural*-au) *masculine*

rib *noun*

= asen (*plural*-nau) *feminine*

ribbon *noun*

= rhuban or ruban (*plural*-au) *masculine*

rice *noun*

= reis *masculine*

rich *adjective*

= cyfoethog

riches *plural noun*

= cyfoeth *masculine*

rid *verb*

to get rid of something = cael gwaredu
ar^o rywbeth/â^h rhywbeth, gwaredu
rhywbeth

! **cael** is irregular in the preterite, short future and conditional—see entry on the Welsh-English side for details.

ride**1** *verb*

- (general senses)

= reidio

to ride a bike = reidio beic, reidio ar
°gefn beic

- (on horseback)

= marchogaeth, reidio

to ride a horse = reidio ceffyl, reidio ar
°gefn ceffyl, marchogaeth

he rides well = mae e'n °farchog da

2 *noun*

= reid (*plural*-iau) *feminine*, tro (*plural*
-eon) *masculine*

rider *noun*

- (on horse)

= marchog (*plural*-ion) *masculine*

- (on bike)

= beiciwr (*plural* beicwyr) *masculine*

ridiculous *adjective*

= chwerthinllyd

riding *noun*

= marchogaeth *verb**noun*

rifle *noun*

= reiffl (*plural*-au or -s) *feminine*

right**1** *adjective*

- (opposite of left)

= de

her right hand = ei llaw °dde

- (correct)

= iawn, cywir

you are right = dych chi'n iawn

this is the right way = dyma'r ffordd
iawn

that's right = mae'n hynny'n iawn

to do the right thing = gwneud y peth
iawn

2 *adverb*

to turn right = troi (*stem* troi-, trodd-) i'r
°dde

! There is a distinction between **i'r °dde** 'to the right' and **i'r de** 'to the South'. When **de** means 'right', it always has soft mutation after the words for 'the'.

3 *noun*

- (opposite of left)

= de *feminine*

on the right = ar y °dde

to the right = i'r °dde

- (entitlement)

= hawl (*plural*-iau) *feminine* or
masculine

human rights = hawliau dynol

right-handed *adjective*

= llawdde

right-wing *adjective*

= asgell °dde

ring**1** *noun*

- (on finger)

= modrwy (*plural*-au) *feminine*

wedding ring = modrwy °briodas

ring finger = bys modrwy *masculine*

- (circle)

= cylch (*plural*-oedd) *masculine*

- (phone call)

= caniad (*plural*-au) *masculine*

give me a ring = rho °ganiad i mi

2 *verb*

= canu

the bells are ringing = mae'r clychau'n
canu

will you ring the bell? = nei di °ganu'r
°gloch?

will you ring me? = nei di °roi caniad i
mi?

rinse *verb*

= strelio

rip**1 verb**

= rhwygo

2 noun= rhwyg (*plural -au*) *feminine*, rhwygiad (*plural -au*) *masculine***ripe adjective**

= aeddfed

rise**1 verb**

• (general senses)

= codi, mynd i fyny

! **mynd** is irregular in the preterite, short future, conditional and imperative—see entry on the Welsh-English side for details.

• (sun)

= codi

2 noun= codiad (*plural -au*) *masculine***risk****1 noun**= peryg(l) (*plural peryglon*) *masculine***at risk** = mew'n peryg(l)**2 verb**

• (chance)

= mentro

she won't risk coming out = °fydd hi °ddim yn mentro dod allan

• (put at risk)

= peryglu

to risk one's life = peryglu'ch bywyd**rival****1 adjective**

= cystadleuol

2 noun= cystadleuwr (*plural cystadleuwyr*) *masculine***river noun**= afon (*plural -ydd*) *feminine***riverbank noun**= glan afon (*plural glannau afon*) *feminine***road noun**= heol (*plural heolydd*) *feminine*, ffordd (*plural ffyrdd*) *feminine*

! **hewl** is a common variant of **heol** in many areas.

road sign noun= arwydd ffordd (*plural arwyddion ffyrdd*) *masculine***roadworks plural noun**

= gwaith ar y ffordd

roar verb

= rhuo

roast**1 verb**

= rhostio

2 adjective**roast meat** = cig rhost**rob verb**= dwyn (*stem dyg-*), lladrata**to rob someone of something** = dwyn rhywbeth oddiar^o/oddi ar^o rywun**robber noun**= lleidr (*plural lladron*) *masculine***robbery noun**= lladrad (*plural -au*) *masculine***robin noun**= robin °goch *masculine***robot noun**= robot (*plural -iaid*) *masculine***rock noun**

• (material)

= carreg *feminine*

• (a stone)

= carreg (*plural cerrig*) *feminine*

• (music)

= roc

rock climbing noun= dringo creigiau *verb-noun***rocket noun**= roced (*plural -i, -au*) *feminine***rocking chair noun**= cadair siglo (*plural cadeiriau siglo*) *feminine***role noun**= rôl (*plural rolau*) *feminine*, rhan (*plural -au*) *feminine***to play a role** = chwarae (*stem chwarae-*) rhan/rôl**roll****1 noun**

• (bread, of film)

= rholyn (*plural rholion*) *masculine*

• (*list of names*)

to call the roll (US) = galw'r enwau

2 verb

= rholio

roll around

= rholio o °gwmpas

roll over

= rholio drosodd

roll up

to roll up one's sleeves = torchi'ch llewys

roller coaster *noun*

= ffigar-êt *masculine*

roller-skate

1 noun

= esgid °rolio (*plural* esgidiau rholio) *feminine*

2 verb

= troed-rolio

roller-skating *noun*

= rhôl-sglefrio *verbnoun*

Roman

1 adjective

= Rhufeinig

2 noun

= Rhufeiniwr (*plural* Rhufeinwyr, Rhufeiniaid) *masculine*

romantic *adjective*

= rhamantus

Rome *noun*

= Rhufain *feminine*

roof *noun*

= to (*plural* -eau, -eon) *masculine*

rook *noun*

• (*bird*)

= ydfran (*plural* ydfrain) *feminine*

• (*chess piece*)

= castell (*plural* cestyll) *masculine*

room *noun*

• (*in house*)

= stafell (*plural* -oedd) *feminine*, ystafell (*plural* -oedd) *feminine*

! Although **ystafell** is the standard written form, **stafell** is far more common in speech, and increasingly in writing.

living room = stafell °fyw (*plural* stafelloedd byw)

bedroom = stafell °wely (*plural* stafelloedd gwely)

dining room = stafell °fwyta (*plural* stafelloedd bwyta)

bathroom = stafell molchi (*plural* stafelloedd molchi)

• (*space*)

= lle *masculine*

is there enough room? = oes digon o °le?

there's room for three = mae lle i °dri
to make room for someone = gwneud lle i° rywun

root *noun*

= gwreiddyn, gwraidd (*plural* gwreiddiau) *masculine*

to be at the root of something = bod wrth °wraidd rhywbeth

rope *noun*

= rhaff (*plural* -au) *feminine*

rose *noun*

= rhosyn (*plural* -nau) *masculine*

rosy *adjective*

= gwridog, rhosynnaidd

rot

1 noun

= pydredd *masculine*

2 verb

= pydru

rotten *adjective*

= wedi pydru

to go rotten = pydru

rough *adjective*

• (*not smooth*)

= garw

• (*approximate*)

= bras

• (*not gentle*)

= garw, cas

• (*difficult*)

= anodd

roughly *adverb*

= (*approximately*) yn °fras, tua^h

roughly half an hour = tua hanner awr

round

1 adjective

= crwn

2 adverb

to come round (*visit*) = dod draw

to call round = galw (*stem* galw-) heibio

all year round = trwy °gydol y °flwyddyn

round the corner = rownd y °gornel
to go round and round = mynd rownd a rownd

3 preposition
 = o °gwmpas, o amgylch, (occasionally) am°

! o °gwmpas and o amgylch are compound prepositions and so change their form when used with pronouns—see entries on the Welsh-English side for details.

round the town = o °gwmpas/o amgylch y °dre

round a table = o °gwmpas/o amgylch bwrdd

put a bandage round his head = rho °rwymyn am ei °ben

4 noun
 (of golf, boxing, drinks)
 = rownd (plural -iau) feminine
the final round = y rownd °derfynol

roundabout noun
 • (at road junction)
 = trogylch (plural -oedd) masculine
 • (at fair)
 = ceffylau bach plural

route noun
 = ffordd (plural ffyrdd) feminine

routine noun
 = trefn feminine
the daily routine = y °drefn °feunyddiol

row¹
1 noun
 (line)
 = rhes (plural -i) feminine
a row of houses = rhes o °dai
six days in a row = chwe diwrnod yn °olynol

2 verb
 (boat)
 = rhwyfo

row² noun
 (argument)
 = ffrae (plural -au, -on) feminine

rowing noun
 = rhwyfo verbnoun

rowing boat noun
 = cwch rhwyfo (plural cychod rhwyfo) masculine

royal adjective
 = brenhinol

rub verb
 = rhwbio

rub out:
to rub something out (erase) = dileu rhywbeth

rubber noun
 • (eraser)
 = rwber (plural -i) masculine
 • (material)
 = rwber masculine

rubber band noun
 = dolen elastig (plural dolennau or dolenni elastig) feminine

rubbish noun
 • (refuse)
 = sbwriel masculine
 • (nonsense)
 = sothach plural
this is all rubbish = sothach ydy hwn i gyd
don't talk rubbish! = paid siarad lol!

rubbish bin noun
 = bin sbwriel (plural biniau sbwriel) masculine

rucksack noun
 = sach °deithio (plural sachau teithio) feminine

rude adjective
 • (impolite)
 = anghwrtais
to be rude to someone = bod yn anghwrtais wrth° rywun
 • (obscene)
 = anweddu

rug noun
 = carped (plural -i) masculine, ryg (plural -iau) feminine

rugby noun
 = rygbi masculine

ruin
1 noun
 (ruined building)
 = adfail masculine
to go to ruin = adfeilio

2 verb
 = difetha, dinistrio

ruins plural noun
 = adfeilion plural

the building is in ruins = mae'r adeilad yn adfeilion

rule

1 noun

= rheol (*plural*-au) *feminine*

as a rule = fel rheol

that is against the rules = mae hynny yn erbyn y rheolau

2 verb

= rheoli, llywodraethu

ruler noun

• (implement)

= pren mesur (*plural* prennau mesur) *masculine*

• (person)

= rheolwr (*plural* rheolwyr) *masculine*, llywodraethwr (*plural* llywodraethwyr) *masculine*

rumour noun

= sôn *masculine*, si (*plural* sïon) *masculine*

there's a rumour that ... = mae sôn/si bod ...

run

1 verb

= rhedeg (*stem* rhed-)

to run after someone = rhedeg ar ôl rhywun

to run a business = rhedeg busnes

to run on unleaded petrol = rhedeg ar °betrol diblwm

to run a competition = rhedeg cystadleuaeth

the river runs to the sea = mae'r afon yn rhedeg/llifo i'r môr

the buses run every hour = mae'r bysiau'n rhedeg °bob awr

to run for office = sefyll (*stem* sef-, saf-) am swydd

he's running a temperature = mae gwres arno (fe)

in the long run = yn y pen draw

2 noun

• go for a run

= rhedeg

• on the run

= ar ffo

• (cricket)

= rhediad (*plural*-au) *masculine*

run about, run around

= rhedeg o °gwmpas

run away, run off

= rhedeg i ffwrdd, ffoi

runner noun

= rhedwr (*plural* rhedwyr) *masculine*

= rhedwraig (*plural* rhedwragedd) *feminine*

rural adjective

= gwledig

rush

1 verb

• (general senses)

= rhuthro

to rush into the shop = rhuthro i (mewn i) 'r siop

to rush dinner = rhuthro drwy °ginio

• (hurry)

= brysio

she was rushed to hospital =

aethpwyd â hi ar °frys i'r ysbyty

don't rush me! = paid â "ngwthio i!

2 noun

to be in a rush = bod ar °frys

to do something in a rush = gwneud rhywbeth ar °frys

rush hour noun

= oriau brys *plural*

rust noun

= rhwd *masculine*

rusty adjective

= rhydlyd, wedi rhydu

Ss

sack

1 noun

= sach (*plural*-au) *masculine or feminine*
to give someone the sack = diswyddo
 rhywun

2 verb

(dismiss)
 = diswyddo

sad

adjective
 = trist

saddle

= cyfrwy (*plural*-au) *masculine*

sadness

noun
 = tristwch *masculine*

safe

1 adjective

= diogel, saff

to make something safe = diogelu
 rhywbeth

to keep something safe = cadw
 rhywbeth yn ^oddiogel

2 noun

= coffor (*plural* coffrau) *masculine*, sêff
 (*plural*-s) *feminine*

safeguard

verb
 = diogelu

safety

noun
 = diogelwch *masculine*

Sagittarius

noun
 = y Saethydd *masculine*

sail

1 verb

= hwylio

2 noun

= hwyll (*plural*-iau) *feminine*

sailing

noun
to go sailing = hwylio

sailing boat

noun
 = cwch hwyliau (*plural* cychod hwyliau)
masculine

sailor

noun
 = llongwr (*plural* llongwyr) *masculine*

saint

noun
 = sant (*plural* seintiau or saint)
masculine
 = santes (*plural*-au) *feminine*

sake

noun
for the sake of = er mwyn

for his sake = er ei ^ofwyn e

for God's sake = neno'r Tad, er mwyn
 Duw

salad

noun
 = salad (*plural*-au) *masculine*

salary

noun
 = cyflog (*plural*-au) *masculine*

sale

noun
 • (*in shop*)

= arwerthiant *masculine*

the sale begins tomorrow = mae'r
 arwerthiant yn dechrau yfory

• **for sale**

= ar ^owerth

the building is for sale = mae'r adeilad
 ar ^owerth

! The adjective phrase **ar ^owerth**, like all similar phrases with **ar**, does not use **yn** to link it to the verb **bod** 'to be'—so not *mae'r adeilad yn ar ^owerth.

sales assistant

noun
 = dyn siop (*plural* dynion siop)
masculine, merch siop (*plural* merched
 siop) *feminine*

salesman

noun
 = gwerthwr (*plural* gwerthwyr)
masculine

saleswoman

noun
 = gwerthwraig (*plural* gwerthwraedd)
feminine

salmon

noun
 = eog (*plural*-iaid) *masculine*

salt

noun
 = halen *masculine*

salty

adjective
 = hallt

same

1 adjective

= yr un, yr un^o (*feminine singular*)

the same book as me = yr un llyfr â fi

they go to the same school = maen
 nhw'n mynd i'r un ysgol

people are the same everywhere =
 mae pobol yr un ymhobman

the same one = yr un un

the same ones = yr un rhai
exactly the same thing = yn union yr un peth

2 *pronoun*

= yr un peth

I'll have the same = °gymera i'r un peth

we'll do the same as them = nawn ni'r un peth â nhw

'Merry Christmas!'—**'the same to you!'** = 'Nadolig Llawen!'—'a chithau!'

3 *adverb*

= yr un °fath

I feel the same as you = dw i'n teimlo'r un °fath â ti

we'll go all the same = awn ni ta beth

sand *noun*

= tywod (*plural*-ydd) *masculine*

sandal *noun*

= sandal (*plural*-au) *feminine*

sandwich *noun*

= brechdan (*plural*-au) *feminine*

cheese sandwich = brechdan °gaws (*plural* brechdanau caws)

Santa Claus *noun*

= Siôn Corn *masculine*

sardine *noun*

= sardîn (*plural*-s) *masculine*

satellite *noun*

• (*planetoid*)

= lleuad (*plural*-au) *feminine*

• (*artificial*)

= lloeren (*plural*-nau) *feminine*

satellite television = teledu lloeren *masculine*

satellite dish = soser °loeren (*plural* soseri lloeren) *feminine*, dysgl °loeren (*plural* dysglau lloeren) *feminine*

satisfactory *adjective*

= boddhaol

satisfied *adjective*

= bodlon

to be satisfied with something = bod yn °fodlon ar° ryw Beth

Saturday *noun*

= dydd Sadwrn, Sadwrn

Saturday night = nos Sadwrn

see also **Monday**

sauce *noun*

= sôs (*plural* sosys) *masculine*, saws (*plural*-iau) *masculine*

saucepan *noun*

= sosban (*plural*-au, sosbenni) *feminine*

saucer *noun*

= soser (*plural*-i) *feminine*

sausage *noun*

= selsigen (*plural* selsig) *feminine*, sosej (*plural*-is) *feminine*

save *verb*

• (*rescue*)

= achub

to save someone's life = achub bywyd rhywun

• (*time, money*)

= arbed

this will save time = bydd hyn yn arbed amser

that will save me five pounds = bydd hynny'n arbed pum punt i mi

• (*keep*)

= cadw

to save something till tomorrow = cadw rhywbeth tan yfory

• (*spare*)

= arbed

to save someone doing something = arbed i° rywun °wneud rhywbeth

• (*budget, save up*)

= cynilo

savings *plural noun*

= cynilion *plural*

saw *noun*

= llif (*plural*-iau) *feminine*

chainsaw = llif °gadwyn (*plural* llifiau cadwyn) *feminine*

saxophone *noun*

= sacsoffon (*plural*-au) *masculine*

say *verb*

• (*general senses*)

= dweud (*stem* dwed-, dywed-, wed-),

deud (*stem* deud-, dud-) (*North*), gweud (*stem* gwed- or wed-) (*South*)

! dweud is the standard form of the verb *noun*, less common in informal speech than **deud** and **gweud**.

to say something to someone = dweud rhywbeth wrth° rywun

he says he can't go = mae e'n dweud °fod e °ddim yn gallu mynd

what did you say? = beth °ddwedest ti? = be' wedest ti?

that's what I said = dyna beth

°ddweddes i
= 'na be' weddes i

what does the message say? = beth
mae'r neges yn °ddweud?

it says here that ... = mae'n dweud fan
hyn bod ...

five or six, I would say = pump neu
chwech, wedwn i

..., **as they say** = ..., fel maen nhw'n
dweud

that is to say = sef

• (with quoted speech)

= meddai etc

'Here I am!' she said = 'Dyma fi!'

meddai hi

'Go away,' said Aled and Dafydd = 'Cer
o 'ma,' meddai Aled a Dafydd

'It's late,' they said = 'Mae'n hwyr,'
meddai nhw/medden nhw

so they say = meddai nhw/medden
nhw

= ..., chadal nhwthau (North)

! **meddai** etc. is used only with
quoted words or sentiments—see
entry on the Welsh-English side for
more information and examples.

scale *noun*

= graddfa (plural graddfeydd) *feminine*

on a large scale = ar °raddfa °fawr

on a small scale = ar °raddfa °fechan

scales *plural noun*

(weighing machine)

= clorian *feminine*

scandal *noun*

= sgandal (plural -au) *feminine*, gwarth
masculine

scandalous *adjective*

= gwarthus

scarce *adjective*

= prin

to become scarce = mynd yn °brin

= prinhau

scarcely *adverb*

= prin

I can scarcely remember = prin y galla

i °gofio, prin °mod i'n gallu cofio

! This adverb usually starts the
sentence and is followed by a 'that...'
clause—see entry on Welsh-English
side for further examples.

scarcity *noun*

= prinder (plural -au) *masculine*

scare

1 *verb*

= dychryn

2 *noun*

= dychryn (plural -iadau) *masculine*

scare away:

**to scare someone away from
somewhere** = dychryn rhywun o
°rywle

scared *adjective*

= wedi dychryn, ofnus

scarf *noun*

= sgarff (plural -iau) *feminine*

scatter *verb*

= gwasgaru

scenery *noun*

• (view)

= golygfa (plural golygfeydd) *feminine*

• (landscape)

= tirlun (plural -iau) *masculine*

• (for a play)

= golygfeydd *plural*

scheme *noun*

= cynllun (plural -iau) *masculine*

school *noun*

= ysgol (plural -ion) *feminine*

at school = yn yr ysgol

from school = o'r ysgol

to go to school = mynd i'r ysgol

to attend school = mynychu ysgol

! Phrases like 'at school', 'to school'
etc. require the word for 'the' in Welsh.

schoolboy *noun*

= bachgen ysgol (plural bechgyn ysgol)
masculine

school bus *noun* = bws ysgol (plural
bysiau ysgol)

schoolgirl *noun*

= merch ysgol (plural merched ysgol)
feminine

schoolwork *noun*

= gwaith ysgol *masculine*

science *noun*

• (general sense)

= gwyddoniaeth *feminine*

to study science = astudio

gyyddoniaeth

• (particular field)

= gwyddor (plural -au) feminine

natural sciences = gwyddorau naturiol

scientific adjective

= gwyddonol

scientist noun

= gwyddonydd (plural gwyddonwyr)

masculine

scissors noun

pair of scissors = siswrn (plural

sisyrnau) masculine

score

1 noun

= sgôr (plural sgorau) feminine

2 verb

= sgorio

Scorpio noun

= y Sgorpion masculine

Scot noun

= Albanwr (plural Albanwyr) masculine

= Albanes (plural -au) feminine

Scotland noun

= yr Alban feminine

! The word for 'the' is part of the name of the country in Welsh—they come from **Scotland** = maen nhw'n dod o'r Alban.

Scottish adjective

= o'r Alban, Albanaidd

Scottish Gaelic noun

= Gaeleg yr Alban

scrape verb

= rhathu

scratch

1 verb

= crafu

to scratch oneself on something =

cael crafiad gan °rywbeth

2 noun

= crafiad (plural -au) masculine

scratchcard noun

= cerdyn datgelu (plural cardiau

datgelu) masculine

scream

1 verb

= sgrechian

2 noun

= sgrech (plural -au) feminine

screen

1 noun

= sgrin (plural sgriniau) feminine

2 verb

• (film)

= dangos

• (check)

= sgrinio

screw

1 noun

= sgriw (plural -iau) feminine

2 verb

= sgriwio

sea noun

= môr (plural moroedd) masculine

by the sea = ar °lan y môr

the North Sea = y Môr Tawch

the Irish Sea = Môr Iwerddon

the Mediterranean Sea = Môr y Canoldir

seagull noun

= gwylan (plural -od) feminine

seal

1 noun

• (animal)

= morlo (plural -i) masculine

• (on package)

= sêl (plural seliau) feminine

2 verb

= selio

search verb

= chwilio

to search for something = chwilio am°

rywbeth

to search something = chwilio

rhywbeth

seashell noun

= cragen (plural cregyn) feminine

seasick adjective

= sâl môr

seaside noun

by/at the seaside = ar °lan y môr

season noun

= tymor (plural tymhorau) masculine

season ticket noun

= toctyn tymor (plural toctynnau tymor)

masculine

seat *noun*

- = sedd (*plural* -i, -au) *feminine*
- to take a seat** = eistedd
- front seat** = sedd °flaen (*plural* seddi blaen)
- back seat** = sedd °gefn (*plural* seddi cefn)
- safe seat** = sedd °ddiogel (*plural* seddi diogel)
- marginal seat** = sedd ymylol (*plural* seddi ymylol)

seatbelt *noun*

- = gwregys diogelwch (*plural* gwregysau diogelwch) *masculine*

second

- 1** *adjective*
- = ail°

! **ail°** always precedes the noun it qualifies, and causes soft mutation.

- this is the second time I've called** = dyma'r ail °dro i mi °alw
- every second day** = °bob yn ail °ddiwrnod
- to have second thoughts** = ailfeddwl

2 *noun*

- = eiliad (*plural* -au) *feminine or masculine*
- wait a second** = arhoswch eiliad

3 *adverb*

- = yn ail
- to come second** = dod yn ail

secondary *adjective*

- (*less important*)
- = eilradd

secondary school *noun*

- = ysgol uwchradd (*plural* ysgolion uwchradd) *feminine*

second-hand *adjective*

- = ail-law
- second-hand books** = llyfrau ail-law

secret

1 *adjective*

- = cyfrinachol, cudd
- to keep something secret** = cadw rhywbeth yn °gyfrinach
- in secret** = yn °gyfrinachol

2 *noun*

- = cyfrinach (*plural* -au) *feminine*
- to tell someone a secret** = dweud cyfrinach wrth° rywun

secretary *noun*

- = ysgrifenyddes (*plural* -au) *feminine*
- = ysgrifennydd (*plural* ysgrifenyddion) *masculine*

secure

1 *adjective*

- = diogel

2 *verb*

- = diogelu, sicrhau
- to secure someone's release** = cael rhyddhau rhywun

security *noun*

- (*safety*)
- = diogelwch *masculine*
- (*financial guarantee*)
- = gwarant (*plural* -au) *feminine*

security forces *plural noun*

- = lluoedd diogelwch *plural*

see *verb*

- = gweld (*stem* gwel-)
- ..., **you see** = ..., °weli di, ..., °welwch chi
- see you!** = °wela i di/chi!
- see you tomorrow** = °wela i di/chi yfory
- I'll go and see** = a i i °weld
- what can you see?** = beth °welwch chi?
- I see** (*I understand*) = gwela i
- to see someone home** = mynd â^h rhywun adre, hebrwng (*stem* hebryng-) rhywun adre

seek *verb*

- (*look for*)
- = chwilio
- to seek something** = chwilio am° rywbeth
- (*try*)
- = ceisio, trio
- to seek to do something** = ceisio/trio gwneud rhywbeth

seem *verb*

- = ymddangos, edrych
- it seems you are right** = mae'n ymddangos bod chi'n iawn
- everything seems okay** = mae popeth yn edrych yn iawn
- she seems sad** = mae golwg °drist arni (hi)

! **ymddangos** is normal in impersonal uses involving 'it...' and a following 'that...' clause, but is usually avoided in other cases—**mae hi'n ymddangos yn °drist* sounds odd for

'she seems sad', which is better rendered by the noun **golwg** (see third example above) or **edrych**. See entries on the Welsh-English side for more examples.

seize verb

= cipio

seldom adverb

= yn anaml

select**1** verb

= dewis, dethol

2 adjective

= dethol

a select few = ychydig o °bobol
°ddethol

selection noun

= dewis masculine, detholiad (plural -au)
masculine

self-aware adjective

= hunanymwybodol

self-confidence noun

= hunanhyder masculine

self-confident adjective

= hunanhyderus

self-destructive adjective

= hunanaddinistriol

self-employed adjective

= hunangyflogedig

self-expression noun

= hunanfyngiant masculine

self-respect noun

= hunanbarch masculine

self-service noun

= hunanwasanaeth masculine

a self-service canteen = ffretur
hunanwasanaeth

selfish adjective

= hunanol

sell verb

= gwerthu

semester noun

= tymor (plural tymhorau) masculine

semi-detached adjective

semi-detached house = tŷ semi (plural
tai semi) masculine

send verb

= anfon, danfon, hela, hala

! All these terms are broadly synonymous, with little to choose between them. Note that they all use i° with places or establishments, but at° with people.

to send someone something = anfon
rhywbeth at° rywun

to send something to somewhere =
anfon rhywbeth i° rywle

to send someone a letter = anfon
llythyr at° rywun

to send someone to do something =
anfon rhywun i °wneud rhywbeth

senior adjective

= hŷn

sense**1** noun

• (faculty)

= synnwyr (plural synhwyrau)
masculine

common sense = synnwyr cyffredin

the five senses = y pum synnwyr

sense of humour = synnwyr digrifwch
masculine

• (reason)

= pwyll masculine

that would make sense = byddai

hynny'n °ddoeth

• (sanity)

he's out of his senses = mae e o'i

°go(f), mae e'n °wallgo(f)

• (consciousness)

to come to one's senses = dod atoch

chi'ch hun(an)

• (sensation)

= teimlad (plural -au) masculine

• (meaning)

= ystyr (plural -on) feminine

to make sense of something = deall
rhywbeth

in what sense? = ym °mha ystyr?

in the true sense of the word = yng

°ngwir ystyr y gair

2 verb

= synhwyro, teimlo

sensible adjective

(reasonable, wise)

= synhwyrol

sensitive adjective

= teimladwy, sensitif

sentence**1** *noun*

- (*grammatical*)
= brawddeg (*plural -au*) *feminine*
 - (*judicial*)
= dedfryd (*plural -au*) *feminine*
- a life sentence** = dedfryd am oes

2 *verb*

- = dedfrydu
- to sentence someone to three years' imprisonment** = dedfrydu rhywun i °dair blynedd o °garchar

separate**1** *adjective*

- = gwahanol, ar wahân

2 *verb*

- (*come apart*)
= gwahanu, ymrannu
- (*pull/keep apart*)
= gwahanu
they'll have to be separated = bydd rhaid (eu) gwahanu nhw
- (*of a couple*)
= gwahanu, ymwahanu
they separated last year = naethon nhw °wahanu/ymwahanu llynedd

separated *adjective*

- (*of couple*)
= wedi gwahanu

separately *adverb*

- = ar wahân

September *noun*

- = Medi, mis Medi

see also **January**

serial *noun*

- = cyfres (*plural -i*) *feminine*

series *noun*

- = cyfres (*plural -i*) *feminine*

serious *adjective*

- (*not minor or unimportant*)
= difrifol
a serious accident = damwain °ddifrifol *feminine*
- (*in earnest*)
= o °ddifri(f)
are you serious? = dych chi o °ddifri?

seriously *adverb*

- = o °ddifri(f)

I want to talk seriously now = dw i am siarad o °ddifri nawr

sermon *noun*

- = pregeth (*plural -au*) *feminine*

serve *verb*

- = gwasanaethu
- are you being served?** = ydy/oes rhywun yn helpu chi?
= ydy/oes rhywun yn delio â chi?
- breakfast is served from eight till nine** = darperir brecwast o wyth tan naw

service *noun*

- = gwasanaeth (*plural -au*) *masculine*

! A masculine noun despite the ending **-aeth** which is usually a sign of feminine.

bus service = gwasanaeth bysiau

the service here is poor = mae'r gwasanaeth fan hyn yn °wael

service station *noun*

- = gorsaf °betrol (*plural gorsafoedd petrol*) *feminine*

serviette *noun*

- = napcyn (*plural -au*) *masculine*

set**1** *noun*

- = set (*plural -iau*) *feminine*
- a set of keys** = set o allweddi
a set of books = set o °lyfrau

2 *verb*

- (*general senses*)
= gosod, rhoi (*stem rhoi-, rhodd-*)
to set a price = gosod pris
to set the alarm = gosod y larwm
to set an exam = gosod arholiad
to set homework = gosod/rhoi gwaith cartre(f)
to set an example = gosod esiampl
to set the table = gosod y bwrdd
to set fire to something = rhoi rhywbeth ar dân
to set someone free = rhyddhau rhywun
the film is set in Wales = mae'r ffilm wedi'i lleoli yng °Nghymru
- (*sun*)
= machlud
before the sun sets = cyn i'r haul °fachlud

set off

- (*leave*)
= gadael (*stem gadaw-*)
- (*cause to explode etc*)
= tanio

to set off an alarm = cychwyn (*stem* cychwynn-) larwm

set up

- (*establish*) = sefydlu
- (*organise*) = trefnu

settle *verb*

to settle an argument = torri dadl
to settle a question = datrys cwestiwn
nothing is settled yet = does dim byd wedi'i °benderfynu hyd yma
to settle in an area = ymgartrefu/ymsefydlu mewn ardal

settle down

= setlo

settle in

(*to a new home*)
 = ymgartrefu

settled *adjective*

(*weather etc*)
 = sefydlog

seven *numeral*

= saith
seven days = saith °niwrnod
seven years = saith °mlynedd
seven years old = saith °mlwydd oed
at seven o'clock = am saith o'r °gloch
I have seven = mae gen i saith (*North*), mae saith 'da fi (*South*)

seventeen *numeral*

= dauarbymtheg *or* undeg saith
masculine
 = dwyarbymtheg *or* undeg saith
feminine

seventeen horses = dau °geffyl ar °bymtheg, undeg saith o °geffylau
seventeen cats = dwy °gath ar °bymtheg, undeg saith o °gathod
seventeen years = dwy °flynedd ar °bymtheg, undeg saith o °flynyddoedd
seventeen years old = dwy °flwydd ar °bymtheg oed, undeg saith °mlwydd oed

seventh *adjective*

= seithfed

! seithfed *precedes the noun.*

seventy *numeral*

= saithdeg
seventy apples = saithdeg o afalau

seventy years = saithdeg o °flynyddoedd
seventy years old = saithdeg oed

several

1 *adjective*

= amryw° (*precedes noun*), sawl (*precedes singular noun*)

! amryw° and sawl both precede the noun they refer to but behave differently—**amryw°** takes a plural and causes soft mutation, **sawl** takes a singular and causes no mutation.

several books = amryw °lyfrau

= sawl llyfr

several times = °droeon

2 *pronoun*

I've got several = mae amryw/sawl un 'da fi

severe *adjective*

- (*serious*) = difrifol
- (*harsh*) = llym, hallt

sew *verb*

= gwnio

sewing machine *noun*

= peiriant gwnio (*plural* peiriannau gwnio) *masculine*

sex *noun*

= rhyw (*plural*-iau) *masculine or feminine*

to have sex with someone = cael rhyw â^h rhywun, cael cyfathrach °rywiol â^h rhywun

shade *noun*

= cysgod (*plural*-ion) *masculine*

to sit in the shade of something = eistedd dan °gysgod rhywbeth

shadow *noun*

= cysgod (*plural*-ion) *masculine*

to cast a shadow over something = taflu cysgod dros° rhywbeth

shake *verb*

- (*tremble*)

= crynu

he was shaking with fright = roedd e'n crynu gan ofn

the walls were shaking = roedd y waliau'n crynu

- (*bottle, fist etc*)
= ysgwyd, siglo (*South*)
he shook his head = mi siglodd e ei
°ben
to shake someone's hand = ysgwyd
llaw rhywun
to shake hands with someone =
ysgwyd llaw â^h rhywun

shall *verb*

! *There is no verb in Welsh directly corresponding to this auxiliary—its main use in English is for making suggestions, and for this there are various phrasings available in Welsh.*

- shall I open the window?** = dych chi eisiau i mi agor y ffenest?, beth am i mi agor y ffenest?
- shall we go out?** = beth am inni °fynd allan?

shame *noun*

- (*feeling*)
= cywilydd *masculine*
- (*pity*)
it's a shame he's not here = °drueni
°fod e °ddim yma
what a shame! = 'na °drueni!

shampoo *noun*

= siampw (*plural -s*) *masculine*

shape *noun*

= ffurf (*plural -iau*) *feminine*, siâp (*plural siapiau*) *masculine*
to be in good shape = bod yn heini,
bod mewn cyflwr da
in the shape of a circle = ar ffurf cylch

share**1** *noun*

= cyfran (*plural -nau*) *feminine*
to have shares in something = dal
(*stem dali-*) cyfrannau ynⁿ rhywbeth

2 *verb*

= rhannu
to share a flat with someone = rhannu
fflat â^h rhywun

shark *noun*

= morgi (*plural morgwn*) *masculine*,
siarc (*plural -od*) *masculine*

sharp *adjective*

- (*blade, point etc*)
= minog, miniog
- (*sudden*)
= sydyn

- (*intelligent*)
= siarp
- (*severe*)
= hallt
- (*in taste*)
= egr

shave *verb*

= siafio

shaver *noun*

= siafiwr (*plural siafwyr*) *masculine*

she *pronoun*

= hi; hithau

she'll be there = bydd hi yno

there she is! = dyna/dacw hi!

here she comes! = dyma hi'n dod!

! *For details on the expanded form hithau, see entry on the Welsh-English side.*

sheep *noun*

= dafad (*plural defaid*) *feminine*

sheepdog *noun*

= ci defaid (*plural cŵn defaid*) *masculine*

sheet *noun*

- (*on bed*)
= cynfas (*plural -au*) *feminine*
- (*of paper*)
= dalen (*plural -nau*) *feminine*
- (*with writing on it*)
= taflen (*plural -ni*) *feminine*

shelf *noun*

= silff (*plural -oedd*) *feminine*

shell *noun*

= cragen (*plural cregyn*) *feminine*

shelter *noun*

- (*refuge*)
= lloches (*plural -au*) *feminine*
- (*cover*)
= cysgod *masculine*
to take shelter from something =
cysgodi rhag rhywbeth

shield**1** *noun*

= tarian (*plural -au*) *feminine*

2 *verb*

= gwarchod, cysgodi

shilling *noun*

= swllt (*plural sylltau*) *masculine*

shin *noun*

= crimog (*plural -au*) *feminine*

shine *verb*

- (give out light)
= disgleirio
- (sun, moon)
= tywynnu, disgleirio
- (torch etc)
to shine a light at someone = cyfeirio golau at° rywun
- (polish)
= sgleinio

